# Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

# Asesiad Llesiant 2017



Our Vale • Ein Bro

Vale of Glamorgan Public Services Board

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg

## Cynnwys


**1. Cyfle Newydd** 3

**1.1** Cychwyn y daith 3
**1.2** Y Gymru rydym ni ei heisiau 4
**1.3** Ynglŷn â'n hasesiad 5

**2. Sut wnaethom ni yr asesiad?** 7

**2.1** Casglu data a thystiolaeth 7
**2.2** Ymgysylltu â rhanddeiliaid 7
**2.3** Ymgysylltu â'r cyhoedd 8
**2.4** Ffyrdd o weithio 13

**3. Ynglŷn â Bro Morgannwg** 15

**3.1** Ein poblogaeth 16
**3.2** Ein cymunedau 18
**3.3** Ein hasedau a'n cyfleusterau 22
**3.4** Ein hamgylchedd 24

**4. Cael Dyfodol Iach a Gweithgar** 36

**4.1** Penawdau 36
**4.2** Ein canfyddiadau 39
**4.3** Crynodeb 63
**4.4** Lle mae angen i ni gynyddu ein sail dystiolaeth 64

**5. Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol** 65

**5.1** Penawdau 65
**5.2** Ein canfyddiadau 68
**5.3** Crynodeb 87
**5.4** Lle mae angen i ni gynyddu ein sail dystiolaeth 88

**6. Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad** 89

**6.1** Penawdau 89
**6.2** Ein canfyddiadau 93
**6.3** Crynodeb 115
**6.4** Lle mae angen i ni gynyddu ein sail dystiolaeth 116

**7. Ein Casgliad: Llesiant ym Mro Morgannwg** 117

**8. Mae ein Taith yn Parhau...Beth a wnawn ni nesaf?** 121

# 1. Cyfle Newydd

Dyma’r asesiad llesiant cyntaf a gyhoeddwyd  gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg (BGC) ‘Ein Bro’ ac mae’n dwyn ynghyd gyfoeth o wybodaeth am fywyd ym Mro Morgannwg. Rydym wedi edrych ar lawer o wahanol fathau o ddata ac ymchwil ac wedi gweithio'n galed i ymgysylltu â thrigolion er mwyn deall yr hyn sy'n dda am fywyd yn y Fro a beth fyddai'n gwella llesiant lleol.   Mae'r asesiad yn gyfle gwirioneddol i’n helpu i wybod mwy am ein cymunedau a'r bobl sy'n eu ffurfio. Bydd yr asesiad hwn yn llywio ein hamcanion llesiant a'n cynllun i wella llesiant ein cymunedau nawr ac yn y dyfodol.

### 1.1 Cychwyn y daith

Dim ond dechrau taith gyffrous yw’r cyhoeddiad hwn o’n hasesiad llesiant cyntaf. Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) yw'r darn cyntaf o ddeddfwriaeth o'i fath, a daeth i rym ym mis Ebrill 2016 gyda'r prif nod o sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn cyflwyno cyfle gwirioneddol i sicrhau newid ar draws y gwasanaethau cyhoeddus. Gan weithio gyda'n gilydd, rhaid i ni geisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Rydym yn cydnabod bod hyn yn her, ond mae’n un yr ydym yn awyddus i’w chofleidio ac mae'r asesiad llesiant yn offeryn hanfodol i'n helpu i gyflawni hyn.

Sefydlodd Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) ym mhob ardal awdurdod lleol. Pwrpas y BGC yw 'gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal drwy gyfrannu at gyflawni nodau llesiant.   Mae 'Ein Bro', sef BGC Bro Morgannwg, yn cynnwys uwch gynrychiolwyr o'r sefydliadau canlynol, sydd wedi gweithio gyda’i gilydd i ddatblygu’r asesiad hwn, a gwella ein dealltwriaeth o’n cymunedau.

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a’r Fro (BIP)
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM)
- Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Heddlu De Cymru
- Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
- Cynrychiolaeth Cynghorau Tref a Chymuned
- Cyngor Bro Morgannwg
- Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
- Llywodraeth Cymru

## 1.2 Y Gymru Rydym Ni ei Heisiau

Noda'r Ddeddf saith nod llesiant i Gymru er mwyn gwella llesiant ein cymunedau a chyflawni'r Gymru yr ydym yn dymuno ei chael ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rhaid i BGC y Fro mwyhau ein cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau hyn, a bydd yr asesiad a'r cynllun llesiant yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu gwneud hyn ac y cawn ein dwyn i gyfrif am ein cynnydd. Nodir y saith nod llesiant i Gymru yn y diagram canlynol.

Mae'r nodau llesiant i Gymru yn gyson ag Agenda Cenhedloedd Unedig 2030 ar gyfer Datblygu Cynaliadwy sy'n nodi 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy Byd-eang. Drwy weithio i fwyhau ein cyfraniad tuag at amcanion llesiant Cymru, bydd BGC y Fro'n cyfrannu ymhellach tuag at i Gymru fod yn genedl sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

| Nod | Disgrifiad o'r nod |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. |
| Cymru gydnerth | Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cynnal cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). |
| Cymru iachach | Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. |
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd). |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. |
| Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. |

## 1.3 Ynglŷn â’n Hasesiad

Mae'r asesiad yn ystyried cyflwr llesiant (cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol) ar draws y cyfan o'r ardal ac o fewn cymunedau penodol. Hefyd ystyria’r asesiad lesiant grwpiau penodol o bobl o fewn yr ardal, rhagfynegiadau o dueddiadau tebygol ar gyfer yr ardal, a set o ddangosyddion cenedlaethol a ddatblygwyd i fesur cynnydd Cymru tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol yn y dyfodol.

Cydnabyddir y gall llesiant olygu gwahanol bethau i wahanol bobl a gall ddibynnu ar gymaint o ffactorau gwahanol, gan gynnwys eich oed, lle rydych chi'n byw, eich iechyd neu hyd yn oed y tywydd! Mae'r asesiad hwn yn cydnabod y gwahaniaethau hyn ac yn ymdrechu i ddangos yr amrywiaeth o fywyd yn y Fro a'r ystod eang o ffactorau sy'n gallu effeithio ar lesiant.

Fel rhan o'r asesiad, ystyriwyd amrywiaeth o ffynonellau o dystiolaeth gan gynnwys data ystadegol, gwybodaeth ymgysylltu ac ymchwil academaidd, sydd wedi rhoi cyfle i ddal cryfderau ac asedau y bobl a'r cymunedau ym Mro Morgannwg. Yn ogystal, rydym wedi cymryd i ystyriaeth ddarganfyddiadau ystod o asesiadau statudol ychwanegol gan gynnwys yr Asesiad Anghenion Poblogaeth fel sy’n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Mae'r asesiad llesiant yn broses o wella ein sylfaen dystiolaeth yn barhaus a siarad gyda'n cymunedau i sicrhau bod gennym y sylfaen orau bosibl ar gyfer cynllunio llesiant ym Mro Morgannwg. Bydd gwaith yn parhau i wella asesu, ymgysylltu â'n trigolion a chynhyrchu Cynllun Llesiant BGC.

Mae ein hasesiad wedi ei strwythuro o amgylch nifer o brif ffactorau tuag at gael llesiant da, gan ddwyn ynghyd wybodaeth o bedwar adroddiad tystiolaeth fanwl. Ystyrir pwysigrwydd **ein hamgylchedd** o fewn adrannau rhagarweiniol a chyd-destunol y ddogfen hon, gan dynnu sylw at ei arwyddocâd ar gyfer pob agwedd ar ein llesiant. Cynhyrchwyd adroddiad tystiolaeth fanwl mewn perthynas â'n hamgylchedd ac ystyrir materion amgylcheddol hefyd yn y tair rhan o'n hasesiad sy'n archwilio amrywiaeth o bynciau a'u heffaith ar lesiant:

- **Cael Dyfodol Iach a Gweithgar**
- **Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol**
- **Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad**

Diben y brif ddogfen drosolwg hon yw rhoi trosolwg o'n canfyddiadau, gan ddwyn ynghyd wybodaeth o gyfres o adroddiadau tystiolaeth a’n hadroddiad ymgysylltu i ddangos yr amrywiaeth o ffactorau sy'n cysylltu â'i gilydd i effeithio ar ein llesiant.

Yn ogystal â’r crynodeb gweithredol hwn, mae'r asesiad yn cynnwys cyfres o gynhyrchion fel yr amlinellir isod:

- Crynodeb Gweithredol o’r Asesiad Llesiant
- Pedwar adroddiad tystiolaeth fanwl – ‘Cael Dyfodol Iach a Gweithgar’, ‘Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol’, ‘Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad’ ac ‘Ein Hamgylchedd’.
- Proffiliau Ardaloedd Cymunedol a fydd yn cynnwys canfyddiadau allweddol o'r asesiad ar gyfer y Fro yn ei chyfanrwydd a phob un o’r tair ardal gymunedol – Y Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro.
- Adroddiad manwl ar ganfyddiadau ein hymgyrch ymgysylltu ‘Amser Siarad’.
- Ceir cyfeiriadur tystiolaeth ac ymchwil sy’n darparu manylion o ble y gellir cael gwybodaeth fanylach am y dystiolaeth a nodir yn yr asesiad, os oes angen.

## 2. Sut wnaethom ni yr asesiad?

Er mwyn cynhyrchu'r asesiad llesiant, cynhaliwyd ystod o waith. Mae'n bwysig nodi bod y BGC yn cydnabod yr asesiad llesiant fel proses gyfredol o wella ein sylfaen dystiolaeth yn barhaus a siarad gyda'n cymunedau i sicrhau bod gennym y sylfaen orau bosibl ar gyfer cynllunio llesiant ym Mro Morgannwg.

### 2.1 Casglu data a thystiolaeth

Er mwyn darparu man cychwyn i'r BGC'au ymgymryd â'r asesiad, comisiynodd Llywodraeth Cymru yr Uned Ddata Llywodraeth Leol (LGDU) i gynhyrchu set ddata gyffredin sy'n cynnwys ystod o ddangosyddion ar draws y pedair agwedd ar les - cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Ystyriodd aelodau'r BGC a Grŵp Gwybodaeth Busnes y BGC (sy'n dwyn ynghyd amrywiaeth o ddadansoddwyr data, swyddogion ymchwil ac ymgynghori ar draws sefydliadau partner) y dangosyddion a gynhwysir yn y set ddata gyffredin i nodi unrhyw fylchau a ffynonellau eraill o ddata, tystiolaeth ac ymchwil y dylid eu hystyried yn yr asesiad, er mwyn asesu cyflwr llesiant ym Mro Morgannwg ac ystyried unrhyw dueddiadau tebygol yn y dyfodol.

O'r ymarfer hwn ac ymgysylltiad ag amrywiaeth o randdeiliaid, datblygwyd cyfeiriadur data er mwyn nodi'r ystod o ffynonellau i'w hystyried yn yr asesiad. Roedd hyn yn cynnwys dangosyddion set ddata cyffredin a'r Dangosyddion Cenedlaethol. Gwnaed dadansoddiad o'r wybodaeth hon ar gyfer Bro Morgannwg yn ei chyfanrwydd a lle bo hynny'n bosibl, ar gyfer gwahanol ardaloedd cymunedol a grwpiau poblogaeth.

Amlinellwyd y canfyddiadau manwl o'r dadansoddiad hwn mewn cyfres o adroddiadau tystiolaeth cynhwysfawr, gyda'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r canfyddiadau allweddol sy'n deillio o'r asesiad mewn ffordd fwy integredig.

### 2.2 Ymgysylltu â rhanddeiliaid

Er mwyn sicrhau bod ystod eang o randdeiliaid ar draws sefydliadau partner wedi cyfrannu at yr asesiad, cynhaliodd y BGC amrywiaeth o sesiynau i roi cyfle i drafod y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r asesiad.

Cynhaliwyd gweithdy BGC a Grŵp Gwybodaeth Busnes cychwynnol ar ddechrau'r broses i drafod syniadau cychwynnol mewn perthynas ag asesu a rhoi cyfle i ystyried sut y gallem sicrhau bod yr asesiad yn datblygu'n sylfaen dystiolaeth gadarn sy'n hygyrch i ystod o ddefnyddwyr. Hefyd cynhaliwyd ymarfer i ystyried a chytuno ar yr ardaloedd cymunedol i'w defnyddio yn yr asesiad.

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau Ymgysylltu gyda rhanddeiliaid a gweithwyr proffesiynol drwy gydol y broses er mwyn profi canfyddiadau a deall unrhyw batrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg a nodwyd drwy'r data. Hefyd rhoddodd gwahanol rwydweithiau/ cyfarfodydd gyfle defnyddiol i drafod yr asesiad gyda phartneriaid eraill a dysgu o arfer da sy'n cael ei wneud gan BGC'au eraill e.e. trafodaethau gyda Chyngor Celfyddydau Cymru a phresenoldeb yn y digwyddiad Gwybodaeth Cenedlaethol.

Drwy gydol y broses, cyfranogodd swyddogion yng Ngrŵp Llywio Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg er mwyn sicrhau y gellir parhau i wneud cysylltiadau rhwng yr asesiad llesiant a'r Asesiad Anghenion Poblogaeth, fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Hefyd buom yn mynychu digwyddiad lansio DEWIS Bro Morgannwg fel stondinwyr, i gasglu barn ystod o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ar draws gwahanol sectorau a sefydliadau er mwyn gwella llesiant.

Yn fwyaf diweddar, cynhaliwyd gweithdy BGC a oedd yn cynnwys 'stondin' ar gyfer pob adran o'n hasesiad. Ymwelodd aelodau'r BGC â phob 'stondin' yn ei dro i ystyried y canfyddiadau allweddol cyn trafod fel grŵp ac ystyried ystod o feysydd y dylid eu harchwilio yn fanylach yn ystod cam nesaf yr asesiad.

### 2.3 Ymgysylltu â'r cyhoedd

Er mwyn cydnabod yr ystod eang o ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n digwydd trwy Asesiad Llesiant Bro Morgannwg, mae Asesiad Llesiant Caerdydd ac Asesiad Anghenion Poblogaeth Caerdydd a'r Fro, BGC y Fro, BGC Caerdydd a phartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn cydweithio i ymgymryd ag ymgyrch ymgysylltu ar y cyd – Amser Siarad.

Cydnabuwyd y byddai swm sylweddol o ymgysylltu yn digwydd ar draws y rhanbarth a datblygwyd y brand ar y cyd i sicrhau dull cydlynol er mwyn i aelodau o'r cyhoedd gymryd rhan mewn gweithgareddau. Yna addaswyd y brand ar gyfer gwahanol ddigwyddiadau e.e. Amser Siarad yn y Barri, Amser Siarad Gofalwyr. Datblygwyd amrywiaeth o ddeunyddiau Amser Siarad i gynnwys baneri cyflym 'pop-up' er mwyn sicrhau bod defnydd brand cyson eto ar draws yr holl weithgareddau ymgysylltu.

Ym Mro Morgannwg datblygwyd a chynhaliwyd arolwg llesiant trwy gydol mis Gorffennaf ac Awst 2016. Derbyniwyd mwy na 800 o ymatebion, gyda'r arolwg yn cael ei hyrwyddo gan bartneriaid, ar-lein ac mewn lleoliadau fel y Swyddfeydd Dinesig, llyfrgelloedd lleol ac Ysbyty Llandochau. Datblygwyd cyfres o gwestiynau ar y cyd ar gyfer yr arolwg y Fro a chawsant eu hintegreiddio yn arolwg Holi Caerdydd BGC Caerdydd, i ganiatáu ar gyfer dadansoddiad o ymatebion ar ystod o gwestiynau ar draws y rhanbarth. Hefyd cysylltwyd ag ystod o

weithgareddau ymgysylltu eraill, gan gynnwys Uwch Arolwg Ysgolion 2016 a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc y Fro. Cynhwyswyd nifer o gwestiynau a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Amser Siarad yn yr Uwch Arolwg Ysgolion, er mwyn cymharu'r canlyniadau rhwng oedolion a phlant a phobl ifanc. Cynhwyswyd nifer o ganfyddiadau'r arolwg hwn yn ein hasesiad ac yn ein hadroddiad ymgysylltu manylach. Hefyd cynhwysodd yr un Arolwg Ysgolion gwestiynau wedi'u cysylltu â'r Asesiad Anghenion Poblogaeth (AAP), er mwyn unwaith eto sicrhau ein bod yn defnyddio dull cydweithredol i ymdrin â'r ystod o weithgareddau ymgysylltu. Derbyniodd yr Arolwg Ysgolion oddeutu 1100 o ymatebion gan ddisgyblion ysgolion uwchradd a 260 o ymatebion gan ddisgyblion ysgolion cynradd.




Yn ychwanegol, mynychodd partneriaid nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys Sioe'r Fro, Festivale (ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol yn y Barri), Gŵyl Penarth, Diwrnod Hwyl Cymunedol Sain Tathan a Diwrnod Hwyl Dechrau'n Deg. Hefyd treuliodd swyddogion ddiwrnod yn Ynys y Barri, yn un o'r cytiau traeth, er mwyn siarad â thrigolion ac ymwelwyr.

Datblygwyd cyfres o Gardiau Post Amser Siarad i'w defnyddio yn y digwyddiadau hyn a chawsant eu defnyddio hefyd fel rhan o'r ymgysylltu ar gyfer yr AAP. Roedd y cardiau post yn gofyn tri chwestiwn cyflym i drigolion - beth sy'n dda am lle'r ydych chi'n byw, beth allai fod yn well, a beth sy'n bwysig ar gyfer eich iechyd a'ch llesiant. Gofynnodd y cardiau post hefyd am oedran, rhyw a chod post yr ymatebwyr er mwyn caniatáu dadansoddi yn ôl demograffeg ac yn ôl ardal. Defnyddiwyd y cardiau post hefyd i ymgysylltu â chyfres o grwpiau mwy ffurfiol, megis Fforwm Ieuenctid y Fro a'r Fforwm Strategaeth 50+.



Hefyd defnyddiwyd swigod brand Amser Siarad yn y gwahanol ddigwyddiadau a fynychwyd i helpu i ymgysylltu â theuluoedd ifanc.

Ceir gwybodaeth fanylach am ein hymgyrch ymgysylltu yn yr adroddiad ymgysylltu Amser Siarad llawn. Mae hwn yn cynnwys canfyddiadau manwl a chanlyniadau'r arolwg a digwyddiadau eraill. Hefyd mae'n cynnwys

canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth 2017. Roedd hyn yn cynnwys sesiynau galw i mewn ym mhob un o'r ardaloedd cymunedol, gweithdy rhanddeiliaid, a defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gael sgwrs am ganfyddiadau allweddol yr asesiad, a p'un a ydym wedi nodi'r blaenoriaethau cywir ar gyfer symud ymlaen.



‘Mwy o weithgareddau ieuenctid’

‘Ofn defnyddio parc pan mae oedolion a phob ifanc yno’

‘Trafnidiaeth gyhoeddus’

‘Mwy o siopau a sinema’

‘Beicio mwy diogel’

‘Gwell wi-fi’

‘Mwy o wasanaethau lleol’

Cwestiwn 2

**Beth allai fod yn well?**

‘Cynnal a chadw ffyrdd a phalmentydd’

‘more health care’

‘Ymddygiad gwrthgymdeithasol’

‘Mwy o finiau’

‘Presenoldeb yr heddlu’

‘Ffyrdd peryglus’

‘Cyfleusterau lleol’

‘Parciau’

‘Goleuadau stryd’

‘Gwell cyfarpar i bobl ifanc’

‘Parcio’

‘Rhywle i blant chwarae’

‘Mwy i bobl ifanc ei wneud’

‘Swnllyd’

‘Mynediad amserol i apwyntiadau meddygon teulu’

‘Gwasanaethau cwmnïaeth’

‘Gwasanaethau hamdden yn fwy hygyrch’

‘Heddlu yn dda ac yn helpu llawer o bobl’

‘Gwasanaethau ieuenctid’

‘Tripiau cymdeithasol’

‘Mynediad at wasanaethau iechyd da’

‘Anifeiliaid a choed’

Cwestiwn 3

**Pa wasanaethau sy’n bwysig i’ch iechyd a llesiant?**

‘Tawelwch meddwl a dim straen’

‘Siopau gerllaw’

‘Teulu’

‘Cadw’n symudol’

‘Strydoedd glanach’

‘Bod yn heini a chael bywyd hir cynhyrchiol’

‘Bwyta’n iach ac ymarfer corff’

‘Cysylltiad â chymdogion’

‘Parciau’

‘Sicrhau bod anghenion fy nheulu yn cael eu diwallu’

‘Bysus a threnau fel y gellwch deithio o gwmpas’

‘Teimlo’n ddiogel’

‘Mynediad i’r arfordir a chefn gwlad’

‘Gwasanaethau sgrinio’

‘Gwell cydlynu gwasanaethau’

‘Cefnogaeth i bawb’

‘Mae gwasanaethau cyhoeddus yn dda ar hyn o bryd’

‘Gwasanaethau gofalu da i gefnogi pobl i aros yn eu cartrefi’

## 2.4 Ffyrdd o weithio

Roedd ymgymryd â’r asesiad hwn yn her sylweddol ac yn gyfle i ddatblygu ein sylfaen sgiliau, gwybodaeth a thystiolaeth. Buom yn ymwybodol o’r angen i ddatblygu gwell dealltwriaeth o lesiant yn y Fro a beth mae hyn yn ei olygu i wahanol gymunedau. Wrth ymgymryd â’r asesiad hwn, roeddem yn awyddus i sicrhau bod ffocws clir ar yr egwyddor datblygu cynaliadwy, ac wrth wraidd ein gweithgareddau mae angen i ni sicrhau bod:

***‘anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain'***

Drwy gydol ein hymgysylltu a chasglu a dadansoddi data, rydym wedi cadw at yr egwyddor o ddatblygu cynaliadwy. Mabwysiadwyd pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf i sicrhau bod gennym asesiad cadarn; cydweithio, cyfranogiad, integreiddio, atal, ac edrych ar y tymor hir. Mae'r asesiad yn darparu'r sail ar gyfer gwaith yn y dyfodol gan gynnwys datblygu ein hamcanion a chynllun llesiant. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith yn arbennig mewn perthynas â meddwl mewn ffordd fwy strwythuredig ynghylch dyfodol tymor hir y Fro. Mae hwn yn faes yr ydym yn gobeithio ei ddatblygu ymhellach ar y cyd â gwaith sy'n cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru o ran Tueddiadau’r Dyfodol ac adroddiad ‘Cenedlaethau'r Dyfodol’ Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol, a bydd angen iddo ystyried gweithgareddau a phwysau rhanbarthol ehangach.

Mae ein defnydd o'r pum ffordd o weithio yn rhan annatod o’n dull o asesu, a darperir rhai enghreifftiau o'n dull gweithredu isod.

- Edrych ar y **tymor hir** – mae hwn yn amlwg mewn amrywiaeth o wybodaeth sydd wedi cael ei dadansoddi fel rhan o'n hasesiad, yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, newid yn y boblogaeth a rhagamcanion iechyd y cyhoedd. Fel rhan o'r gwaith a wnaed i benderfynu ar y themâu allweddol sy'n deillio o'r asesiad, buom yn ymwybodol o'r angen i edrych ar y tymor hir.  Dewiswyd y pedwar maes y bydd y BGC yn canolbwyntio arnynt yn fanylach, ac a amlinellir yn nes ymlaen yn y ddogfen hon (anghydraddoldebau, ein hamgylchedd, ymgysylltu, a sicrhau bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd), i gydnabod yr angen i gymryd camau nawr er mwyn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol cenedlaethau'r dyfodol. Mae hyn hefyd yn cysylltu â ffocws ar ddulliau ataliol.
- Defnyddio dull **integredig** - i gydnabod y gydberthynas rhwng nodau llesiant a'r pedair agwedd ar lesiant, penderfynodd y BGC strwythuro'r asesiad o ran pedair thema; Ein Hamgylchedd, Cael Dyfodol Iach a Gweithgar, Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol a Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad.  Dewiswyd y themâu hyn i helpu pobl i lywio’u ffordd drwy'r asesiad, ac oherwydd y byddent yn galluogi'r BGC i ystyried yr holl nodau ac agweddau ar lesiant mewn ffordd fwy cyfannol. Er

enghraifft, er bod adran fanylach ar yr amgylchedd, ystyrir agweddau perthnasol drwy gydol yr asesiad. Ni ystyriwyd unrhyw fater ar ei ben ei hun, a dadansoddwyd a thrafodwyd gwybodaeth er mwyn sicrhau dull integredig e.e. y berthynas rhwng cyfleoedd cyflogaeth a chael mynediad at ofal plant o ansawdd sy'n fforddiadwy, a sut mae hynny'n cyfrannu at lesiant economaidd a chymdeithasol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y dull hwn wrth i ni ddatblygu ein hasesiad ymhellach.


- **Cynnwys** y boblogaeth mewn penderfyniadau – drwy'r ymgyrch 'Amser Siarad' buom yn ymgysylltu'n helaeth, ac mae'r ymgyrch hon yn cynrychioli cychwyn sgwrs barhaus am lesiant yn y Fro. Rydym yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith i gyrraedd grwpiau anodd eu cyrraedd ac i ymgysylltu â'r sector preifat, a byddwn yn parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed eisoes ac yn datblygu ffyrdd arloesol o ymgysylltu â'n poblogaeth leol. Cyfranogodd mwy na 1,000 o drigolion a rhanddeiliaid eraill yn y broses, gan roi cyfle i siarad am fywyd yn y Fro a'r nodau llesiant cenedlaethol.

- Gweithio mewn ffordd **gydweithredol** - cynhaliwyd yr asesiad ar y cyd gydag ystod eang o bartneriaid ac yn enwedig gyda chyfranogiad y Grŵp Gwybodaeth Busnes amlasiantaeth. Mae pob aelod o'r BGC wedi cyfrannu at y gwaith helaeth a wnaed i gynhyrchu'r asesiad. Rydym wedi gweithio'n agos gyda Phartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Caerdydd a'r Fro, i sicrhau bod yr asesiad llesiant a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn cael eu hadlewyrchu yn y dogfennau perthnasol, a hefyd buom yn gweithio'n agos gyda BGC Caerdydd ar yr ymgyrch 'Amser Siarad'. Fel rhan o'n trafodaethau gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill, roeddem yn awyddus i bwysleisio bod angen i'r asesiad a'r cynllun yn y dyfodol gael ei lunio gan farn ac anghenion ystod eang o bartïon. Un o'r camau cyntaf a gymerwyd gennym fel rhan o ddatblygu'r asesiad oedd cynnal gweithdy ym mis Tachwedd 2015 i edrych ar y gwersi a ddysgwyd o gynhyrchu'r asesiad anghenion a gynhaliwyd yn y gorffennol, o ran y dull gweithredu a fabwysiadwyd a'r dogfennau a gynhyrchwyd. Bu'r trafodaethau hynny'n allweddol i'r dull a fabwysiadwyd gan y BGC wrth iddo gynhyrchu'r gyfres o ddogfennau ar gyfer yr asesiad llesiant.

- Deall achosion sylfaenol problemau a'u **hatal** – fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein cynllun, byddwn yn ymchwilio ymhellach i achosion sylfaenol rhai problemau er mwyn deall yn well yr hyn y gall y BGC ei wneud yn gasgliadol er mwyn eu hatal. Eisoes mae'r asesiad yn amlygu nifer o feysydd lle y gellir gwneud gwaith ataliol, gan gynnwys y blynyddoedd cynnar, profiadau niweidiol plentyndod ac ystod o faterion iechyd cyhoeddus cydgysylltiedig. Unwaith eto, fel rhan o'r archwiliad o'r themâu, mae'r BGC eisoes wedi nodi y bydd ffocws ar y camau gweithredu ataliol y gallwn ymgymryd â hwy e.e. o ran newid yn yr hinsawdd ac anghydraddoldebau.

## 3. Ynglŷn â Bro Morgannwg

Mae Bro Morgannwg yn rhan amrywiol a hardd o Gymru. Nodweddir y sir gan gefn gwlad tonnog, cymunedau arfordirol, trefi prysur a phentrefi gwledig ond mae hefyd yn cynnwys Maes Awyr Caerdydd, amrywiaeth o ddiwydiant a busnesau, a'r Barri, tref fwyaf Cymru. Mae'r ardal yn elwa o gysylltiadau rheilffyrdd a ffyrdd da ac mae mewn sefyllfa dda o fewn y rhanbarth fel ardal ar gyfer cyflogaeth, fel cyrchfan i ymwelwyr, ac fel lle i fyw. Dengys y map isod rai ffeithiau allweddol am Fro Morgannwg.





Fodd bynnag, mae ardaloedd o dlodi ac amddifadedd ac mae'r Cyngor yn gweithio gyda chymunedau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod anghenion y gwahanol gymunedau yn cael eu deall a'u diwallu, fel y gall pob dinesydd edrych ymlaen at ddyfodol disglair.

### 3.1 Ein poblogaeth

Yn ôl amcangyfrifon canol-blwyddyn 2015 yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011, roedd poblogaeth Bro Morgannwg ychydig o dan 128,000. O'r rhain, roedd tua 51% yn fenywod a 49% yn ddynion.

Mae gan y Fro broffil oedran poblogaeth tebyg i gyfartaledd Cymru, gyda 18.5% o'r boblogaeth rhwng 0-15 oed, 61.1% rhwng 16-64 oed a 20.4% yn 65+ oed. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn amcangyfrif erbyn 2036 y bydd y boblogaeth 0-15 oed a 16-64 oed yn gostwng. Fodd bynnag, mae gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio, a rhagwelir y bydd nifer y bobl yn y grŵp 65+ oed yn cynyddu, ac y bydd yn uwch na chyfartaledd Cymru erbyn 2036, fel y gwelir o’r siart canlynol.




Amcangyfrifa Daffodil Cymru[1] y bydd cynnydd o 130% yn y nifer o bobl ym Mro Morgannwg sy’n 85+ oed erbyn 2035, a rhagwelir y bydd nifer y dynion 85+ oed yn cynyddu o 180% a nifer y menywod o 104%. Cydnabyddir mai pobl 80+ oed yw’r rhai sydd â’r anghenion iechyd a gofal cymdeithasol a chymorth mwyaf dyrys.

Ar hyn o bryd, mae canran poblogaeth y Fro sy’n adrodd am gyfyngiadau gweithgaredd oherwydd anabledd yn un o'r rhai isaf yng Nghymru.

Dywedodd 2.8% o boblogaeth y Fro eu bod o gefndir nad yw’n Wyn, a nododd 6% o'r boblogaeth gyffredinol eu bod wedi eu geni y tu allan i'r DU. O'r rhain, cyrhaeddodd 33% ar ôl 2004. O ran poblogaeth fudol y Fro, adroddodd 59% eu bod wedi eu geni’r tu allan i’r UE, roedd 14% o Wledydd Mynediad[2] a 27% wedi eu geni yn UE-14[3]. Roedd gan y Fro

[1] http://www.daffodilcymru.org.uk/
[2] Mae hyn yn cyfeirio at wledydd a ymunodd â’r Undeb Ewropeaidd yn y cyfnod 2004-2013.

gydbwysedd mewnfudo negyddol yn 2015 – cyfeiria mewnfudo at bobl sy'n symud rhwng gwledydd y DU. Yn y Fro, symudodd mwy o bobl i wledydd eraill y DU nag a symudodd i'r ardal o wledydd y DU.

O ran yr iaith Gymraeg, dim ond 3% o drigolion sy’n dweud eu bod yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ac nid yw 87% yn gallu siarad unrhyw Gymraeg. Roedd gan y 10% sy'n weddill raddau amrywiol o alluoedd siarad Cymraeg. O blith y gyfran fechan o'r boblogaeth sy'n gallu siarad Cymraeg, adroddodd 25% eu bod yn defnyddio’r Gymraeg yn ddyddiol.

Mae cymuned Lluoedd Arfog sylweddol ym Mro Morgannwg, gyda data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 1,143 o aelodau'r Lluoedd Arfog yn y Fro. Mae hyn yn 16.6% o gyfanswm poblogaeth Lluoedd Arfog Cymru (6,875) a gellir ei briodoli i’r orsaf Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yng Ngorllewin y Fro. O’r gymuned Lluoedd Arfog, mae 630 yn byw mewn sefydliadau cymunedol a reolir (lle mae goruchwyliaeth amser llawn neu ran amser yn bresennol) a 513 yn byw mewn cartrefi.

Canfu Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sy’n ofynnol yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, bod tua 11.96 o gyn-filwyr am bob 1,000 o drigolion ym Mro Morgannwg, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru o 6.24. Yn ogystal, dangosodd data ym mis Ebrill 2016 mai ym Mro Morgannwg yr oedd y nifer uchaf o dderbynwyr Cynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog a derbynwyr Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog o bob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru.


---

[3] Mae hyn yn cyfeirio at y 14 o wledydd (yn ychwanegol at y DU) a oedd yn aelodau o’r Undeb Ewropeaidd cyn 2004.

### 3.2 Ein cymunedau

At ddibenion yr Asesiad Llesiant hwn ac i'n cynorthwyo i gael gwell dealltwriaeth o lesiant ein cymunedau o fewn Bro Morgannwg, ystyriwyd yr ardal gyfan a hefyd rhannwyd y sir yn dair ardal gymunedol - Barri, Dwyrain y Fro a Gorllewin y Fro. Mae'r ardaloedd hyn yn adlewyrchu sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu ar hyn o bryd gan sefydliadau partner o fewn y BGC.

Drwy gydol yr asesiad hwn, rydym wedi ystyried y gwahaniaethau a welir rhwng yr ardaloedd cymunedol hyn, a hefyd lle mae gwahaniaethau posibl yn bodoli oddi mewn iddynt. Gall data ar lefel awdurdod lleol yn aml guddio anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng ardaloedd yn y Fro, a lle bo'n bosibl, rydym wedi ystyried data naill ai ar lefel ward neu lefel Ardal Gynnyrch Ehangach Is (LSOA).





| **Gorllewin y Fro** | **Barri** | **Dwyrain y Fro** |
|---|---|---|
| Saint-y-brid | Dyfan | Dinas Powys |
| Llandŵ/Ewenni | Gibbonsdown | Sili |
| Llanilltud Fawr | Y Cwrt | Llandochau |
| Y Bont-faen | Cadoc | Cornerswell |
| Llanbedr-y-fro | Illtyd | St. Augustine’s |
| Sain Tathan | Buttrills | Stanwell |
| Y Rhws | Baruc | Plymouth |
| Gwenfô | Castleland | |

## Poblogaethau

Amcangyfrifir bod poblogaeth ardal gymunedol y Barri tua 52,200, gydag ardal Gorllewin y Fro yn 38,500 ac ardal Dwyrain y Fro yn 36,800.

Dengys y map isod ganran y boblogaeth sy'n 65+ oed a dyma un enghraifft yn unig o'r gwahaniaethau sy'n bodoli ar draws y Fro. Fel y dangosir, mae gan ardal y Barri boblogaeth llawer iau na rhannau o Ddwyrain a Gorllewin y Fro. Er enghraifft, yn y Bont-faen 1, mae 38% o'r boblogaeth yn 65+ oed a gellir cymharu hyn â Castleland 2G yn y Barri lle mai dim ond 6.7% o'r boblogaeth sy'n 65+ oed. Fel yr amlygwyd yn flaenorol, rhagwelir y bydd y boblogaeth hŷn ym Mro Morgannwg yn cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd nesaf.

**Canran y Boblogaeth 65+ oed - Mehefin 2015**




Contains Ordnance Survey data © Crown Copyright. Licence number 100043376

Ffynhonnell: InfoBase Vale. Amcangyfrifon poblogaeth yn seiliedig ar ddata Cyfrifiad 2011

Drwy gydol yr asesiad, gellir nodi ardal Sain Tathan fel un sydd â nodweddion gwahanol iawn i'r rhan fwyaf o rannau eraill Gorllewin y Fro, a gellir priodoli hyn i'r ganolfan Awyrlu Brenhinol yn yr ardal, sy'n arwain at boblogaeth symudol. Yn Sain Tathan 2, dim ond 6% o'r boblogaeth sy'n 65+ oed, sef yr isaf ym Mro Morgannwg.

Yn 2015 comisiynwyd yr Uned Ddata Llywodraeth Leol i lunio adroddiad dadansoddi ar dlodi ym Mro Morgannwg[4] a nodwyd bod Sain Tathan yn dipyn o anomaledd. Cynhaliodd partneriaeth Cymunedau Gwledig Creadigol y Fro broject mapio asedau cymunedol manwl

[4] LGDU Vale of Glamorgan Tackling Poverty Analysis 2015

yn yr ardal, er mwyn deall y gymuned hon yn well. Mae ymarfer tebyg yn awr yn cael ei gynnal drwy gynghorau cymuned mewn ardaloedd eraill yn y Fro.


Ceir ystod o ddata demograffig manwl o fewn ein cymunedau yn ein hadroddiadau ardal gymunedol.

## Anghydraddoldebau

Gellir defnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 i helpu dangos y gwahaniaethau o fewn ein cymunedau. Rhestrir pedair o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y Fro - Gibbonsdown 2, Y Cwrt 3, Cadoc 4 a Castleland 1 - o fewn y 10% Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yng Nghymru, ac maent i gyd yn ardal y Barri. Amlygir yr anghydraddoldebau sy'n bodoli ledled y Fro mewn perthynas ag ystod o ddangosyddion drwy gydol yr asesiad hwn ac maent yn dangos y gwahaniaethau ar draws ein hardaloedd.

Dengys y map canlynol lefelau amddifadedd ar draws Bro Morgannwg yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (Malc) yn ôl pumed ran amddifadedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yr ardal ei hun sy’n dioddef o amddifadedd: yn hytrach, amgylchiadau a ffordd o fyw y bobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar ei safle amddifadedd, ac mae'n bwysig cofio nad yw pawb sy'n byw mewn ardal o amddifadedd yn dioddef o amddifadedd - ac nad yw’r holl bobl sy’n dioddef o amddifadedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd.

**Map o bumedau amddifadedd – o’r adroddiad mesur anghydraddoldebau**



Mae hefyd yn bwysig nodi y gellir dadansoddi'r MALlC yn ôl y gwahanol barthau sy'n ffurfio'r mynegai - Incwm, Cyflogaeth, Iechyd, Addysg, Mynediad at Wasanaethau, Diogelwch Cymunedol, Amgylchedd Ffisegol a Thai. Mae hyn eto'n dangos y gwahaniaethau ar draws Bro Morgannwg.

Ceir dadansoddiad pellach o'r MALlC yn ein hadroddiadau proffil cymunedol, yn ogystal â dadansoddiad o ddosbarthiadau ardal SYG[5] sy'n cyflwyno 'ciplun' o'r ddemograffeg poblogaeth nodweddiadol a geir yn yr ardal.

## Natur Wledig

Wrth ystyried tystiolaeth yn yr Asesiad Llesiant hwn, mae'n bwysig ystyried natur wledig sawl rhan o Orllewin y Fro a'r effeithiau y gall hynny ei gael ar lesiant. Wrth ddadansoddi'r parth 'Mynediad i Wasanaethau', mae pedair o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is y Fro ymhlith 10% uchaf o ran amddifadedd yng Nghymru ac maent i gyd yng Ngorllewin y Fro; mae saith Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is hefyd o fewn yr 11-20% uchaf o ran amddifadedd yng Nghymru gyda chwech o'r rhain eto yng Ngorllewin y Fro, sy'n dangos natur wledig yr ardal gymuned hon. Ystyriwyd effeithiau hyn wrth asesu'r gwahanol ffactorau o lesiant drwy gydol yr asesiad hwn.

[5] SYG 2011 Dosbarthiadau Ardal

### 3.3 Ein hasedau a’n cyfleusterau

Mae'n bwysig cydnabod y nifer fawr o asedau sydd gennym eisoes ym Mro Morgannwg a sut y gallwn weithio gyda chymunedau lleol i ddefnyddio a gwneud y mwyaf o’r hyn sydd gennym i wella llesiant unigol a chymunedau. Mae'r amrywiaeth o gyfleusterau, gwasanaethau a phrojectau sy'n cyfrannu at ein llesiant yn cynnwys:

#### Cymdeithasol

- 16 practis meddygon teulu ledled y Fro (mae rhai ohonynt gyda mwy nag un feddygfa) - er bod trigolion yn dweud wrthym eu bod eisiau gwell mynediad at apwyntiadau
- Ysbyty Athrofaol Llandochau ac Ysbyty Cymunedol y Barri, sy'n cynnig amrywiaeth o wasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd gan gynnwys uned iechyd meddwl newydd i oedolion yn Llandochau.
- Pedair gorsaf heddlu ym Mro Morgannwg, Penarth, Y Bont-faen, Y Barri a Llanilltud Fawr, ond dim ond yr un yn y Barri sydd ar agor i'r cyhoedd. Mae'r tîm partneriaeth Bro Ddiogelach yn ogystal â swyddogion prawf a Chymorth i Ddioddefwyr hefyd wedi'u lleoli yng ngorsaf heddlu y Barri.
- Pedair gorsaf dân yn ardal y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen
- 22 o ganolfannau cymunedol a redir gan y Cyngor - mae trigolion wedi tynnu sylw at bwysigrwydd gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau a grwpiau lleol.
- Pedwar Cyngor Tref a dau ar hugain o gynghorau cymuned. Mae'r cynghorau hyn yn gyfrifol am wasanaethau a chyfleusterau penodol ac maent yn haen bwysig o ddemocratiaeth leol a dolen â'r gymuned leol.
- Pum banc bwyd, dau yn y Barri, un yn Ninas Powys, un yn Llanilltud Fawr ac un yn Sain Tathan.
- Mae Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg (GGM) yn elusen annibynnol ac mae ganddi aelodaeth lewyrchus o sefydliadau gwirfoddol a chymunedol

#### Economaidd

- 57 o ysgolion gan gynnwys 7 ysgol cyfrwng Cymraeg
- Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd
- Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd a Sain Tathan
- Mae gan Goleg Caerdydd a'r Fro ddau safle ym Mro Morgannwg, Colcot Road yn Y Barri sy'n darparu ystod eang o gyrsiau, a'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Hyfforddiant Awyrofod (ICAT) yn y Rhws.
- Pedair canol tref, Y Barri, Y Bont-faen, Llanilltud Fawr a Phenarth. Maent i gyd â chymeriad arbennig ac yn darparu cyfleusterau a chyfleoedd lleol ar gyfer cymdeithasu

## Diwylliannol

- Pedair llyfrgell llawn-amser a redir gan y Cyngor a phum llyfrgell rhan-amser a redir gan y gymuned.
- Chwe Chanolfan Chwaraeon a Hamdden yn y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen – mynegodd pobl o bob oed bwysigrwydd cyfleusterau lleol a gweithgarwch corfforol ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant.
- Amrywiaeth o leoliadau celfyddydau ac adloniant gan gynnwys orielau, amgueddfeydd a theatrau, yn cynnwys Oriel HeARTh yn Ysbyty Athrofaol Llandochau.
- Dau Lwybr Menywod sy'n dathlu bywydau menywod rhyfeddol ac arwyddocaol a arferai fyw yn yr ardal.
- Yr arobryn Pier Penarth a Dyffryn House

## Amgylcheddol

- 27 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig Aber Hafren, RAMSAR ac Ardal Gadwraeth Arbennig, Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Dwn-rhefn a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Merthyr Mawr gerllaw, rhan o ACA Cynffig.
- 740 o adeiladau rhestredig, dros 100 o Henebion Rhestredig, 39 o Ardaloedd Cadwraeth, 18 ardal wedi'u cynnwys yn y Gofrestr o Dirweddau o Barciau a Gerddi Hanesyddol a 2 ardal ar y Gofrestr o Dirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol yng Nghymru.
- Pedwar ar bymtheg o barciau, saith ohonynt â statws y faner werdd sydd yn arwydd o ragoriaeth, gan ddangos amwynderau da a chyfranogiad cymunedol mewn parciau.
- Dau Barc Gwledig, Parc Porthkerry ar gyrion y Barri a Llynnoedd Cosmeston ar gyrion Penarth. Mae'r parciau yn cynnig dros 200 hectar o goetiroedd, dolydd a thraethau.
- 10 o safleoedd rhandir a redir gan y Cyngor (8 yn y Barri a 2 yng Ngorllewin y Fro); gellir defnyddio'r rhain i dyfu llysiau neu flodau, neu hyd yn oed i gadw ieir.
- Mae Arfordir Treftadaeth Morgannwg yn ymestyn am 14 milltir, o Aberddawan i Borthcawl, ac yn darparu cyfleoedd i gerddwyr, beicwyr neu unrhyw un sy'n caru'r cefn gwlad.
- Mae'r Fro wedi'i bendithio ag amrywiaeth eang o draethau gan gynnwys Ynys y Barri, sydd wedi cael ei hadfywio'n sylweddol yn ddiweddar, ac atyniadau mwy garw Southerndown. Derbyniodd dau draeth yn y Fro statws baner las, ac mae pedwar wedi derbyn gwobrau glan y môr.
- Dwy ganolfan ailgylchu, un yn Y Barri a'r llall yn Llandŵ

Ceir rhagor o wybodaeth am fywyd yn y Fro, gan gynnwys yr ystod o wasanaethau, projectau a strategaethau sy'n gweithredu o fewn yr ardal, yn yr adroddiad proffil cymunedol manylach. Hefyd mae adroddiad ar gael ar bob un o'r ardaloedd cymunedol.

## 3.4 Ein hamgylchedd

Un o asedau mwyaf y Fro a rhan annatod o ddiwylliant y Fro yw'r amgylchedd naturiol, a thrwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu gwelwyd yn glir bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol i lesiant ein trigolion. Mae'r amgylchedd yn sail i bob agwedd o fywyd ac mae'n hanfodol i lesiant ein trigolion a'r ardal.

Fel yr amlinellwyd, er mwyn asesu llesiant o fewn Bro Morgannwg, rhannwyd canfyddiadau ein hasesiad yn dri maes allweddol ar gyfer llesiant yn awr ac yn y dyfodol – ***Cael Dyfodol Iach a Gweithgar***, ***Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol*** *a* ***Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad***. Mae'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo yn rhan hanfodol o bob un o'r tair agwedd hon ar lesiant, a thrwy gydol yr adrannau hyn o'r asesiad, mae'n amlwg na ellir diystyru'r cysylltiadau â'r amgylchedd. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn gwerthfawrogi a gwarchod yr amgylchedd er mwyn sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Ceir dadansoddiad manwl o lesiant amgylcheddol y Fro yn ein hadroddiad tystiolaeth – 'Ein hamgylchedd' ac yn Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar wybodaeth amgylcheddol i BGC Bro Morgannwg (ar gael ar gais). Amlinellir nifer o ganfyddiadau allweddol isod.

**Cydnabod ein treftadaeth ac asedau amgylcheddol**

Mae'r Fro yn elwa o ystod eang o adnoddau amgylcheddol, gyda gwerth rhai ohonynt yn cael ei gydnabod drwy ddynodiadau rhyngwladol a chenedlaethol, fel Aber Hafren ac Arfordir Treftadaeth Morgannwg. Ceir nifer fawr o safleoedd cenedlaethol a lleol dynodedig o werth cadwraeth natur sy'n darparu cynefinoedd pwysig ar gyfer bioamrywiaeth leol, gan gynnwys rhywogaethau a warchodir. Mae hyn yn cynnwys 27 safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig Arbennig Aber Hafren, RAMSAR ac Ardal Gadwraeth Arbennig, Ardal Gadwraeth Arbennig Bae Dwn-rhefn a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Merthyr Mawr gerllaw, rhan o ACA Cynffig.

Mae Cynllun Datblygu Lleol Adnau 2011 – 2026 Bro Morgannwg[6] yn amlinellu'r weledigaeth, amcanion, strategaeth a pholisïau ar gyfer rheoli twf a datblygiad ym Mro Morgannwg tra'n gwarchod a gwella'r amgylchedd. Mae'n rhaid i ni achub ar y cyfle i hyrwyddo datblygu cynaliadwy ac integreiddio mesurau cadarnhaol i leihau effaith amgylcheddol tra'n mwyhau manteision economaidd-gymdeithasol y datblygiad**.**

Yn ogystal â helpu diogelu ein hamgylchedd naturiol, mae ardaloedd cadwraeth yn sicrhau bod trigolion yn cael mynediad i gefn gwlad a mannau gwyrdd, sy'n hysbys eu bod yn cael effaith sylweddol ar iechyd meddwl a llesiant cyffredinol. Mae'r Fro hefyd yn gartref i nifer

[6] http://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Living/Planning/Policy/LDP-2013/01-LDP-Deposit-Plan-Written-Statement-2013.pdf

o nodweddion hanesyddol fel Priordy Ewenni a Chastell Ogwr, sy'n ffurfio rhan allweddol o ddiwylliant y Fro.

### Newid yn yr Hinsawdd

let's talk amser siarad

***'Nid oes digon o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i beth yw'r mater pwysicaf ar yr agenda gymdeithasol, economaidd a gwleidyddol. Mae canlyniadau newid yn yr hinsawdd yn mynd i effeithio ar fwy a mwy ohonom yn y 5-10 mlynedd nesaf.'***

*Menyw/ 55-74/ Gorllewin y Fro*


Mae Crynodeb Cymru o Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU 2017 yn tynnu sylw at nifer o risgiau allweddol i Gymru sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Hefyd nodwyd nifer o'r risgiau hyn a'u goblygiadau i Fro Morgannwg drwy gydol ein hasesiad. Mae'r risgiau allweddol i Gymru yn cynnwys:

- Newidiadau mewn cyflwr pridd, bioamrywiaeth a thirwedd oherwydd hafau cynhesach, sychach
- Gostyngiadau mewn llif afonydd ac argaeledd dŵr yn ystod yr haf, gan effeithio ar gyflenwadau dŵr a'r amgylchedd naturiol
- Cynnydd mewn llifogydd ar yr arfordir ac yn fewndirol, gan effeithio ar bobl, eiddo a seilwaith
- Newidiadau mewn esblygiad arfordirol, gan gynnwys erydu a gwasgfa arfordirol sy'n effeithio ar draethau, ardaloedd rhynglanwol a nodweddion arfordir eraill
- Newidiadau mewn rhywogaethau gan gynnwys dirywiad mewn rhywogaethau brodorol, newidiadau mewn patrymau mudo a chynnydd mewn rhywogaethau ymledol
- Cynnydd yn y risg o blâu a chlefydau sy'n effeithio ar amaethyddiaeth a choedwigaeth. Mae'r risg i dda byw hefyd yn bryder.

Mae effeithiau newidiadau yn yr hinsawdd yn achosi nifer o risgiau i Fro Morgannwg ac i Gymru yn gyffredinol, a rhaid gweithio i leihau newid yn yr hinsawdd. Fodd bynnag, gan fod newid yn yr hinsawdd eisoes yn digwydd, awgrymwyd y dylem weithio i nodi sut y gallwn ymateb i rai o'r cyfleoedd a allai godi. Er enghraifft, drwy'r asesiad gwelwyd bod tymheredd cynhesach tebygol yn gyfle i hyrwyddo hamdden awyr agored a chynyddu lefelau gweithgarwch corfforol. Mae'r bygythiad o newid yn yr hinsawdd i farchnadoedd bwyd hefyd yn rhoi cyfle i hyrwyddo amgylchedd bwyd ffres a lleol.

Dangosodd yr arolwg Amser Siarad bod gan drigolion y Fro bryderon ynghylch newid yn yr hinsawdd a'u bod yn credu ei bod yn gyfrifoldeb casgliadol i warchod yr amgylchedd, hynny yw, bod gan bob sefydliad sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ran i'w chwarae yn ychwanegol at y llywodraeth a'r cyhoedd eu hunain. O'r 748 o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn am bryderon gyda newid yn yr hinsawdd, roedd 510 naill ai'n bryderus iawn neu'n weddol bryderus am newid yn yr hinsawdd. Hefyd dangosodd canlyniadau Uwch Arolwg Ysgolion 2016 a gynhaliwyd trwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc bod plant a phobl ifanc yn pryderu am newid yn yr hinsawdd. Gofynnwyd i Blant a Phobl Ifanc hefyd pwy sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd, a gwelir y canlyniadau yn y graff isod.

**Uwch Arolwg Ysgolion 2016: Pwy ydych chi'n meddwl sy'n gyfrifol am warchod yr amgylchedd naturiol? Ymatebion Ysgolion Cynradd ac Uwchradd**




Ffynhonnell: Uwch Arolwg Ysgolion 2016

Gall gollyngiadau $CO_2$ gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd a dyfodol newid yn yr hinsawdd. Cynyddodd allyriadau ym Mro Morgannwg o 1,250.6 cilodunnell yn 2009 i 1,283.6 cilodunnell yn 2013. Y dunelledd gyfartalog o $CO_2$ fesul preswylydd yn 2013 oedd 10.1 tunnell o'i gymharu â 9.6 i Gymru. Gallai hyn gael ei adlewyrchu gan y lefelau uwch na'r cyfartaledd o berchnogaeth ceir ym Mro Morgannwg; hefyd mae mwy o drigolion yn cymudo i weithio gyda char nag mewn ardaloedd eraill. Amlygwyd hefyd addasrwydd trafnidiaeth gyhoeddus fel dewis amgen drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Gorllewin y Fro.

### Rheoli ein dyfroedd, moroedd ac arfordir

Mae arfordiroedd a moroedd yn darparu swyddi, bwyd a chyfleoedd ar gyfer hamdden, a all ddod ag ystod o fanteision iechyd, cynhyrchu ynni, a mwynhad o fywyd gwyllt, y dirwedd a threftadaeth ddiwylliannol yn eu sgil. Yn ogystal, canfu Arolwg Twristiaeth Prydain Fawr 2015 bod gwariant yn gysylltiedig ag ymweliad dros nos i arfordir Cymru werth tua £800 miliwn, tua 41% o gyfanswm y gwariant twristiaeth yng Nghymru.


Dynodwyd rhan o arfordir gorllewinol y Fro fel rhan o Arfordir Treftadaeth Morgannwg, a’r nod yw gwarchod, diogelu a gwella arfordir annatblygedig. Mae'r arfordir treftadaeth hefyd yn gweithredu fel atyniad i dwristiaid, yn ogystal â bod yn ased i drigolion y Fro.

Mae ein hafonydd, llynnoedd, aberoedd, arfordir a thraethau yn rhoi manteision naturiol pwysig i ni, llawer ohonynt yn cyfrannu at lesiant cymunedau lleol a'r boblogaeth ehangach. Mae’r manteision naturiol yn cynnwys mynediad at ddŵr yfed, afonydd a moroedd glân ar gyfer hamdden ac ymlacio, cynhyrchu incwm o fusnes a diwydiant, twristiaeth, cynhyrchu ynni gwyrdd a physgota. Yn y Fro, mae pedwar o draethau ymdrochi sydd i gyd wedi pasio dosbarthiad dyfroedd ymdrochi’r UE. Yn yr ardaloedd datblygedig, mae traethau a dyfroedd arfordirol eraill o dan bwysau o gyfuniad o bwysau gwledig gwasgaredig a llygredd trefol o garthffosiaeth/ camgysylltiadau.

Gall cynnydd posibl yn lefel y môr o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd fod yn fygythiad i'n hamgylchedd arfordirol yn ogystal â threfi a phentrefi ar yr arfordir. Mae Cynllun Rheoli Traethlin y Fro yn creu darlun o erydiad a chlogwyni yn disgyn, gan achosi peth enciliad ar raddfa fach ar hyd yr arfordir. Mae angen am ymyrraeth tymor hir cyfyngedig i atal erydiad mewn ardaloedd allweddol, megis y Barri. Mae gweddill y morlin yn destun i reolaeth heb fod yn ymwthiol, er mwyn atal erydu pellach.

Llifogydd yw’r math mwyaf cyffredin o drychineb naturiol sy'n effeithio ar gartrefi, busnesau a chymunedau cyfan, gyda chanlyniadau ariannol ac effaith sylweddol ar lesiant corfforol a meddyliol. Oherwydd newid yn yr hinsawdd, rhagwelir y bydd glawiad y gaeaf yng Nghymru yn cynyddu ar gyfartaledd o tua 14% erbyn y 2050au. Bydd llifogydd felly'n parhau i fod yn fygythiad i lawer o gymunedau. Y cymunedau sydd mewn perygl mwyaf o lifogydd ym Mro Morgannwg yw’r Bont-faen, Dinas Powys a rhannau o'r Barri. Hefyd mae Llanilltud Fawr mewn perygl, fel y dangosir ar y map isod.

**Cymunedau mewn perygl o lifogydd afonol**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Gall mwy o wytnwch, yr amgylchedd naturiol a datblygiadau a gynlluniwyd yn dda helpu i ddarparu’r gallu i wrthsefyll llifogydd. Yn 2014 roedd canran y tai yn y Fro mewn perygl uchel o lifogydd yn 0.6% (Cymru 1.1%). Roedd yr eiddo a oedd mewn perygl canolig yn 1.4% (Cymru 2%).

## Gwytnwch Ecosystemau

Mae anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill a'u cynefinoedd yn chwarae llawer o rolau swyddogaethol mewn ecosystemau a'r prosesau sy'n sail i gynhyrchu bwyd, dŵr glân a peillio.

Ceir amrywiaeth eang o gynefinoedd yn y Fro, gyda sawl SoDdGA glaswelltir yn y Fro sy'n bwysig yn genedlaethol, ac ardaloedd o amrywiaeth biolegol uchel. Mae'r Fro yn gartref i nifer o chwyn âr prin sydd dan fygythiad, ac mae'n un o'r ardaloedd pwysicaf ar gyfer glöynnod byw yng Nghymru, yn ogystal â chynnwys darnau o goetir hynafol sy'n bwysig yn genedlaethol. Tra'n cefnogi amrywiaeth eang o gynefinoedd, maent yn gyffredinol yn dameidiog iawn o ganlyniad i reolaeth amaethyddol y gorffennol, pwysau datblygu, a cholli cynefinoedd. O ganlyniad, mae rhywogaethau llai symudol o anifeiliaid a phlanhigion yn llai

abl i symud o fewn y dirwedd ac i addasu i effaith debygol newid yn yr hinsawdd. Gall adfer, creu a rheoli cynefinoedd lled-naturiol yn briodol helpu i wella’r cyfleoedd i rywogaethau symud, gan helpu yn ei dro i greu ecosystemau gwydn ac iach. Hefyd gall rheolaeth bositif ar y cynefinoedd hyn gynnig manteision ychwanegol i drigolion drwy liniaru llif dŵr a lleihau colli pridd, yn ogystal â darparu mannau gwyrdd diddorol, cyfoethog ac ysbrydoledig er budd trigolion a'u llesiant.

Gwna’r safleoedd gwarchodedig gyfraniad hanfodol i'n ffyniant economaidd ac maent yn lleoedd ar gyfer ymchwil ac astudiaeth wyddonol. Amcangyfrifwyd bod safleoedd a ddiogelir yn cyfrannu £128m bob blwyddyn i economi Cymru.

### Mannau Gwyrdd, Coedwigoedd, Coetiroedd a Choed

Gall defnydd cynaliadwy o’r amgylchedd naturiol gefnogi gwytnwch cymdeithasol drwy ddarparu cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio ac ymgysylltu. Gall mannau gwyrdd a choed gyfrannu at lesiant corfforol a meddyliol, ond nid ydynt bob amser wedi’u lleoli yn agos at y bobl sydd eu hangen fwyaf. Tuedda gorchudd coed mewn ardaloedd difreintiedig fod yn is ac yn llai amrywiol ac mae hwn yn batrwm a adlewyrchir ym Mro Morgannwg.

Gall coetiroedd a choed helpu i reoleiddio ein hinsawdd, darparu incwm a swyddi, storio carbon, cyfrannu at leihau risg llifogydd a llif afon isel, diogelu priddoedd, gwella ansawdd aer, lleihau sŵn a rheoleiddio plâu a chlefydau. Maent yn chwarae rhan bwysig mewn peillio, ffurfio pridd, cylchu maetholion, cylchu dŵr a chynhyrchu ocsigen sy'n hanfodol i gefnogi llesiant. Dim ond 8.2% o'r sir a orchuddir gan goed, sydd yn is na chyfartaledd Cymru o 14%. Yn genedlaethol, mae coetiroedd yn aml mewn cyflwr gwael ac yn dameidiog.

Dangosodd astudiaethau bod cysylltiadau cadarnhaol arwyddocaol rhwng llesiant meddyliol a chorfforol a mwy o goed a mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol. I’r rhan fwyaf o bobl, mae rhyngweithio cymdeithasol yn arwyddocaol wrth ddefnyddio mannau gwyrdd lleol. Hefyd mae diddordeb cymunedol sylweddol mewn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau am fannau gwyrdd lleol.

Gofynnodd yr Arolwg Llesiant Amser Siarad ystod o gwestiynau mewn perthynas â llesiant amgylcheddol. O'r atebion a roddwyd i'r cwestiwn ar foddhad gyda llesiant amgylcheddol, y gyfran uchaf o atebion ‘bodlon iawn’ oedd "mynediad at fannau agored" - rhoddodd 416 (55.5%) o ymatebwyr yr ateb hwn. Atebodd 386 (53.6%) o ymatebwyr eu bod yn ‘weddol fodlon’ ar "ansawdd yr amgylchedd lleol”.

Amlygodd yr ymgysylltu a wnaed mewn digwyddiadau bod yr amgylchedd lleol yn bwysig i drigolion, sy'n gwerthfawrogi agosrwydd a mynediad at gefn gwlad/glan y môr a mannau gwyrdd.

## Priddoedd ac Amaethyddiaeth

Cynigia amaethyddiaeth, pridd a'u rheolaeth effeithiau cadarnhaol a negyddol ar lesiant yn y Fro, yn nhermau eu gwerth economaidd a chymdeithasol ac effeithiau amgylcheddol. Mae pridd yn adnodd cyfyngedig sy'n sail i ddarparu ystod eang o wasanaethau hanfodol, megis cynhyrchu bwyd, bioamrywiaeth, a storio carbon a dŵr. Gall arferion rheoli amaethyddol a thir anghynaliadwy arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol, fel colli pridd trwy erydiad, gan arwain at golledion carbon, llygru cyrsiau dŵr, a llifoedd dŵr wyneb mwy a chyflymach, sy'n gallu cyfrannu at y perygl o lifogydd.

Mae cynefinoedd mawndir yn rheoleiddio ein hinsawdd a'r cylch dŵr. Mae priddoedd mawn dwfn yn bwysig ar gyfer lliniaru newid yn yr hinsawdd wrth iddynt ddal a storio carbon atmosfferig.

Yn ôl gwybodaeth bresennol Cyfoeth Naturiol Cymru, nid oes llawer iawn o 'fawn dwfn' yn bresennol ym Mro Morgannwg. Cofnodwyd ardal fechan yn Ystradowen, a gall y safle hwn elwa o ystyried y rheolaeth gorau posibl sydd ei hangen. Nid yw manteision amgylcheddol mawn yn y Fro yn cael eu gwireddu ac mae angen rheolaeth briodol i sicrhau ei ystorfa garbon, lleihau allyriadau carbon, ac adfer ei fioamrywiaeth nodweddiadol mewn rhan o Gymru lle mae hwn yn adnodd prin iawn.

## Ansawdd aer

Dengys y data dangosyddion a ddefnyddir i gyfrifo maes amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 wahaniaethau mewn ansawdd aer ar draws Bro Morgannwg.

Fel y gellid disgwyl, mae'r sgôr allyriadau aer yn llawer uwch yn ne a dwyrain y sir, lle mae dwysedd y boblogaeth, maint y traffig ac agosrwydd at ddiwydiant trwm yn debygol o fod yn uwch nag yn ardaloedd mwy gwledig y sir. Mae hyn yn cysylltu â'r syniad bod gwahaniaeth clir ym Mro Morgannwg rhwng yr ardaloedd gwledig sy'n gyffredinol llai amddifad a'r ardaloedd trefol datblygedig yn ne a dwyrain yr awdurdod lleol. Gall lefelau uwch o allyriadau yn yr ardaloedd sy'n tueddu at dlodi ac amddifadedd waethygu'r lefelau o anghydraddoldeb iechyd sydd eisoes yn uchel, trwy lefelau uwch o glefydau anadlol ac afiechydon eraill.[7]


Cyfrifir y Dangosydd Crynodiadau Aer drwy ddefnyddio cyfuniad o ddata crynodiad mewn perthynas ag ystod o lygryddion (wedi'u modelu ar ddata allyriadau aer) ac Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer. Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo mesur llygryddion a allai gael effaith negyddol ar iechyd dynol a/neu'r amgylchedd, yn seiliedig ar ddealltwriaeth feddygol a gwyddonol. Pwysolwyd y canlyniadau yn seiliedig ar y nifer o gyfeiriadau preswyl yn yr ardal.

[7] Acute respiratory effects of particulate air pollution. Dockery, D. W. and Pope III, C. A. *Annu. Rev. Public Health*, 1994, 15:107-32.

Awgryma ansawdd aer gwael agosrwydd at rai gweithgareddau megis traffig, hylosgiad domestig a safleoedd diwydiannol - gweithgareddau a allai gael effaith negyddol ar ansawdd bywyd, yr amgylchedd lleol ac iechyd, ac sy'n cael effaith niweidiol ar lesiant unigolyn. Awgryma agosrwydd at weithgareddau o'r fath bod llai o fynediad i fannau gwyrdd, a gall hynny effeithio ar iechyd meddwl o ganlyniad i straen sy'n gysylltiedig â dwyster ardaloedd diwydiannol datblygedig.

Defnyddiodd parth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 y Dangosydd Crynodiadau Aer 2012 hwn a oedd, ar raddfa o 1 i 100 - gyda 100 y mwyaf llygredig - yn dangos fod amrywiaeth o dros 80 mewn rhai rhannau o Benarth a Llandochau yn Nwyrain y Fro i dan 25 mewn rhannau o Lanilltud Fawr a Saint-y-brid yng Ngorllewin y Fro.

**Sgôr Crynodiad Ansawdd Aer ym Mro Morgannwg 2012**




Source: WIMD 2014

Dengys y data mewn perthynas â chyfradd o salwch cyfyngus tymor hir bod cyfradd uwch o salwch mewn ACEHI sydd hefyd â sgoriau crynodiad ansawdd aer a sgoriau allyriadau aer cymharol uchel. Er nad yw'r data yn ddigon cadarn i sefydlu cyswllt uniongyrchol, mae pwysau'r dystiolaeth feddygol yn dangos y byddai effaith ansawdd aer gwael ar iechyd yn debygol o olygu bod rhai materion iechyd tymor hir yn cael eu hachosi a/neu eu gwaethygu gan ansawdd aer cymharol wael yr ardaloedd hynny. Gallai archwiliad pellach o'r data hwn, gan edrych yn benodol ar salwch resbiradol, wneud cysylltiad mwy pendant rhwng y ddau ddangosydd, ac o bosibl sefydlu'r gyfradd pryd yr effeithir ar salwch cyfyngus tymor hir yn ne-ddwyrain Bro Morgannwg gan ansawdd aer gwael.

Mae gan y Fro yn ei chyfanrwydd un o'r lefelau uchaf o lygredd aer o waith dyn yng Nghymru, ac mae'n uwch na chyfartaleddau Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Amcangyfrifir y bydd hyn yn cyfrannu at oddeutu 50 o farwolaethau bob blwyddyn yn y sir[8].

Fodd bynnag, yn ôl Adroddiad Cynnydd Ansawdd Aer 2016, mae ansawdd yr aer yn gyffredinol ar draws Bro Morgannwg yn cydymffurfio â'r rheoliadau i ddiogelu iechyd pobl ac yn bodloni'r amcanion ansawdd aer perthnasol. Dengys tystiolaeth y cafwyd gostyngiad amlwg yn y lefelau o Nitrogen Deuocsid, neu eu bod wedi aros yn sefydlog, yn ystod y cyfnod monitro 2015. Mae manylion llawn y data a gadarnhawyd ar gyfer yr ymarfer Monitro Ansawdd Aer a gynhaliwyd yn 2015 ar gael.[9]

### Gwastraff a Glendid

Amlygodd yr ymgysylltu a wnaed mewn digwyddiadau bod materion sbwriel/glendid a baw cŵn yn broblem i nifer o bobl yn y Fro.

Y ganran o wastraff trefol a anfonwyd i'w ailddefnyddio/ailgylchu/compostio ym Mro Morgannwg yn 2015/16 oedd un o'r cyfraddau uchaf yng Nghymru ac yn welliant sylweddol ar ffigyrau'r flwyddyn flaenorol.

O ran y mynegai glendid, y ffigwr i'r Fro yw 70% yn 2015/16. Mae'r mynegai glendid yn dynodi safon gyffredinol glendid priffyrdd mabwysiedig a thir perthnasol mewn awdurdod lleol.

Cafwyd 532 o achosion o dipio anghyfreithlon yn y Fro yn 2015/16, a oedd yn welliant ar ffigwr 2014/15 o 906 a ffigwr 2013/14 o 1,048. Er gwaethaf y gwelliant hwn, teimlai llawer o drigolion bod tipio anghyfreithlon a sbwriel yn broblem yn eu hardal, o'i gymharu â nifer o faterion eraill a oedd yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

### Hamdden, Mynediad a Thwristiaeth

Ceir 544 cilomedr o hawliau tramwy cyhoeddus gan gynnwys 61 cilomedr o Lwybr Arfordir Cymru. Mae 2% o arwynebedd y Fro yn dir mynediad lle gall pobl gerdded yn unrhyw le yn hytrach na gorfod cadw at y llwybrau llinol.

Gall hamdden awyr agored wneud cyfraniad sylweddol at iechyd corfforol a llesiant meddyliol a gall llawer o weithgareddau fod am ddim a gwella cynhwysiant cymdeithasol. Mae mynediad teg at gefn gwlad, dŵr a mannau gwyrdd yn agos at lle mae pobl yn byw yn gynyddol bwysig, gan ddarparu manteision iechyd, economaidd a chymdeithasol, ac yn agwedd hanfodol o gael dyfodol iach a gweithgar. Mae amgylchedd naturiol y Fro hefyd yn

[8] https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/332854/PHE_CRCE_010.pdf
[9] http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/living/environment/environmental_protection/pollution/air_pollution/air_quality_review_assessment.aspx

gweithredu fel ased arwyddocaol yn lleol ac yn rhanbarthol i ddenu twristiaeth i'r ardal gyda mwy a mwy o ymwelwyr yn cyfrannu at wella llesiant economaidd y Fro.


> ***'Yr Amgylchedd yw un o asedau mwyaf y Fro ac mae'n atyniad mawr i bobl yn yr ardal. Mae angen iddo gael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol'***
>
> *Gwryw/ 25-35/ Gorllewin y Fro*

Trwy'r arolwg Amser Siarad, gofynnwyd i ymatebwyr nodi pam eu bod yn treulio amser y tu allan; dywedodd 571 o ymatebwyr "i fwynhau'r tywydd/ golygfeydd a bywyd gwyllt" fel y prif reswm dros dreulio amser y tu allan. Atebion poblogaidd eraill a ddewiswyd oedd; "Er mwyn iechyd/ymarfer corff", gyda 494 o ymatebwyr yn dewis yr ateb hwn ac "i ymlacio a dadflino", a ddewiswyd gan 486 o ymatebwyr.

## Amrywiaeth o Dirweddau

Caiff tirweddau eu diffinio drwy'r gydberthynas rhwng pobl, lle ac adnoddau, ac maent yn adlewyrchu amrywiaeth, natur a chyflwr cymhleth ystod o adnoddau naturiol, dylanwadau dynol, dewisiadau a phenderfyniadau defnydd tir. Mae LANDMAP yn adnodd gwybodaeth tirwedd Cymru gyfan lle mae nodweddion tirwedd allweddol, nodweddion a dylanwadau ar y dirwedd yn cael eu cofnodi a'u gwerthuso. Dengys y map canlynol Fro Morgannwg trwy'r persbectif hwn, ac ansawdd tirweddau'r Fro.

**Amrywiaeth o Dirweddau**




Ffynhonnell: Cyfoeth Naturiol Cymru

Fel y gellir gweld o'r map uchod, mae ardaloedd Bro Morgannwg sydd â thirweddau o ansawdd isel i'w cael yn rhannau mwy trefol y Fro yn enwedig o gwmpas y Barri, lle ceir yr ardaloedd mwyaf amddifad.

### Ymdrin â rhai o'n heriau

Mae naw o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (ACEHI) y Fro yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig ym mharth amgylchedd ffisegol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Hwn yw'r parth lle mae gan y Fro y mwyaf o ACEHI yn y 10% o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mewn ymateb i'r cwestiwn arolwg ynghylch llesiant amgylcheddol ymhen 5 mlynedd, nododd rhai ymatebwyr, 73 (9.7%), eu bod yn meddwl y byddai llesiant amgylcheddol yn gwella dros y 5 mlynedd nesaf. Nododd y gyfran uchaf o ymatebwyr, 257 (34.2%), nad oeddent yn gwybod p'un a fyddai llesiant amgylcheddol yn newid dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae newid yn yr hinsawdd yn ogystal â chynyddu tymheredd cymedrig/cyfartalog hefyd yn cynyddu amlder a tebygolrwydd o ddigwyddiadau tywydd eithafol. Y goblygiadau yma yw bod angen i ni ddylunio cynlluniau a ffyrdd o fyw sy'n gallu ymdopi ag ystod eang o gyflyrau hwy, ac nid y rhai "cyfartalog" neu "nodweddiadol" yn unig. Mae'n bwysig bod BGC'au yn gweithio gyda'i gilydd yn genedlaethol i ymdrin â'r materion hyn, a'r her nesaf i bob partner, yn hytrach nag ystyried sut y gallai'r dyfodol edrych mewn perthynas â chyflwr yr amgylchedd, yw ystyried sut y gallem ddelio â'r heriau hyn ac amddiffyn ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig o gofio bod newidiadau i'n hinsawdd bron yn anochel ar ryw adeg yn y dyfodol. Gellir awgrymu mai hon yw'r her fwyaf i'r BGC mewn perthynas â newid y mathau o gwestiynau rydym yn eu gofyn ac yn eu hystyried mewn perthynas â'n hamgylchedd yn y dyfodol.

Ceir gwybodaeth fanylach mewn perthynas ag amgylchedd y Fro yn ein hadroddiad o dystiolaeth fanwl, a hefyd nodir meysydd lle mae angen i ni gynyddu ein sylfaen gwybodaeth a thystiolaeth i wella ein hasesiad llesiant.

Rhaid i'r asesiad llesiant gael ei weld fel proses barhaus o ddeall ein cymunedau yn well er mwyn gwella llesiant ein trigolion a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y BGC yn ystyried sut y gall sicrhau y cedwir ein sail dystiolaeth yn 'fyw' a dod yn adnodd deinamig i bawb.

Rydym yn cydnabod bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'n hamgylchedd yn y ffyrdd canlynol, naill ai oherwydd nad oes data cadarn ar gael ar hyn o bryd, neu oherwydd bod dadansoddiad yn dal i fynd rhagddo.

- Tystiolaeth mewn perthynas â defnyddio tir amaethyddol ym Mro Morgannwg a'i gysylltiadau ag agweddau eraill ar lesiant - gan gynnwys economi'r Fro.
- Tystiolaeth o ran bioamrywiaeth yn y Fro

- Gwybodaeth mewn perthynas ag ansawdd dŵr yn y Fro, yn enwedig afonydd
- Mwy o wybodaeth mewn perthynas â theithio egnïol ac argaeledd llwybrau troed/beicio
- Lleoliad ac ansawdd mannau gwyrdd yn y Fro
- Amgylchedd y Fro fel cynhyrchydd bwyd a chynhyrchydd ynni

Mae'r wybodaeth ar ein hamgylchedd yn helpu i osod cyd-destun yr amgylchedd naturiol y mae'r BGC yn gweithio oddi mewn iddo ar hyn o bryd, sut y gall ein hamgylchedd edrych yn y dyfodol, y goblygiadau ar gyfer llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a sut mae'n hanfodol fel rhan o'n diwylliant a thair agwedd o'n hasesiad llesiant:

- **Cael Dyfodol Iach a Gweithgar;**
- **Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol; a**
- **Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad.**

# 4. Cael Dyfodol Iach a Gweithgar

Mae'r adran hon o'r asesiad yn canolbwyntio ar gael cychwyn iach mewn bywyd, ymddygiad iach a gofal a chymorth. Trwy sicrhau bod trigolion Bro Morgannwg gael dyfodol iach ac egnïol, bydd BGC y Fro yn mwyhau ein cyfraniad tuag at gyrraedd y nodau lles cenedlaethol canlynol: Cymru Fwy Cyfartal, Cymru Iachach a Chymru Gydnerth.

Gall tystiolaeth o fewn yr adran hon hefyd gael ei hystyried mewn perthynas â chanfyddiadau eraill yn yr asesiad hwn a gwelir bod cysylltiadau rhwng bod yn iach ac yn egnïol ac ystod o agweddau eraill o lesiant da, megis cyrhaeddiad addysgol, cyfleoedd cyflogaeth a chael mynediad at yr amgylchedd naturiol.

## 4.1 Penawdau

### Beth a ddywedodd y data wrthym?

- Er bod disgwyliad oes ym Mro Morgannwg yn uchel ar y cyfan, gellir gweld gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf a'r lleiaf difreintiedig yn enwedig wrth ystyried disgwyliad oes iach. Caiff menywod mewn rhai ardaloedd yn y Barri 23 mlynedd yn llai ar gyfartaledd o fywyd mewn iechyd da na menywod yn ardaloedd gwledig Gorllewin y Fro.

- Yn gyffredinol, mae plant ifanc ar draws Bro Morgannwg yn dangos lefelau da o ddatblygiad mewn perthynas ag ymddygiad iechyd o'i gymharu â'u cymheiriaid ar draws Cymru.

- Mae canran y plant oed derbyn ym Mro Morgannwg sydd dros eu pwysau neu'n ordew wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf, a hon yw'r gyfradd isaf yng Nghymru, yn sylweddol is na'r cyfartaledd.

- Mae lefelau gordewdra ar gyfer oedolion yn gostwng er ei fod yn dal yn rhy uchel, gyda dros hanner y boblogaeth sy'n oedolion dros bwysau neu'n ordew.

- Mae canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau bob dydd ym Mro Morgannwg yn fras yn unol â chyfartaledd Cymru (1% yn is) ac mae wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf. Ceir y lefelau isaf o fwyta pum dogn y dydd yn ardaloedd y Barri, lle ceir y lefelau uchaf o ordewdra hefyd.

- Mae yfed diodydd pefriog llawn siwgr gan blant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn uwch nag mewn ardaloedd eraill.

- Mae gan y Fro boblogaeth egnïol, gyda chanran uwch na'r cyfartaledd o oedolion wedi 'gwirioni ar chwaraeon' ac yn cymryd rhan mewn chwaraeon fwy na thair gwaith yr wythnos.

- Mae yfed alcohol yn uchel ym Mro Morgannwg, a gwelir y lefelau uchaf o yfed mewn pyliau ac yfed trwm ymhlith oedolion mewn ardaloedd mwy cefnog a gwledig yng Ngorllewin y Fro. Fodd bynnag, mae'r cyfraddau uchaf o dderbyniadau i'r ysbyty sy'n alcohol-benodol a chyfraddau marwolaethau i'w canfod yn ardaloedd mwy difreintiedig y Barri.

- Mae canran yr oedolion sy'n adrodd eu bod yn ysmygu ym Mro Morgannwg yn un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru; fodd bynnag, yn dilyn cyfnod o weld y ganran hon yn gostwng, dengys y data diweddaraf fod cyfraddau ysmygu wedi cyrraedd man gwastad yn y Fro. Mae lefelau ysmygu yn llawer uwch yn Nwyrain y Barri nag ardaloedd eraill o'r Fro; mae'r ACEHI hyn yn cyfateb i'r rhai a ystyrir y mwyaf amddifad yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014.

## Beth ydych chi wedi ei ddweud wrthym?

- Amlygwyd yr amgylchedd naturiol yn gyson fel un o'n hasedau mwyaf gwerthfawr ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth gadw trigolion Bro Morgannwg yn weithgar ac egnïol. Mae hyn yn arbennig o wir yng Ngorllewin y Fro lle mae oedolion yn debygol o ddefnyddio eu hamgylchedd naturiol i gadw'n gorfforol egnïol yn hytrach nag ymweld â chanolfan hamdden neu gampfa.

- Yn achos oedolion a phlant, amser yw'r rhwystr mwyaf i fwy o gyfranogiad mewn chwaraeon.

- Y ffactorau pwysicaf a oedd yn cyfrannu at gael llesiant corfforol a meddyliol da yn ôl trigolion oedd yr amgylchedd adeiledig a'r amgylchedd naturiol a mynediad at wasanaethau iechyd.

- Ystyrir mynediad da i wasanaethau gofal iechyd a threfnu apwyntiadau meddyg yn un o'r ffactorau pwysicaf i gadw'n heini ac iach, gyda thrigolion yn dweud y byddent yn hoffi cael gwell mynediad at eu meddyg teulu. Roedd hyn yn wir ar draws holl ardaloedd y Fro.

- Nododd nifer o denantiaid tai cymdeithasol yn y Barri bod gwasanaethau iechyd meddwl yn bwysig i helpu cynnal lefelau da o lesiant.


- Dywedodd pobl ifanc fod prisiau bwyd yn uchel, a all effeithio ar eu gallu i wneud dewisiadau iach; ni wnaeth ymatebwyr hŷn godi’r mater hwn.

## 4.2 Ein canfyddiadau

### Cyflwr Iechyd

Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a llesiant yn eang, a gellir eu gweld orau drwy’r model Dahlgren a Whitehead isod, sy'n amlygu’r berthynas achosol rhwng ffactorau ffordd o fyw unigol, rhwydweithiau cymdeithasol, amodau gwaith a byw, a ffactorau economaidd, gwleidyddol amgylcheddol, ar lefel fyd-eang, cenedlaethol a lleol.

Gall y ffactorau amrywiol a gynhwysir isod ddylanwadu ar ein hiechyd a llesiant mewn ffyrdd cadarnhaol a negyddol, ac yn y pen draw effeithio ar ein disgwyliad oes.





Dahlgran a Whitehead, 1992

Mae disgwyliad oes cyffredinol ar gyfer trigolion ym Mro Morgannwg yn uwch na'r cyfartaledd i ddynion (79.6) a menywod (83.4). Er y gwelir gwahaniaethau yn ôl rhyw, mae’r amrywiadau mwyaf yn digwydd fesul ardal. Mae hyn yn arbennig o wir mewn perthynas â disgwyliad oes iach, sef y nifer cyfartalog o flynyddoedd y disgwylir i unigolyn o oed penodol fyw mewn iechyd da.

Dengys y map canlynol lefelau amddifadedd ar draws Bro Morgannwg yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 (MALlC). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yr ardal ei hun sy’n dioddef o amddifadedd: yn hytrach, amgylchiadau a ffordd o fyw y bobl sy'n byw yno sy'n effeithio ar ei safle amddifadedd, ac mae'n bwysig cofio nad yw pawb sy'n byw mewn ardal o amddifadedd yn dioddef o amddifadedd — ac nad yw’r holl bobl sy’n dioddef o amddifadedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd.

**Map o bumedau amddifadedd, Bro Morgannwg**




Fel y dangosir uchod, mae'r ardaloedd mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg o amgylch y Barri, yn enwedig ardal ddwyreiniol y dref, gan gynnwys wardiau Gibbonsdown, Castleland, Buttrills, Cadoc a'r Cwrt. Ceir pocedi o lefelau amddifadedd uchel hefyd mewn rhannau o Benarth a Sain Tathan.

Ym Mro Morgannwg, mae disgwyliad oes cyfartalog ar gyfer dynion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig 7.6 mlynedd yn llai na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Yn yr un modd, mae menywod yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn byw ar gyfartaledd 9.5 mlynedd yn llai na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.


Mae'r gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach hyd yn oed yn fwy amlwg, ac mae'r bwlch anghydraddoldeb hwn o ran disgwyliad oes iach y mwyaf yng Nghymru ar gyfer menywod, ac un o'r mwyaf ar gyfer dynion.

Gall dynion yn ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y Fro ddisgwyl byw ar gyfartaledd 20.9 o flynyddoedd mewn iechyd da o'u cymharu â'r rhai yn yr ACEHI mwyaf difreintiedig. O'i gymharu â ffigyrau blaenorol, mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach ar gyfer dynion wedi lleihau ychydig yn y Fro gyda dadansoddiad pellach yn ôl pumed ran amddifadedd yn awgrymu y gellir priodoli'r ffaith bod y bwlch anghydraddoldeb wedi culhau i ddynion i nifer gostyngol o flynyddoedd iach i'r rhai yn yr ACEHI lleiaf difreintiedig, yn hytrach na chynyddu disgwyliad oes iach yn yr ACEHI mwyaf difreintiedig.

Mae'r gwahaniaethau mewn disgwyliad oes iach rhwng ardaloedd y Fro hyd yn oed yn fwy amlwg ar gyfer menywod, gyda rhai yn yr ACEHI lleiaf difreintiedig yn cael 23.4 o flynyddoedd o fywyd mewn iechyd da o'u cymharu â'r rhai yn yr ACEHI mwyaf difreintiedig. Y bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach ar gyfer menywod yn y cyfnod 2010-14 yw'r mwyaf a welwyd ledled Cymru, sydd yn achos pryder.

Mewn gwrthgyferbyniad â dynion, mae'r bwlch anghydraddoldeb ar gyfer disgwyliad oes iach menywod wedi cynyddu'n sylweddol yn 2010-2014 o'i gymharu â'r cyfnod 2005-09, y gellir ei briodoli i nifer gostyngol o flynyddoedd mewn iechyd da yn yr ACEHI mwyaf difreintiedig a nifer cynyddol o flynyddoedd mewn iechyd da yn yr ACEHI lleiaf difreintiedig.

**Comparison of life expectancy and healthy life expectancy at birth, with Slope Index of Inequality (SII), Vale of Glamorgan, 2005-09 and 2010-14**
Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014 (WG)





(Saesneg yn Unig)

Fel y dangosir ym model Dahlgren a Whitehead, mae ystod eang o benderfynyddion sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a llesiant a fydd yn effeithio ar y nifer o flynyddoedd y gallwn ddisgwyl byw mewn iechyd da. Felly mae cynyddu disgwyliad oes iach a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn allweddol o ran creu nid yn unig manteision iechyd i'r unigolyn ond amrywiaeth eang o fuddiannau eraill i gynyddu llesiant. Er enghraifft, bydd iechyd da yn caniatáu i unigolyn barhau i weithio i wella eu llesiant economaidd eu hunain a chyfrannu at economi'r ardal leol; hefyd, bydd y rhai mewn iechyd da yn golygu llai o alw economaidd ar wasanaethau iechyd.

Er mwyn lleihau'r anghydraddoldebau amlwg a welir rhwng ardaloedd o Bro Morgannwg, bu'r BGC yn ystyried ystod eang o wybodaeth drwy gydol yr asesiad hwn, gan gynnwys ymddygiadau ffordd o fyw, er mwyn deall yn well y rhesymau dros y bwlch anghydraddoldeb mawr a welwyd.

## Cychwyn Iach

Amlygodd Adolygiad Marmot fod anfantais yn dechrau "cyn geni ac yn cronni drwy gydol bywyd. Rhaid i weithredu i leihau anghydraddoldebau iechyd ddechrau cyn geni a chael ei ddilyn drwy fywyd y plentyn. Dim ond wedyn y gellir torri'r cysylltiadau agos rhwng anfantais cynnar a chanlyniadau gwael drwy gydol oes."[10]




Er mwyn sicrhau bod plant ym Mro Morgannwg yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, mae'n bwysig ystyried iechyd mamau cyn, yn ystod, ac ar ôl beichiogrwydd. Ystyriwyd ystod o ymddygiadau ffordd o fyw, gan gynnwys ymddygiadau yn ystod beichiogrwydd. Yn gyffredinol, nodir mai canran isel o fenywod yn ardal Caerdydd a'r Fro sy'n cymryd rhan mewn ymddygiadau niweidiol megis yfed alcohol, ysmygu a defnyddio sylweddau eraill tra'n feichiog, a all arwain at fabanod yn cael eu geni â phwysau geni isel.

Diffinnir pwysau geni isel gan Sefydliad Iechyd y Byd fel llai na 2,500 gram, a gall cael pwysau geni isel fod yn gysylltiedig â phroblemau yn ddiweddarach mewn bywyd, gan gynnwys mwy o risg o glefyd cronig. Ym Mro Morgannwg, nodir bod y gyfradd o fabanod â phwysau geni

[10] Fair Society, Healthy Lives, Adolygiad Marmot 2010. https://www.instituteofhealthequity.org/projects/fair-society-healthy-lives-the-marmot-review/fair-society-healthy-lives-executive-summary.pdf.

isel yn is na chyfartaledd Cymru, er y gellir gweld gwahaniaethau rhwng ardaloedd. Gellir ystyried pwysau geni isel fel rhagfynegydd allweddol o anghydraddoldebau iechyd ac yn yr ardaloedd hynny o Fro Morgannwg a nodwyd eisoes sydd â disgwyliad oes iach is, gwelir hefyd gyfradd uwch o fabanod â phwysau geni isel na chyfartaledd y Fro a Chymru.

Wrth ystyried amrywiaeth o ddangosyddion sy'n ymwneud ag iechyd yn y blynyddoedd cynnar, mae canfyddiadau allweddol eraill ar gyfer Bro Morgannwg yn cynnwys:

- Mae cyfradd y beichiogi yn yr arddegau yn gyson isel ar gyfer merched dan 16 oed, o dan 18 oed ac o dan 20 oed.
- Gostyngodd canran yr holl blant sydd wedi cael yr holl imiwneiddiadau angenrheidiol erbyn iddynt gyrraedd pedair oed dros y blynyddoedd diwethaf; mae hyn yn dilyn tueddiad cenedlaethol. Mae'r Fro yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae canran wedi cael yr holl imiwneiddiadau angenrheidiol erbyn iddynt gyrraedd pedair oed ychydig yn is mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o’i gymharu â'r Fro yn ei chyfanrwydd.


- Gostyngodd canran y plant 4 - 5 oedd sydd dros bwysau neu'n ordew yn y blynyddoedd diwethaf ac mae hwn yn faes lle rydym wedi 'troi'r gongl' o'i gymharu â'r duedd genedlaethol, a arhosodd yn sefydlog. Fodd bynnag, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod y gyfradd hon yn dal i fod yn uwch nag y dylai fod er mwyn diogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi lansio ei fenter 10 Cam i Bwysau Iach, sy'n darparu gwybodaeth allweddol ar leihau gordewdra mewn plant, ymdrin â materion o gynllunio cyn cenhedlu a bwydo ar y fron i gyngor ac arweiniad bwyta'n iach ar gynyddu gweithgarwch corfforol a chyfyngu amser a dreulir ar sgrin.

Anelir y Cynllun Cyn-Ysgol Iach a Chynaliadwy at bob darpariaeth gofal plant cyn-ysgol, gan gynnwys meithrinfeydd, cylchoedd chwarae, gwarchodwyr plant a chanolfannau teulu. Nod y cynllun yw hyrwyddo iechyd yn y meysydd canlynol; maeth ac iechyd y geg, gweithgarwch corfforol a chwarae gweithredol, diogelwch, hylendid, iechyd meddyliol ac emosiynol, lles a pherthnasau, yr amgylchedd, iechyd yn y gweithle.

Ar hyn o bryd, mae 20 o leoliadau cyn-ysgol yn y Fro sydd naill ai'n gweithio trwy, neu sydd wedi cwblhau, y modiwl Maeth ac Iechyd y Geg.


- Gwelir hefyd wahaniaethau ym Mro Morgannwg fel y dangosir isod. Yn yr ardaloedd i'r dwyrain o'r Barri y gwelir y lefelau uchaf o blant oed derbyn sy'n ordew.




| | Bro Morgannwg | Cymru |
|---|---|---|
| BAc 11-12 | 25.3 | 28.2 |
| BAc 12-13 | 22.1 | 26.2 |
| BAc 13-14 | 21.0 | 26.5 |
| BAc 14-15 | 17.0 | 26.2 |

Ffynhonnell: Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Canran y plant rhwng 4 a 5 oed sy'n ordew, MSOAs BIP Caerdydd a'r Fro, Rhaglen Mesur Plant ar gyfer Cymru, 2012/13-2014/15**





Due to smaller sample sizes at MSOA level, caution should be taken when making comparisons between areas.

Produced by Public Health Wales Observatory using CMP data (NWIS)
© Crown Copyright and database right 2015. Ordnance Survey 100044810

- Mae'r data diweddaraf sydd ar gael mewn perthynas â nifer cyfartalog y dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant 5 oed yn 2014-15 yn dangos mai ym Mro Morgannwg y ceir y gyfradd isaf yng Nghymru, ar 0.7. Mae hyn wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gyda chyfartaledd o 0.92 yn 2007-08 a 0.91 yn 2011-12. Mae'r Fro yn felly'n sylweddol is na chyfartaledd Cymru o 1.29.

**Dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi mewn plant 5 oed, cyfartaledd, Cymru ac awdurdodau lleol, 2014-2015**




Please consult the technical guide for full details on how this indicator is calculated. Produced by Public Health Wales Observatory, using Welsh Dental Survey (WOHIU)

- Fodd bynnag, gwelir bod gwahaniaethau yn y Fro gyda nifer cyfartalog y plant 5 oed sydd â dannedd wedi pydru, ar goll neu wedi'u llenwi yn uwch yn ardal y Barri nag yn Nwyrain a Gorllewin y Fro.

- Yn 2015/16 ym Mro Morgannwg roedd canran y plant Cyfnod Sylfaen a oedd yn cyrraedd y canlyniad datblygiad disgwyliedig neu uwch ar draws pob maes o ddatblygiad yr uchaf ar draws Ardal Consortiwm Canolbarth y De, ac roedd yr 2[il] uchaf yng Nghymru, y tu ôl i Sir Fynwy. Perfformiodd y Fro yn arbennig o dda o ran Mathemateg, lle mae'r Fro yn y safle cyntaf yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng y plant hynny yn y Cyfnod Sylfaen sydd â hawl i Brydau Ysgol am Ddim a'r rhai nad ydynt wedi ei amlygu fel maes i'w wella.

Yn gyffredinol mae gan blant ifanc yn y Fro lefel dda o lesiant; fodd bynnag, fel sy'n digwydd yn aml, mae'r data ar lefel Bro Morgannwg yn cuddio anghydraddoldebau o fewn y sir ac mae hyn yn wir ar gyfer ystod o ddangosyddion mewn perthynas ag iechyd a datblygiad plant ifanc.

Yn ychwanegol at dystiolaeth yn ymwneud â phlant ifanc eu hunain, mae'n bwysig ystyried yr ystod eang o ffactorau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n dylanwadu ar gyfleoedd bywyd, neu'r 'penderfynyddion ehangach o iechyd a lles', fel y trafodwyd yn gynharach.  Mae profiadau pan yn ifanc yn effeithio nid yn unig ar gyfleoedd bywyd cenedlaethau'r dyfodol heddiw, ond y cenedlaethau sydd i ddod ar eu hôl.

Gellir cysylltu'r ystod eang o ddata a ystyrir yn ein hasesiad gyda'r effaith ar brofiadau a chyfleoedd plant ifanc yn awr ac yn y dyfodol.

Mae Astudiaeth Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod yng Nghymru Iechyd y Cyhoedd (ACE) [11] yn amlygu bod "plant sy'n profi plentyndod llawn straen ac o ansawdd gwael yn fwy tebygol o fabwysiadu ymddygiadau sy'n niweidio'u hiechyd yn ystod llencyndod, a all ynddynt eu hunain arwain at salwch meddwl ac afiechydon fel canser, clefyd y galon a diabetes yn ddiweddarach mewn bywyd. Nid pryder iechyd yn unig a geir yn sgil Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod. Mae profi'r rhain yn golygu bod unigolion yn fwy tebygol o berfformio'n wael yn yr ysgol, yn fwy tebygol o fod yn gysylltiedig â throsedd, ac yn y pendraw yn llai tebygol o fod yn aelod cynhyrchiol o gymdeithas."

Diffinnir Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod fel profiadau ingol yn ystod plentyndod sy'n niweidio plentyn yn uniongyrchol (e.e. cam-drin rhywiol neu gorfforol) neu'n effeithio ar yr amgylchedd lle maent yn byw (e.e. tyfu i fyny mewn tŷ gyda thrais domestig, camddefnyddio alcohol, cyffuriau defnydd ayb).

Amlyga astudiaeth o boblogaeth oedolion Cymru bod y rhai sy'n profi 4 neu fwy o brofiadau plentyndod niweidiol, o'i gymharu â rhai nad ydynt wedi profi Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod, yn fwy tebygol o ymgymryd ag ymddygiadau niweidio iechyd.

**O'u cymharu â phobl heb unrhyw ACE, mae'r rheiny â 4+ ACE:**

- **4 gwaith yn fwy tebygol** o fod yn yfwyr risg uchel
- **6 gwaith yn fwy tebygol** o fod wedi beichiogi neu achosi beichiogi nas bwriadwyd yn yr arddegau
- **6 gwaith yn fwy tebygol** o smygu sigaréts neu dybaco
- **6 gwaith yn fwy tebygol** o fod wedi cael rhyw o dan 16 oed
- **11 gwaith yn fwy tebygol** o fod wedi smygu cannabis
- **14 gwaith yn fwy tebygol** o fod yn ddioddefwyr trais yn y 12 mis diwethaf
- **15 gwaith yn fwy tebygol** o fod wedi cyflawni trais yn erbyn person arall yn y 12 mis diwethaf
- **16 gwaith yn fwy tebygol** o fod wedi defnyddio crack cocaine neu heroin
- **20 gwaith yn fwy tebygol** o fod wedi cael eu carcharu unrhyw bryd yn ystod eu bywyd

[11] http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/77d051ad7fad077c80257f370038b0b7/$FILE/ACE%20Report%20FINAL%20(W).pdf

Felly gallai lleihau Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod yng nghenedlaethau'r dyfodol wella iechyd a llesiant ein poblogaeth yn sylweddol. O'r herwydd, mae'r BGC wedi ystyried amrywiaeth o ddangosyddion sy'n ymwneud ag ymddygiadau iach.

## Ymddygiadau Iach

### Ysmygu

Mae canran yr oedolion sy'n nodi eu bod yn ysmygu ym Mro Morgannwg yn un o'r cyfraddau isaf yng Nghymru ac mae'r gyfradd o oedolion sy'n ysmygu yn y Fro wedi bod yn is na chyfartaledd Cymru ers nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2014-15 yn dangos bod y ganran i Fro Morgannwg wedi cyrraedd man gwastad.

Cynhyrchodd Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru nifer o amcanestyniadau ar gyfer ystod o ddangosyddion er mwyn symud y sylw oddi wrth ddisgrifio'r gorffennol i ystyried y dyfodol.

Mae hyn yn cynnwys amcanestyniadau ar gyfer y ganran amcangyfrifiedig o oedolion yr adroddir sy'n ysmygwyr cyfredol hyd at 2025. Fodd bynnag, wrth ystyried yr amcanestyniadau hyn rhaid ystyried bod iechyd yn gyfansawdd cymhleth o lawer o elfennau unigol. Er na allwn ddibynnu ar ragolygon i ddweud wrthym beth fydd y dyfodol, gallwn ddefnyddio patrymau o'r gorffennol i ddisgrifio beth allai ddigwydd os ydym yn parhau ar hyd yr un llwybr yn y dyfodol.

Dengys amcanestyniadau ar lefel BIP Caerdydd a'r Fro, er bod canran yr ysmygwyr benywaidd 45-64 oed wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru tan 2013-2015, mae canran yr ysmygwyr benywaidd yn y grŵp oedran hwn yn cynyddu ac mae'n edrych fel petai am aros yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2025.

Er bod canran y plant 11-16 oed a ddywedodd eu bod yn ysmygu yn ardal Caerdydd a'r Fro yn is nag mewn rhannau eraill o Gymru, mae gwahaniaethau amlwg rhwng rhywiau gyda merched yn fwy tebygol o adrodd eu bod yn ysmygu na bechgyn. Fodd bynnag, mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sy'n dweud eu bod yn ysmygu, noda Adroddiad Llywodraeth Cymru 'Deall Dyfodol Cymru', [12] er bod y ganran sy'n ysmygu tybaco yn gostwng, bod pobl ifanc 15 oed Cymru yn gyffredinol yn cymharu'n wael gyda phobl ifanc 15 oed mewn gwledydd eraill yn Ewrop o ran ffordd iach o fyw. Felly mae'n bwysig ystyried er bod ffigyrau ar lefel BIP Caerdydd a'r Fro yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd Cymru, efallai nad yw'r cyfartaledd lefel genedlaethol yn arwydd da o p'un a ellir ystyried cyfraddau ysmygu isel plant yn y Fro yn llwyddiant mewn gwirionedd.

---

[12] http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-wales-future/?lang=en

Dangosodd data a gasglwyd gan ymchwil i fewnwelediadau ymddygiad pobl ifanc ac ysmygu a gynhaliwyd gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn 2015 mai'r ffactor rhagfynegol cryfaf o dechrau ysmygu yw p'un a yw'r fam yn ysmygu. Y ffactor rhagfynegol mwyaf o ran plentyn yn defnyddio 'vape' oedd defnydd ffrindiau a brodyr/chwiorydd o 'vape', a dangosodd y canfyddiadau hefyd bod pobl ifanc nad oeddynt wedi ysmygu yn flaenorol yn defnyddio e-sigaréts. Nid oedd unrhyw gysylltiad rhwng addysg ac ysmygu ac ymddygiad ysmygu a chanfyddiad o niwed.

Mae'r defnydd o e-sigaréts yn uchel yn ardal BIP Caerdydd a'r Fro ar gyfer oedolion a phlant 11-16 oed, gyda'r ymchwil a wnaed gan Brifysgol Fetropolitan Caerdydd yn awgrymu bod pobl ifanc yn cael eu drysu gan y negeseuon cymysg o ran e-sigaréts. Yn ddiweddar, gwnaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn glir bod e-sigaréts yn llai niweidiol na sigaréts i ysmygwyr ond bod ganddynt y potensial i niweidio'r rhai nad ydynt yn ysmygwyr.

**Yfed Alcohol**

Mae lefelau niweidiol o yfed alcohol yn gysylltiedig ag effeithiau iechyd a chymdeithasol tymor byr a hir ar unigolion, teuluoedd a chymunedau. Yn aml mae diwylliant goryfed mewn pyliau yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol - lladrad, cam-drin, trais a beichiogrwydd nas dymunir, gymaint ag y mae gydag afiechyd. Mae â photensial o fod yn broblem sylweddol  i lesiant unigolion a chymunedau. Felly caiff y costau a chanlyniadau cymdeithasol eu lluosi.


Mae cyfradd yr oedolion sy'n yfed alcohol ar draws ardal BIP Caerdydd a'r Fro yn uwch na'r lefelau a welwyd mewn mannau eraill yng Nghymru. Dengys dadansoddiad yn ôl grŵp oedran a rhyw bod canran y dynion a menywod 16-24 oed sy'n yfed mwy na'r canllawiau, yn yfed mewn pyliau, ac yfed yn drwm yn unol â'i gilydd. I bob band oedran dros 25, mae yfed yn uwch ymhlith dynion na menywod.

Cofnodir y wybodaeth hon yn Arolwg Iechyd Cymru, ac felly mae'n debygol y bydd rhai ymatebwyr yn tanamcangyfrif faint o alcohol a yfir. Fel yr amlygwyd gan Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru, gwyddys bod data arolygon ar yfed alcohol yn cael eu tanamcangyfrif ac mae'n debygol nad ydynt ond yn dal tua 60% o'r defnydd gwirioneddol.

Dengys dadansoddiad ar sail ardal bod lefelau yfed mewn pyliau ac yfed yn drwm iawn ymhlith oedolion ar eu huchaf yn ardaloedd mwy cefnog y Fro yn enwedig ardaloedd gwledig y Fro Orllewinol. Yn ôl astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd gan Wasanaeth Gwybodaeth y GIG, mae pobl mewn proffesiynau gweithredol yn fwy tebygol o yfed alcohol bob dydd uwchlaw'r lefel a argymhellir gan y canllawiau uned. Yn 2012, "roedd 17% o'r boblogaeth oedolion a oedd mewn gwaith ar aelwydydd rheoli a phroffesiynol wedi cael diod alcoholig ar bum diwrnod neu fwy yn yr wythnos ddiwethaf, o'i gymharu ag 11% o oedolion mewn cartrefi gwaith â llaw/cyffredinol". Mae'n cael ei gydnabod bellach bod problemau yfed y dosbarth proffesiynol neu ddosbarth canol yn bodoli, gyda chyfeintiau

mwy o ddiod yn cael ei yfed 'y tu ôl i ddrysau caeedig', ac mae'r patrwm hwn yn amlwg ym Mro Morgannwg.

**Canran yr oedolion sy'n adrodd eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau**




*(Noder: Mae'r ffigyrau hyn yn cyfeirio at ganllawiau cyn-2016, sef na ddylai dynion yfed mwy na 3-4 uned y dydd, a menywod ddim mwy na 2-3 uned y dydd. Cyhoeddwyd canllawiau wythnosol newydd gan yr Adran Iechyd ym mis Ionawr 2016.)*

Fodd bynnag, mae Adolygiad Marmot yn nodi "tra bod pobl â statws economaidd-gymdeithasol is yn fwy tebygol o ymatal yn gyfan gwbl, os ydynt yn yfed alcohol, maent yn fwy tebygol o fod â phatrymau yfed problemus a dibyniaeth uwch na phobl sydd uwch i fyny'r raddfa gymdeithasol." Gellir gweld tystiolaeth o hyn ym Mro Morgannwg mewn perthynas â derbyniadau i ysbytai sy'n alcohol-benodol a chyfraddau marwolaeth sy'n alcohol-benodol, sy'n dangos cyfradd uwch o gwmpas ardaloedd mwy difreintiedig yn y Barri.

Dengys data o'r astudiaeth Ymddygiad Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol bod y ganran o blant 11-16 oed sy'n defnyddio alcohol o leiaf unwaith yr wythnos yn ardal BIP Caerdydd a'r Fro yn gydradd isaf yng Nghymru. Mae hyn hefyd yn wir wrth ystyried y data yn ôl rhyw, er

bod canran uwch o fechgyn na merched yn adrodd eu bod yn defnyddio alcohol ledled Caerdydd a'r Fro.

Dangosodd adroddiad gan Wallich yn 2014, 'Alcohol a Phobl Hŷn', a oedd yn ymchwilio i'r defnydd o alcohol gan bobl hŷn ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg, bod nifer sylweddol o bobl hŷn (60+ oed) yn defnyddio alcohol ar lefel a allai fod yn beryglus (17.7% o'r grŵp sampl, sef tua 16,902 o bobl, o'i allosod). O'r rhain, gallai 3,342 o bobl fod yn yfed ar lefel a fyddai'n awgrymu y dylent ymgysylltu â gwasanaeth triniaeth.

**Camddefnyddio sylweddau**

Y 3 sylwedd uchaf mwyaf cyffredin sy'n parhau i gael eu defnyddio yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yw alcohol, canabis a heroin, gydag alcohol y sylwedd mwyaf cyffredin o bell ffordd.

Dengys data diweddar bod marwolaethau sy'n gysylltiedig â chyffuriau wedi cynyddu ym Mro Morgannwg ac mae ymdrin â hyn yn un o gyfrifoldebau allweddol y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA). Mae gan y BCA Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gweithredu ar waith i ymdrin â'r canfyddiadau hyn.

Mae'r BCA wedi cydnabod nifer o ffactorau i'w hystyried wrth gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol, gan gynnwys poblogaeth sy'n gynyddol hŷn, poblogaeth fwy oherwydd datblygiadau newydd arfaethedig trwy'r Cynllun Datblygu Lleol, a'r angen i ystyried technoleg arloesol newydd a chyfryngau cymdeithasol i helpu hyrwyddo a chyflenwi rhai gwasanaethau.

**Imiwneiddio**

Imiwneiddio yw'r ffordd ddiogel ac effeithiol i atal salwch sy'n peryglu bywyd ac yn achosi anabledd. Yn achos llawer o glefydau, pan fo tua 95% o'r boblogaeth wedi cael eu himiwneiddio'n llawn, gellir lleihau lledaeniad clefydau yn sylweddol. Gelwir hyn yn 'imiwnedd yr haid'. Felly gosodir y targedau ar gyfer y nifer sy'n derbyn llawer o imiwneiddiadau plant ar 95% ac maent yn rhan o'r targed Haen 1 i'r GIG yng Nghymru.

Er mwyn diogelu iechyd yn y dyfodol, mae'n bwysig bod yr holl fabanod, plant a phobl ifanc yn cael eu himiwneiddio yn erbyn clefydau y gellir eu hatal â brechlyn. Ym Mro Morgannwg mae'r ganran o'r holl blant sydd ar hyn o bryd ag imiwneiddiadau erbyn iddynt gyrraedd pedair oed wedi gostwng dros y blynyddoedd diwethaf o 91.6% yn 2010-11 i 88.1% yn 2014-15. Mae hyn yn dilyn yr un duedd ag a welwyd yn genedlaethol, lle mae'r ganran wedi gostwng ychydig yn y blynyddoedd diwethaf, er bod y Fro yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Dengys y data ar gyfer 'plant mewn angen', hynny yw plant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol gan eu hawdurdodau lleol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal gan

awdurdodau lleol a'r rhai sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant, o’r 480 o blant yn 2015 yr oedd data imiwneiddio ar eu cyfer, bod 430 yn gyfoes gyda'r imiwneiddiad y dylent fod wedi ei dderbyn ar sail eu grŵp oedran.

Yn ogystal â brechiadau i blant a phobl ifanc, cynigir brechiadau ffliw ar sail flynyddol i oedolion dros 65 oed, y rhai yr ystyrir eu bod yn y grwpiau 'mewn perygl' a gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol. Dengys y data ar gyfer 2015-16 bod cyfraddau derbyn brechiadau ffliw ym Mro Morgannwg i’r rhai dros 65 mlwydd oed ychydig yn uwch na'r gyfradd gyfartalog i ardal BIP Caerdydd a'r Fro a chyfartaledd Cymru.  Fodd bynnag, er ei fod yn uwch na’r cyfartaledd, nid yw cyfraddau manteisio’r rhai dros 65 mlwydd oed yn y Fro yn bodloni'r targed o 75% sydd wedi ei osod gan Iechyd Cyhoeddus ar gyfer y brechlyn ffliw.

Fodd bynnag, mae’r gyfradd o gleifion Bro Morgannwg dan 65 oed yn y grwpiau 'mewn perygl' sy’n manteisio ar y brechlyn yn unol â chyfartaledd Cymru, ac yn parhau i fod yn sylweddol is na'r lefelau targed. Mae’r gyfradd o 46.8%  ym Mro Morgannwg ar gyfer 2015-16 wedi gostwng o’r cyfraddau a welwyd yn y blynyddoedd blaenorol, gyda chyfradd o 49.2% yn cael ei chofnodi yn 2014-15 a 53.4% yn cael ei chofnodi yn 2013-14. Mae'r cyfraddau gostyngol yn y grŵp hwn yn bryder ar lefel genedlaethol, ac yn arbennig ym Mro Morgannwg.

Mae cyfraddau’r rhai sy’n manteisio ar frechiadau oedolion a phlant yn amrywio'n sylweddol ym Mro Morgannwg, gyda chyfraddau yn gyson is yng Ngorllewin y Fro. Nodwyd cynyddu’r cyfraddau yn yr ardal hon fel blaenoriaeth trwy Gynlluniau Clwstwr meddygon teulu.

**Gordewdra**

Gall gordewdra arwain at nifer o gyflyrau difrifol a allai fygwth bywyd, fel diabetes math 2, clefyd y galon, canser a strôc. Gall gordewdra hefyd effeithio ar ansawdd bywyd ac arwain at broblemau seicolegol megis iselder a hunan-barch isel. Felly, mae'n amlwg bod gordewdra/bod dros bwysau yn gallu cael effaith fawr ar lesiant unigolyn.


Yn gyffredinol, mae'r lefel o ordewdra ym Mro Morgannwg yn gostwng i oedolion a phlant ac mae’n is na chyfartaledd Cymru; er gwaethaf hyn, yn 2014/15 roedd ychydig dros hanner (52%) o oedolion yn y Fro yn dal i fod yn rhy drwm neu'n ordew.  Gellir gweld anghydraddoldebau hefyd ym Mro Morgannwg gyda nifer uwch o oedolion sydd dros bwysau neu'n ordew i’w canfod yn yr ACEHI mwyaf difreintiedig yn y Barri.

**Bwyta’n iach**


Er mwyn cynnal pwysau iach mae bwyta diet cytbwys yn hanfodol. Er nad dyma'r unig ffactor sy'n cyfrannu at fod â diet iach, mae bwyta 5 dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd yn allweddol i gyflawni diet cytbwys iach. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn argymell bwyta o leiaf

400g o ffrwythau a llysiau bob dydd i leihau'r risg o broblemau iechyd difrifol, megis clefyd y galon, strôc a rhai mathau o ganser.

Dengys canlyniadau Arolwg Iechyd Cymru 2014-15 bod 31.9% o oedolion ym Mro Morgannwg yn dweud eu bod wedi bwyta pum dogn neu fwy o ffrwythau a llysiau y diwrnod blaenorol. Mae hyn yn unol â chyfartaledd Cymru o 32.2%. Mae’r Fro yn y 12fed safle yng Nghymru, gyda’r lefelau uchaf yng Ngheredigion (39.1%) er bod y ganran ar gyfer y Fro wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, fel y dangosir yn y siartiau canlynol.




(Saesneg yn Unig)




(Saesneg yn Unig)

Gwelir y lefelau isaf yn y Barri, ac mae hyn yn cyfateb i'r un Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014; mae’r ardaloedd hyn hefyd yn cyfateb i'r rhai lle ceir y lefelau uchaf o ordewdra.

Tynnir sylw yn Adroddiad Marmot at sut y mae "incwm isel ac amddifadedd ardal ill dau yn rhwystrau i brynu bwydydd ffres neu anghyfarwydd, tra bod aelwydydd incwm is yn cael eu taro yn galetach gan amrywiadau mewn prisiau bwyd." Er mwyn ceisio ymdrin â'r materion hyn, mae Cynllun Gweithredu Bwyta'n Dda Caerdydd a'r Fro yn nodi'r camau gweithredu partneriaeth allweddol sydd eu hangen i gefnogi'r boblogaeth i fwyta diet amrywiol a chytbwys er mwyn gwella eu hiechyd a'u llesiant. Nod y cynllun yw datblygu a darparu camau gweithredu sy'n cefnogi cymunedau mwy difreintiedig i fwyta'n iachach, ac felly i gynyddu nifer y plant ac oedolion sydd o fewn yr ystod pwysau normal, a thrwy hynny gyfrannu at leihau anghydraddoldebau mewn iechyd.

Mae plant yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn yfed mwy o ddiodydd pefriog llawn siwgr nag mewn ardaloedd eraill, gyda thua 1 o bob 5 o blant rhwng 11-16 oed yn yfed diodydd llawn siwgr fel Coke o leiaf unwaith y dydd. Yn yr un modd mae'r ganran sy'n bwyta losin unwaith neu fwy y dydd hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru.


Hefyd cefnogir canlyniadau'r arolwg Ymddygiadau Iechyd mewn Plant Oedran Ysgol ar gyfer yfed diodydd llawn siwgr ar draws Caerdydd ac ardal BIP Fro ar lefel leol gan yr Arolwg Ysgolion a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg yn 2013. Dengys y canlyniadau o'r arolwg hwn mai gwahanol gategorïau o 'fwyd sothach' a diodydd pefriog yw'r eitemau y mae plant yn fwyaf tebygol o adrodd eu bod yn eu bwyta/yfed 5 gwaith neu fwy y dydd. Yn ogystal â'r effeithiau iechyd y risg gynyddol o ordewdra ac iechyd y geg gwael, gall lefelau uchel o yfed diodydd llawn siwgr gael effeithiau sylweddol ar allu plant i ganolbwyntio a dysgu yn yr ysgol, ac felly gallant gael ystod o sgil-effeithiau ar lesiant plant yn y dyfodol.

Gofynnodd Uwch Arolwg Ysgolion 2016 mwy diweddar a wnaed drwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc i ddisgyblion ysgol p'un a oeddent yn bwyta bwyd yn rheolaidd yn yr ysgol. Yna gofynnwyd i'r disgyblion raddio pa mor bwysig oedd amrywiaeth o ffactorau iddynt hwy wrth benderfynu a ddylid bwyta yn yr ysgol. Dywedodd 87% o'r ymatebwyr o ysgolion uwchradd bod 'pa mor iach yw'r bwyd' naill ai'n bwysig iawn neu'n gymharol bwysig iddynt wrth wneud y penderfyniad a ddylid bwyta bwyd ysgol.

Fodd bynnag, wrth ystyried yr ymatebion ar gyfer ffactorau 'pwysig iawn' yn unig, nododd canran uwch o ddisgyblion ysgolion uwchradd ffactorau eraill fel rhai 'pwysig iawn' na pha mor iach oedd y bwyd. Gall hyn awgrymu wrth wneud penderfyniad p'un ai i fwyta yn yr ysgol, a beth y maent yn dewis ei fwyta, bod yr opsiwn pa mor iach yw'r bwyd yn llai pwysig i ddisgyblion ysgolion uwchradd na ffactorau fel pris, blas ac ansawdd.

Ar y llaw arall, dangosodd canlyniadau ar gyfer disgyblion ysgolion cynradd bod canran y disgyblion sy'n graddio bwyd 'iach' fel ffactor pwysig iawn wrth benderfynu a ddylid bwyta yn yr ysgol yn cyd-fynd â ffactorau eraill, megis dewis ac ansawdd. Roedd bod yn iach hefyd yn ffactor pwysig iawn i ganran uwch o ddisgyblion ysgolion cynradd na phris - mae hyn i'w briodoli mae'n debyg i'r ffaith nad y disgyblion ysgolion cynradd sy'n gyfrifol am brynu bwyd yn yr ysgol.

Dangosir y canlyniadau hyn yn y siart ganlynol a dylid nodi y gallai disgyblion raddio mwy nag un opsiwn fel rhai a oedd yn 'bwysig iawn' iddynt.




Ffynhonnell: Uwch Arolwg Ysgolion 2016 (Saesneg yn Unig)

Mae ein hadroddiad tystiolaeth yn manylu ar amrywiaeth o fentrau sydd yn eu lle i helpu creu amgylchedd bwyd iachach ym Mro Morgannwg, a ystyrir yn hanfodol o ran helpu i wella llesiant ein trigolion. Er enghraifft nododd Asesiad Effaith ar Iechyd Cynllun Datblygu Lleol Bro Morgannwg 2013 yr effeithiau iechyd cadarnhaol sy'n dod o amddiffyn rhandiroedd. Mewn perthynas ag ystyried bwyta'n iach yn y dyfodol, mae'r Asesiad Effaith ar Iechyd hefyd yn ystyried ac yn cydnabod yr effeithiau negyddol posibl o gynigion newid defnydd a fyddai'n golygu creu siopau cludfwyd bwyd poeth mewn canolfannau manwerthu.

Mae Adroddiad Tystiolaeth Asesiad Risg Newid yn yr Hinsawdd y DU (ARNH) 2017 – Crynodeb i Gymru[13] yn nodi nifer o risgiau i Gymru a allai godi o newid yn yr hinsawdd. Nodir nifer o risgiau mewn perthynas ag amgylchedd bwyd Cymru fel a ganlyn:

- Risg o sawl sioc sy’n gysylltiedig â'r tywydd i gynhyrchu bwyd a masnach rhyngwladol
- Risgiau diogelwch bwyd wedi'i fewnforio

[13] https://www.theccc.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/UK-CCRA-2017-Wales-National-Summary.pdf (Saesneg yn Unig)

- Risgiau a'r cyfleoedd newidiadau tymor hir sy'n gysylltiedig â’r hinsawdd mewn cynhyrchu bwyd byd-eang

Noda'r ARNH bod "diogelwch bwyd yn cwmpasu argaeledd, pris a mynediad at ddiet iach. Y mater allweddol o ran diogelwch bwyd yng Nghymru, fel yng ngweddill y DU, yw nid yn gymaint diffyg bwyd, ond materion yn ymwneud â phris.”

Dengys ein tystiolaeth bod y rhai sydd yn ardaloedd mwy difreintiedig y Fro yn bwyta llai o ffrwythau a llysiau na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig. Gellir awgrymu bod bwyta ffrwythau a llysiau ffres yn yr ardaloedd hyn yn cael ei effeithio gan fforddiadwyedd cynhyrchion o'r fath o'i gymharu â bwydydd cyfleus rhatach. Yn ogystal, dengys data bod y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn llai tebygol o fod yn berchen ar gar ac yn medru teithio i brynu cynnyrch o'r fath, gan eu gadael felly heb unrhyw ddewis ond dibynnu ar 'siopau cornel' drutach, lle mae argaeledd cynnyrch ffres yn gallu bod yn gyfyngedig.

Felly mae cynnydd mewn prisiau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn peri risg pellach i amgylchedd bwyd y Fro, ond mae’n gyfle i hyrwyddo agenda 'ffres a lleol'. Yn ddiweddar, sefydlodd Tîm Iechyd Cyhoeddus Caerdydd a'r Fro Rwydwaith Bwyd y Fro ac mae cynllun gweithredu yn cael ei ddrafftio. Bydd y rhwydwaith yn gweithio tuag at gael 'Gwobr Dinasoedd Bwyd Cynaliadwy' a bydd yn adnewyddu’r ymarferiad blaenorol o fapio asedau bwyd da sy'n bodoli yn y Fro. Er enghraifft, rhedir Menter Gydweithredol Bwyd gan drigolion Hostel Tŷ Iolo yn y Barri, lle gall unigolion brynu ffrwythau a llysiau ffres am bris gostyngol gan gyflenwr lleol.

**Gweithgarwch Corfforol**

Yn ogystal â bwyta'n iach, gall bod yn egnïol yn gorfforol gael effaith fawr ar lefelau gordewdra, ynghyd â dod ag ystod eang o fuddiannau iechyd eraill yn ei sgil, a chyfrannu at lesiant unigolyn.

Mae canran yr oedolion sy’n bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol ym Mro Morgannwg ychydig yn is na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mewn perthynas â chyfranogiad mewn chwaraeon, mae gan y Fro boblogaeth egnïol gyda chanran uwch na'r cyfartaledd o oedolion wedi ‘gwirioni ar chwaraeon' sy'n cael ei ddiffinio fel cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos. Mae dynion yn fwy tebygol o gymryd rhan na menywod, a siaradwyr Cymraeg hefyd yn llawer mwy tebygol o gymryd rhan mewn chwaraeon na’r di-Gymraeg. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cymryd rhan mewn chwaraeon yn ystod y 4 wythnos diwethaf, dywedodd 93.8% o ymatebwyr i Arolwg Oedolion Egnïol Chwaraeon Cymru 2014 Caerdydd a'r Fro a oedd yn siarad Cymraeg eu bod wedi cymryd rhan, o'i gymharu â 78.8% o ymatebwyr di-Gymraeg. Gwelir tueddiad tebyg ar draws ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae bechgyn hefyd yn fwy tebygol o fod yn egnïol na merched. Fodd bynnag mae'n braf nodi bod menywod yn y Fro yn llai tebygol o ymddieithrio oddi wrth chwaraeon wrth iddynt dyfu'n hŷn, gyda chanran y merched sy'n 'gwirioni ar chwaraeon' yn y Fro yn aros yr un fath ymhlith disgyblion ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae hyn yn gostwng i ferched mewn ysgolion uwchradd mewn ardaloedd eraill.

Mae'r amgylchedd naturiol yn chwarae rhan bwysig wrth gadw trigolion y Fro yn weithgar yn enwedig mewn perthynas â Gorllewin y Fro lle mae oedolion yn debygol o ddefnyddio eu hamgylchedd naturiol i gadw'n gorfforol weithgar yn hytrach nag ymweld â chanolfan hamdden neu gampfa. Mae mwy o blant yn y Fro wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau dŵr o'i gymharu â chyfartaledd Cymru sy'n amlygu sut y gall ein hamgylchedd naturiol gael ei ddefnyddio i hybu ffordd iach a gweithgar o fyw, cyhyd ag y gwneir hyn mewn modd cynaliadwy.

Mae gan Fro Morgannwg gyfoeth o asedau naturiol gan gynnwys y môr, traethau, parciau gwledig, llynnoedd, coetiroedd, ac mae'n cynnwys saith parc baner werdd a all wella llesiant. Noda Adroddiad Marmot sut y mae "nifer o astudiaethau yn tynnu sylw at fanteision uniongyrchol mannau gwyrdd i lesiant corfforol a meddyliol. Mae mannau gwyrdd wedi bod yn gysylltiedig â gostyngiad mewn cwynion iechyd .. gwell iechyd meddwl a llai o lefelau straen, gwell iechyd cyffredinol canfyddedig, a'r gallu i wynebu problemau."

Adlewyrchir hyn yng nghanfyddiadau Arolwg Oedolion Egnïol 2014 a ganfu bod y rhai sydd â chyflwr corfforol neu feddyliol ar draws Cymru yn fwy tebygol o fod wedi ymweld â chefn gwlad neu lan y môr/arfordir na chymryd rhan mewn unrhyw fath arall o weithgarwch corfforol. Mae hyn eto yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio asedau naturiol y Fro mewn modd cynaliadwy er mwyn gwella llesiant. Yn ystod ein hymgyrch ymgysylltu, dywedodd llawer o breswylwyr bod parciau a thraethau'r Fro yn bwysig i'w llesiant meddyliol a chorfforol a sut mae gweithgareddau fel cerdded y ci ar y traeth mor bwysig i'w cadw'n heini.

Cydnabyddir y defnydd o'r amgylchedd naturiol i hyrwyddo gweithgarwch corfforol yng Nghrynodeb ARNH Cymru gyda mwy o gyfleoedd gweithgareddau awyr agored yn deillio o dymheredd cynhesach. Meddai'r ARNH, "Mae newid hinsawdd yn cael ei gydnabod fwyfwy fel ffactor a allai ddylanwadu ar ddefnydd hamdden o amgylcheddau awyr agored. Dim ond yn ddiweddar yr astudiwyd effeithiau newid hinsawdd ar hamdden awyr agored yn fanwl, ac ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael ar gyfer y DU. Byddai newid yn yr hinsawdd yn cael gwahanol effeithiau yn dibynnu ar y gweithgarwch. Er enghraifft, amcangyfrifir y bydd nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn rhai gweithgareddau - megis hamdden awyr agored fel cychod, golff, a hamdden traeth - dan senarios allyriadau canolig, yn cynyddu o 14% i 36% yn y degawdau nesaf."  Fodd bynnag, fel y nodwyd, mae'r dystiolaeth ar lefel y DU yn gyfyngedig ar hyn o bryd, ac ni ddylid anwybyddu'r risgiau eraill sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ar ein hamgylchedd naturiol, ac yn ei ddefnydd fel ased.

Dangosodd ein hymgysylltu mai amser yw'r rhwystr mwyaf i fwy o gyfranogiad mewn chwaraeon gan oedolion a phlant.

Dengys Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru 2014 Cyfoeth Naturiol Cymru[14] sut mae demograffeg yn cael mwy o effaith ar gyfranogiad mewn gweithgarwch corfforol nag amddifadedd. Adlewyrchir hyn ym Mro Morgannwg lle ceir cysylltiad llai amlwg rhwng amddifadedd a lefelau is o weithgarwch corfforol tra bo cyswllt llawer cryfach gydag ymddygiadau iechyd gwael megis lefelau uwch o ordewdra, ysmygu a lefelau is o fwyta ffrwythau a llysiau mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Gwelir ardaloedd mwyaf difreintiedig y Fro o amgylch y Barri lle ceir y crynodiad uchaf o glybiau a chyfleusterau chwaraeon er mwyn caniatáu cyfranogiad. Fodd bynnag, mae afiechyd yn rhwystr mwy cyffredin i gymryd rhan mewn chwaraeon yn yr ACEHI mwyaf amddifad yn y Barri.

Hefyd canfuwyd bod lefelau gweithgarwch corfforol ar eu hisaf mewn rhannau o Ddwyrain a Gorllewin y Fro, lle ceir poblogaeth hŷn sy'n llai tebygol o fod yn gorfforol egnïol, gan gefnogi'r uchod, sef bod ffactorau demograffig yn cael mwy o ddylanwad ar lefelau gweithgarwch nag amddifadedd.

[14] http://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/welsh-outdoor-recreation-survey/?lang=cy

**Chwarae**

Noda Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, "Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau hamdden diwylliannol, celfyddydol ac eraill”.

Chwarae yw'r ffordd y mae plant yn archwilio eu hamgylchedd, eu byd, eu rolau a'u perthnasau; gan gefnogi iechyd meddwl cadarnhaol yng nghenedlaethau'r dyfodol.

Gall chwarae gael effaith fawr ar ddatblygiad plentyn, gan gynnwys ar ystod o ymddygiadau ffordd iach o fyw eraill, ac mae’n gysylltiedig yn benodol â gweithgarwch corfforol i gadw plant yn iach ac egnïol. Er mwyn asesu chwarae ym Mro Morgannwg, yn 2016 ymgymerodd Cyngor Bro Morgannwg ag Asesiad Digonolrwydd Chwarae (ADCh).

Canfu Asesiad Digonolrwydd Chwarae Bro Morgannwg 2016 y bu gostyngiad yn nifer y gweithgareddau chwarae strwythuredig a gynigir ym Mro Morgannwg o ganlyniad i bwysau cynyddol ar gyllid. Mae'r defnydd o asedau naturiol a chynyddu ein dealltwriaeth gymunedol o ardaloedd lle mae pobl ystyried y gall plant chwarae a beth mae 'chwarae' yn ei olygu, yn hanfodol wrth gynllunio darpariaeth yn y dyfodol.

Mae eisoes amrywiaeth o enghreifftiau o weithgareddau sy'n cael eu hyrwyddo yn y Fro gan ddefnyddio'r asedau naturiol a geir yn yr ardal. Mae Cyngor Tref Llanilltud Fawr, Cyngor Tref Penarth a Chyngor Cymuned y Wig wedi ariannu sesiynau Ceidwaid Chwarae yn eu hardaloedd, sy’n annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddefnyddio'r gofod awyr agored yn eu cymunedau ar gyfer chwarae yn yr awyr agored. Y gobaith yw y bydd y math hwn o ddarpariaeth yn eu hannog i barhau i ddefnyddio'r adnoddau naturiol gwych sydd gan y Fro i'w cynnig i ymgymryd â chwarae heb gefnogaeth staff chwarae. Hefyd cynhelir mentrau cost isel mewn ardaloedd mwy adeiledig y Fro, er mwyn hyrwyddo chwarae a datblygu darpariaeth mwy cynaliadwy, rhad ac am ddim neu gost isel.

## Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cyffredinol

Cyhoeddodd Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro (PIGCI) Asesiad Anghenion Poblogaeth (AAP) yn Ebrill 2017. Mae'r asesiad yn canolbwyntio ar anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, gan gynnwys gofalwyr sydd angen cymorth. Mae'r AAP yn ddogfen gynhwysfawr ac mae’r wybodaeth a gasglwyd fel rhan o'r AAP wedi cael ei hymgorffori yn yr asesiad llesiant lle bo hynny'n berthnasol. Bydd y BGC yn gweithio'n agos gyda PIGCI i gyflawni blaenoriaethau a rennir ac alinio gweithgareddau.

Mae Asesiad Anghenion y Boblogaeth yn ofyniad statudol ac mae'n rhaid ystyried anghenion gofal a chefnogaeth y grwpiau poblogaeth canlynol.

- Plant a Phobl Ifanc

- Pobl Hŷn
- Gofalwyr
- Iechyd Meddwl
- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- Nam ar y Synhwyrau
- Iechyd ac Anabledd Corfforol
- Anabledd ac Awtistiaeth Dysgu

Yn ogystal, mae’r asesiad AAP yn ystyried anghenion cyn-filwyr, troseddwyr a cheiswyr lloches a ffoaduriaid, gan gydnabod bod ystod amrywiol o anghenion yn bodoli ar draws ein cymunedau.

Mae’r AAP yn manylu ar yr anghenion gofal a chymorth, materion atal ac asedau ar gyfer y gwahanol grwpiau poblogaeth fel y rhestrir uchod. Mae nifer o ganfyddiadau sy'n gyffredin i fwy nag un grŵp a manylir ar y rhain isod:

**Anghenion gofal a chefnogaeth** - Mynediad hawdd at wybodaeth am y cymorth a'r gwasanaethau sydd ar gael; mynediad amserol i wasanaethau iechyd meddwl gan gynnwys diagnosis a chynghori; mynediad amserol at wasanaethau eraill; ynysu cymdeithasol; cefnogaeth i ofalwyr ifanc ac oedolion; seibiant i ofalwyr ifanc ac oedolion; galluogi trawsnewidiadau llyfn o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion; cynnal a chynyddu darpariaeth a chynaliadwyedd gwasanaethau a chefnogaeth gymunedol; trafnidiaeth i gynorthwyo gyda mynediad at wasanaethau; hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth; ymgysylltu ag ysgolion; tai addas; cyfleoedd addysgol galwedigaethol a phrentisiaethau, dysgu i oedolion; cydgysylltu/integreiddio gwasanaethau, dementia; camddefnyddio sylweddau; gwirfoddolwyr cymorth; eiriolaeth; cyfranogiad y gymuned.

**Materion atal** - Meithrin cydberthnasau iach gan gynnwys iechyd emosiynol a meddyliol, iechyd rhywiol; sgiliau bywyd ymarferol gan gynnwys sgiliau ariannol (ar gyfer pob oedran); ffyrdd iach o fyw, gan gynnwys defnydd o dybaco, alcohol, deiet a gweithgarwch corfforol; amgylchedd iach ac amgylchedd adeiledig hygyrch; cefnogaeth i blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt gan chwalu perthynas eu rhieni.


**Asedau** - Rhyngweithio cymdeithasol cadarnhaol; sefydliadau trydydd sector; fferyllfeydd cymunedol; gwirfoddolwyr; hunanofal; amgylchedd ffisegol/ man gwyrdd; hybiau cymunedol, siopau un-stop a llyfrgelloedd; grwpiau cymunedol; cymunedau dementia-gyfeillgar; partneriaethau aml-randdeiliaid.

Mae nifer o'r rhain atseinio â chanfyddiadau o fewn yr asesiad llesiant e.e. o ran pwysigrwydd ymgysylltu effeithiol, cael mynediad at wasanaethau a phwysigrwydd profiadau blynyddoedd cynnar a phlentyndod. Bydd y BGC a PIGCI yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni blaenoriaethau y cytunwyd arnynt a gweithgareddau partneriaeth cymorth fel y bo'n briodol.

Mae'r AAP yn cynnwys ystod o dystiolaeth mewn perthynas â llesiant corfforol a meddyliol trigolion ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. Gall Iechyd Meddwl gael effaith sylweddol iawn ar bob agwedd arall ar lesiant unigolyn a gall effeithio ar ystod o ffactorau eraill ar gyfer llesiant da a ystyrir yn yr asesiad hwn, gan gynnwys cyflogaeth, ynysu cymdeithasol a bod yn rhan o gymuned, diogelwch personol, cyllid ac addysg.

Mae hunan-adrodd ynghylch llesiant meddyliol yn ardal BIP Caerdydd a'r Fro yn unol â chyfartaledd Cymru. Hefyd mae cyfraddau derbyniadau i'r ysbyty ar gyfer materion iechyd meddwl yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg (26.3 fesul 10,000 o'r boblogaeth) yn is na chyfartaledd Cymru (31.6 fesul 10,000 o'r boblogaeth)

Amlygodd asesiad anghenion iechyd diweddar o bobl â dementia yng Nghaerdydd a'r Fro fod dementia wedi goddiweddyd clefyd y galon fel prif achos marwolaeth ymhlith menywod yng Nghymru a Lloegr, a rhagwelir y bydd nifer y bobl hŷn â dementia yng Nghaerdydd a'r Fro yn cynyddu, yn arbennig o gyflym o 2020.




Er mwyn ymgymryd â'r AAP cynhaliwyd ymgyrch ymgysylltu gan ddefnyddio'r brand 'Amser Siarad' a ddatblygwyd ar y cyd ar gyfer Asesiad Llesiant y Fro, Asesiad Llesiant Caerdydd a'r AAP er mwyn sicrhau cysondeb i aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Roedd yr ymgysylltu a gynhaliwyd i hysbysu'r AAP yn cynnwys arolwg a chyfres o grwpiau ffocws.


Teimlai tua dwy ran o bump o'r ymatebwyr i'r arolwg AAP ar ofal a chefnogaeth ar draws Caerdydd a'r Fro bod rhywle (e.e. lle, clwb, grŵp cymunedol ayb.) yn eu cymuned a oedd yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i'w llesiant. Cafwyd llawer o atebion amrywiol, ond y mwyaf cyffredin oedd y gampfa leol, canolfannau hamdden a chyfleusterau ymarfer corff; canolfannau crefyddol; parciau a mannau agored; a gwirfoddoli fel gweithgaredd. O'r bobl a oedd yn dymuno defnyddio cyfleusterau cymunedol, y prif resymau a roddwyd dros beidio eu defnyddio oedd diffyg gwybodaeth; cyllid; iechyd emosiynol neu feddyliol; cludiant; anawsterau corfforol; dim byd ar gael ar hyn o bryd; ac amseroedd anaddas.

Yn ystod y grwpiau ffocws, amlygwyd  mannau gwyrdd, parciau, coedwigoedd, mannau pysgota a'r arfordir fel lleoedd a oedd yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant, ynghyd ag ymarfer corff. Roedd diogelwch yr ardal hefyd yn bwysig. Amlygwyd yr amgylchedd naturiol fel man pwysig ar gyfer cerdded, ymarfer corff, ymlacio a myfyrdod. Er bod amgylchedd naturiol y Fro yn cael ei weld fel un o asedau mwyaf yr ardal o ran cyfrannu at lesiant da, mae'n bwysig nodi bod rhwystrau'n bodoli o ran mynediad i fannau awyr agored hefyd. Dangosodd yr arolwg AAP i'r rhai sy'n profi problemau meddyliol ac emosiynol bod diffyg hyder yn rhwystr cyffredin i ddefnyddio'r mannau hyn, ynghyd ag anawsterau corfforol, cludiant a chyllid.

O ran iechyd cyffredinol ar draws Bro Morgannwg, fel yr archwiliwyd yn gynharach, mae disgwyliad oes cyffredinol yn gymharol uchel pan y'i ystyrir ar lefel awdurdod lleol. Mae gan Fro Morgannwg gyfradd marwolaethau ystadegol arwyddocaol is na chyfartaledd Cymru. Mae hyn yn wir wrth ystyried cyfraddau marwolaethau ar draws bob oedran, a'r rhai o dan 75 oed yn unig.

Unwaith eto, dengys y map canlynol o gyfraddau marwolaethau o bob achos pobl o dan 75 oed fod y gyfradd uwch wedi'i chanoli yn ardaloedd dwyreiniol y Barri. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â'r iechyd gwaelach a achosir gan y ffactorau ffordd o fyw gwahanol a ystyriwyd uchod.


**Cyfradd marwolaethau o bob achos, dan 75 oed, BIP Caerdydd a'r Fro, 2012-2014**




Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS)
© Crown Copyright and database right 2016, Ordnance Survey 100044810

Yn gyffredinol mae pobl hŷn yn y Fro yn adrodd eu bod mewn iechyd cymharol dda fel y gwelir isod; fodd bynnag, fel sydd wedi digwydd trwy gydol yr adran hon, gwelir bod gwahaniaethau rhwng ardaloedd.

**Older people who reported being in good, very good or excellent health, age-standardised percentage, persons aged 65+, Wales and local authorities, 2014-2015**




Please consult the technical guide for full details on how this indicator is calculated. Produced by Public Health Wales Observatory, using Welsh Health Survey (WG)

Mae data meddygon teulu ar lefel clwstwr ar gael mewn perthynas â nifer yr achosion o saith cyflwr cronig a nodwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhai sy’n cael effaith fawr ar wasanaethau - clefyd rhwystrol cronig ysgyfaint, asthma, clefyd coronaidd y galon, methiant y galon, pwysedd gwaed uchel, epilepsi a diabetes. Yn gyffredinol, mae Clwstwr Meddygon Teulu Canol y Fro, sy'n cynnwys meddygfeydd yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Barri, yn dangos nifer uwch o achosion o glefydau cronig o’i gymharu ag ardaloedd Clwstwr Meddygon Teulu Dwyrain a Gorllewin y Fro. Gellir priodoli hyn i gyfraddau uwch o ymddygiadau ffordd afiach o fyw a welwyd yn y maes hwn fel yr ystyriwyd yn gynharach, gan ddangos pwysigrwydd gwella ymddygiadau ffordd iach o fyw i wella iechyd yn yr ardaloedd hyn a lleihau anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes.

Hefyd dengys proffiliau clwstwr meddygon teulu bod amseroedd teithio i feddygfeydd yn gwahaniaethu yn ôl ardal, gyda chanran uwch o'r boblogaeth yng Ngorllewin y Fro yn gorfod teithio mwy na 15 munud i gyrraedd eu meddygfa. Nodwyd pwysigrwydd mynediad da at feddygon teulu fel mater gan drigolion ar draws holl ardaloedd y Fro drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu, er bod y sylwadau yn ymwneud mwy â chael apwyntiad a gweld yr un meddyg teulu yn gyson, yn hytrach nag amseroedd teithio a materion trafnidiaeth.

## 4.3 Crynodeb

Wrth ystyried ar lefel awdurdod lleol, gwelir bod gan y Fro boblogaeth weddol iach ac egnïol. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad manwl y gellir gweld gwahaniaethau rhwng ardaloedd a grwpiau o'r boblogaeth.

Mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yn achos pryder i'r BGC, ac mae cydberthynas rhwng yr ardaloedd sydd â’r disgwyliad oes iach isaf a’r rhai mwyaf difreintiedig fel y nodwyd drwy MALlC 2014 ac maent wedi eu lleoli yn bennaf mewn ardaloedd yn rhan ddwyreiniol y Barri, fel Gibbonsdown, Castleland a Buttrills. Yn yr ardaloedd hyn hefyd gwelir lefelau uwch o ordewdra, lefelau ysmygu uwch a chyfraddau uwch o farwolaethau alcohol-benodol.

Dengys ein hadroddiad o dystiolaeth fanwl bod gan blant ifanc yn y Fro yn gyffredinol lefel dda o lesiant, er hyd yn oed pan yn ifanc, mae’r canlyniadau i blant yn yr un ardaloedd o'r Barri yn llai dymunol na rhai eu cyfoedion, gan ddangos pwysigrwydd profiadau yn y blynyddoedd cynnar ac iechyd a llesiant y fam cyn, yn ystod, ac ar ôl beichiogrwydd.

Gall y defnydd o alcohol ymhlith yfwyr hŷn yn ardaloedd llai difreintiedig gwledig Gorllewin y Fro hefyd gael ei ystyried yn broblem yn y Fro; fodd bynnag, cydnabyddir bod gan y Bwrdd Cynllunio Ardal strategaeth gomisiynu fanwl ar waith ac mae’n gweithio i ymdrin â hyn. Hefyd amlygwyd yfed alcohol fel maes ar gyfer gweithredu trwy Gynlluniau Clwstwr Meddygon Teulu yn 2015/16 ym Mro Morgannwg, gan dynnu sylw at yr angen i wella ymwybyddiaeth alcohol drwy arferion sy'n ymgymryd â hyfforddiant Ymyriad Byr Alcohol.

Mae’r wybodaeth yn yr adran hon o'r asesiad yn ymwneud â'n sefyllfa mewn perthynas â chyflawni'r nodau llesiant nodau cenedlaethol canlynol: Cymru Fwy Cyfartal, Cymru Iachach a Chymru Gydnerth.

## 4.4 Lle mae angen i ni gynyddu ein sail dystiolaeth?

Mae'n rhaid i'r asesiad llesiant gael ei weld fel proses barhaus o ddeall ein cymunedau er mwyn gwella llesiant ein trigolion a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y BGC yn ystyried sut y gellir sicrhau y cedwir ein sylfaen dystiolaeth yn 'fyw' a dod yn adnodd deinamig i bawb.

Byddwn hefyd yn parhau i wella canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon o'r asesiad, ac yn cydnabod bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r canlynol, naill ai oherwydd nad oes data cadarn ar gael ar hyn o bryd neu oherwydd bod dadansoddiad yn parhau.

- Mae angen mwy o ddata a mewnwelediad mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau yn y gymuned LGBT.

- Byddai ymgysylltu wedi'i dargedu mewn ardaloedd penodol yn y Barri yn ein helpu i ddeall yn well y rhesymau dros y crynodiad o wahanol ymddygiadau afiach yn yr ardaloedd hyn.

- Cynhwysir data mewn perthynas â thrafnidiaeth yn ddiweddarach yn yr asesiad hwn, er byddai mwy o wybodaeth yn ymwneud â theithio byw a'r manteision iechyd y gall hyn ddod yn ei sgil yn gwella ein sylfaen dystiolaeth.

- Y tueddiadau i’r dyfodol a ragwelir mewn perthynas â nifer yr achosion o gyflyrau cronig sy’n gysylltiedig ag ymddygiadau iechyd a welir ar hyn o bryd yn y Fro.

- Tystiolaeth mewn perthynas â chyffuriau ar bresgripsiwn.

# 5. Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol

Mae'r adran hon o'r asesiad yn canolbwyntio ar dai, diogelwch cymunedol, gwirfoddoli a chymunedau gwydn. Trwy sicrhau fod trigolion Bro Morgannwg yn rhan o gymunedau diogel a chynhwysol, bydd BGC y Fro yn mwyhau ein cyfraniad tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol: Cymru Ffyniannus, Cymru Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynol, Cymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, Cymru Iachach, a Chymru sy'n Gyfrifol yn Fyd Eang.

Gall tystiolaeth o fewn yr adran hon hefyd gael ei hystyried mewn perthynas â chanfyddiadau eraill yn yr asesiad hwn, a gwelir cysylltiadau rhwng ystod o agweddau eraill o lesiant da megis effeithiau byw mewn cymunedau diogel ar lesiant meddyliol, corfforol ac economaidd, a'r sylfeini y gellir eu darparu gan dai fforddiadwy o ansawdd dda.

Efallai mai'r ffordd orau o ddangos y cysylltiadau rhwng y gwahanol adrannau o'r asesiad hwn yw drwy fodel Dahlgren a Whitehead y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr asesiad hwn, sy'n amlygu perthynas achosol rhwng ffactorau unigol ffordd o fyw, rhwydweithiau cymdeithasol, amodau gwaith a byw, a ffactorau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol, yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol.

## 5.1 Penawdau

### Beth a ddywedodd y data wrthym?

- Mae gan Fro Morgannwg boblogaeth sy'n gymharol ymgysylltiedig, gyda chyfraddau uwch na'r cyfartaledd o bleidleisio a lefelau gwirfoddoli da. Fodd bynnag, mae'r lefel o ymgysylltiad gwleidyddol yn amrywio'n fawr ym Mro Morgannwg ac yn awgrymu bod yna gymunedau daearyddol ym Mro Morgannwg sy'n cyfranogi llai nag eraill. Awgryma'r ffigyrau bod y rhai yn yr ACEHI mwyaf difreintiedig ym Mro Morgannwg yn llai tebygol o gymryd rhan yn y broses wleidyddol na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

- Mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn faterion trawsbynciol sy'n effeithio'n ddifrifol ar iechyd a llesiant pobl o bob oed yng Nghymru. Rhagwelir bod nifer sylweddol uwch o ferched 65+ oed yn byw ar eu pennau eu hunain na dynion. Erbyn 2035 rhagwelir y bydd oddeutu dwbl y nifer o ferched 65+ oed yn byw eu hunain ym Mro Morgannwg o'i gymharu â dynion. Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw arwahanrwydd yn gyfyngedig i bobl hŷn.

- Mae cymuned Lluoedd Arfog sylweddol ym Mro Morgannwg, gyda data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 1143 o aelodau'r Lluoedd Arfog yn y Fro. Mae hyn yn 16.6% o gyfanswm poblogaeth Lluoedd Arfog Cymru.

- Bu cyfradd gyffredinol o droseddau yn y Fro yn gyson is na chyfartaledd Cymru.

- Yn ACEHI Castleland 2G yn ardal y Barri y gwelwyd y cyfraddau uchaf o droseddau yn y Fro ar draws nifer o ddangosyddion, gan gynnwys cyfraddau troseddau treisgar, difrod troseddol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yr ACEHI hwn yn safle 29ain o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer Parth Diogelwch Cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Mae'r ardal hon yn cynnwys Heol Holton ac yma ceir llawer o siopau, caffis, canolfan hamdden Y Barri, Swyddfeydd Dinesig y Cyngor ac ardaloedd o dir agored.

- Cynyddodd y gyfradd o drais yn erbyn y person yn y blynyddoedd diwethaf yn y Fro er y gwelwyd tuedd debyg hefyd mewn ardaloedd eraill o Gymru. Gwelwyd cynnydd mawr yn arbennig mewn ardaloedd y Barri fel Dyfan (cynnydd o 72% yn 2014/15 o'i gymharu â 2013/14). Yn ogystal, cafwyd cynnydd mewn troseddau meddiant o arfau yn yr ardal hon a rhai rhannau eraill o'r Barri, er bod y niferoedd cyffredinol yn aros yn fach.

- Yn ôl y Cyfrifiad Plant mewn Angen Llywodraeth Cymru, y ganran o blant mewn angen ym Mro Morgannwg lle'r oedd cam-drin domestig yn ffactor rhianta oedd yr uchaf yng Nghymru (51%) ym Mawrth 2015. Byddai angen ymchwil pellach i ddeall y rhesymau dros y ffigwr hwn.

- Bu digwyddiadau trosedd casineb yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf gyda chynnydd hefyd yn y gyfradd drosi rhwng y digwyddiadau a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu fel troseddau.

- Mae prisiau tai ar gyfartaledd ym Mro Morgannwg ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Mae pris cyfartalog tŷ dwy ystafell wely yn ward Castleland yn y Barri yn costio ar gyfartaledd £108,742 o'i gymharu â thŷ dwy ystafell wely yn y Bont-faen yng Ngorllewin y Fro yn costio ar gyfartaledd £273,143.

- Dangosodd Cyfrifiad 2011 am y tro cyntaf mewn 30 mlynedd bod y sector rhent preifat wedi tyfu'n fwy na'r sector rhent cymdeithasol ym Mro Morgannwg. Gellir egluro hyn gan y nifer cynyddol o bobl iau nad ydynt yn gallu fforddio prynu a'u bod yn rhentu'n breifat yn lle hynny. Mae'r Cyngor hefyd yn awr yn gallu cyflawni ei ddyletswydd digartrefedd i'r sector rhentu preifat.

- Ym Mro Morgannwg, y ganran o gartrefi gorlawn yw 3.86%, sy'n is na Chymru ar 5.53%. Fodd bynnag, ar draws Bro Morgannwg mae ystod eang rhwng yr ACEHI isaf (0.0% yn 'Illtyd 1') a'r uchaf (12.2% yn 'Gibbonsdown 2').

- Cynyddodd y gyfradd o aelwydydd sy'n cyflwyno ac a bennir yn gymwys i fod yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaeth ym Mro Morgannwg yn y blynyddoedd diwethaf, yn hytrach na'r duedd genedlaethol o leihau. Fodd bynnag, mae gan Fro Morgannwg ganran uwch na'r cyfartaledd o achosion lle mae digartrefedd wedi cael ei atal oherwydd gweithredu cadarnhaol.

## Beth ydych chi wedi ei ddweud wrthym?

- Dangosodd data arolwg swyddogol bod canran trigolion Bro Morgannwg a nododd eu boddhad bywyd fel 7 allan o 10 neu uwch ychydig yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU. Fodd bynnag, drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu roedd trigolion yn gyffredinol gadarnhaol iawn am eu boddhad bywyd a gyda'r ardal fel lle i fyw.

- Mae cael llais mewn penderfyniadau yn bwysig iawn, er bod y nifer o bobl sy’n credu y gallant ddylanwadu mewn gwirionedd ar benderfyniadau yn isel. Gellid awgrymu bod angen i ni wella o ran cyfathrebu â'n trigolion sut yr ydym wedi cymryd sylw o’r adborth.

- Yn gyffredinol dywedodd trigolion Bro Morgannwg eu bod yn teimlo'n ddiogel mewn bywyd bob dydd, er bod pobl fel y gellid disgwyl yn teimlo'n llai diogel ar ôl iddi dywyllu.

- Nodwyd bod diffyg trosedd yn un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am fyw ym Mro Morgannwg. Fodd bynnag, teimlai pobl hŷn yn enwedig bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem yn eu hardal.

- Dangosodd canfyddiadau’r Arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n “fodlon iawn” neu'n “weddol fodlon” ag ansawdd eu cartrefi. Nid oedd tai yn fater amlwg yn ein hymgyrch ymgysylltu.

- Nododd llawer o bobl mai eu ffrindiau a chymdogion oedd y peth gorau am lle maent yn byw, yn enwedig y rhai yn ardal y Barri o’i gymharu â rhannau eraill o'r Fro. Roedd ymdeimlad o gymuned yn amlwg yn yr ardaloedd hyn gyda phobl yn nodi bod y rhwydweithiau hyn yn hanfodol o ran cynnal eu hiechyd a'u llesiant. Ystyriwyd bod rhyngweithio cymunedol a grŵp drwy amrywiol ddulliau, gan amrywio o grwpiau ffurfiol i ddigwyddiadau cymdeithasol, yn bwysig iawn i lesiant.

## 5.2 Ein Canfyddiadau

Dangosodd data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15 bod 81% o drigolion y Fro yn teimlo ymdeimlad o berthyn i'r ardal leol o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 83%.

Er gwaethaf y canfyddiadau hyn, drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu, roedd trigolion yn gyffredinol gadarnhaol iawn am fywyd yn y Fro ac am eu boddhad bywyd yn gyffredinol. Nododd llawer o bobl mai eu ffrindiau a chymdogion oedd y peth gorau am lle maent yn byw, yn enwedig rhai yn ardal y Barri o'i gymharu â rhannau eraill o'r Fro. Roedd ymdeimlad o gymuned yn amlwg yn yr ardaloedd hyn gyda phobl yn nodi bod y rhwydweithiau hyn yn hanfodol o ran cynnal eu hiechyd a'u llesiant.

Felly mae'r BGC yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod ein trigolion yn ymgysylltu ac yn teimlo'n rhan o gymunedau diogel a chynhwysol er mwyn cynyddu eu hymdeimlad o berthyn i'r ardal leol a boddhad bywyd yn gyffredinol.

Yn aml, gwelir mwy o wytnwch cymunedol ar adegau o argyfwng ac mae'r BGC yn cydnabod yr angen i adeiladu cymunedau cydnerth a all addasu i ddigwyddiadau yn y dyfodol. Er enghraifft, mae effeithiau newid yn yr hinsawdd yn peri risg i'n cymunedau a bydd gweithio i adeiladu cymunedau cynhwysol, gwydn a hyblyg yn awr yn sicrhau bod ein cymunedau yn barod i ymateb ar adegau o angen yn y dyfodol.

Fel uchod, drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu, yn aml nodwyd ffrindiau a chymdogion yn y gymuned gyfagos fel un o'r pethau gorau am fyw yn y Fro, gyda phobl yn nodi bod ganddynt rwydweithiau da yn eu lle, a phobl i ddibynnu arnynt os yw pethau yn mynd o chwith. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod llawer o bobl a wnaeth sylwadau o'r fath yn dod o ardaloedd mwy trefol, yn arbennig y Barri, o'i gymharu â Gorllewin y Fro.

Mae newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd andwyol yn peri risg i bob un o'n cymunedau a gellir awgrymu bod y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig mewn mwy o berygl pan geir digwyddiadau o'r fath. Er enghraifft, gall llifogydd darfu ar rwydweithiau trafnidiaeth, trydan a seilwaith arall yn ogystal â difrodi cartrefi. Gall effeithiau digwyddiad o'r fath fod yn ddinistriol i berson ond mae cael rhwydwaith cymunedol cryf sy'n cynorthwyo yn gallu gwneud gwahaniaeth mawr mewn sefyllfaoedd o'r fath. Yr ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd yw Dinas Powys a'r Barri, yn ogystal â'r Bont-faen a Llanilltud Fawr yn y Fro wledig.

### Cyfranogi ym mywyd y gymuned


Dengys ein canfyddiadau bod pobl ym Mro Morgannwg yn gyffredinol yn cyfranogi'n gymharol dda mewn bywyd cymunedol.

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), mae'r ganran o bobl sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli yn ffurfiol ym Mro Morgannwg yn fras yn unol â chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, wrth ystyried y rhai sy'n dweud eu bod yn gwirfoddoli yn anffurfiol, mae gan y Fro un o'r canrannau uchaf ar draws Cymru.

Y mathau mwyaf cyffredin o gymorth a nodir yw mynd ar negeseuon, gofalu am blant, cadw mewn cysylltiad â pherson sy'n gaeth i'r tŷ, darparu trafnidiaeth a rhoi cyngor. Mae o leiaf hanner miliwn o bobl yng Nghymru yn gwneud un o'r gweithgareddau hyn mewn blwyddyn.

Noda adroddiad y WCVA ar wirfoddoli yng Nghymru 2015[15] "dylai lefel gyffredinol gwirfoddoli anffurfiol adlewyrchu newidiadau cyffredinol i anghenion pobl mewn cymunedau yng Nghymru. Wrth i'r boblogaeth heneiddio gellid disgwyl y bydd mwy a mwy o bobl yn helpu eu cymdogion." Oherwydd bod gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio gallai hyn esbonio pam fod gan Bro Morgannwg ganran llawer uwch o bobl sy'n gwirfoddoli'n anffurfiol nag yn ffurfiol.

**Canran y boblogaeth sy'n 16+ sy'n gwirfoddoli'n anffurfiol**




Ffynhonnell: Adroddiad WCVA - Gwirfoddoli yng Nghymru 2015

Gofynnodd Arolwg Barn y Cyhoedd Bro Morgannwg 2014 i ymatebwyr ynghylch gwirfoddoli ac ni welwyd fawr o wahaniaeth o ran gwirfoddoli ar sail oedran a rhyw. Fodd bynnag, gwelwyd y gwahaniaethau mwyaf rhwng ardal a dosbarth cymdeithasol.

15 http://www.wcva.org.uk/media/4576359/final_volunteering_in_wales_2015__-_cymraeg_gorffennaf_2016.pdf

Roedd trigolion yng Ngorllewin y Fro yn fwy tebygol o wirfoddoli, yna trigolion Dwyrain y Fro. Roedd y rhai o'r Barri yn llawer llai tebygol o wneud gwaith gwirfoddol neu gymunedol. Gellid awgrymu bod y rhai mewn ardaloedd mwy gwledig yn derbyn llai o wasanaethau hygyrch o'u cymharu â'r Barri, ac y gallent o'r herwydd fod yn fwy tebygol o ymgymryd â gwaith cymunedol. Hefyd roedd y rhai mewn swyddi rheoli a phroffesiynol yn fwy tebygol o wirfoddoli na'r rhai mewn swyddi di-grefft neu swyddi llaw.

***'Hoffwn fwy o gyfleoedd i wirfoddoli a chael mwy o lais mewn newidiadau lleol'***

*Menyw/ 35-54/ Dwyrain y Fro*

Ni ddylid tanamcangyfrif pwysigrwydd gwirfoddoli gyda ffigyrau o Wasanaeth Gwirfoddol Morgannwg yn amcangyfrif bod gwerth ariannol gwirfoddoli ym Mro Morgannwg yn 2015/16 yn £36,903,499 a bod hyn yn dangos y cyfraniad sylweddol y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud yn eu cymunedau lleol. Mae hefyd yn bwysig ystyried bod y ffigwr hwn ond yn dal oriau gwirfoddolwyr a wneir trwy sianelau mwy ffurfiol, ac nid yw'n dal y swm helaeth o wirfoddoli anffurfiol a wneir yn y Fro, fel y dangoswyd yn gynharach.

Ni ellir tanamcangyfrif effaith gwirfoddoli ar lesiant unigolyn o ran gwella llesiant meddwl a rhoi ymdeimlad o bwrpas. Yn ogystal, gall gwirfoddoli helpu darparu amrywiaeth eang o sgiliau i bobl sy'n gallu gwella eu rhagolygon gyrfa. Mae BGC felly'n cydnabod cyfle o ran cynyddu gwirfoddoli yn ardaloedd mwy difreintiedig y Barri a hyrwyddo gwirfoddoli fel porth i gyflogaeth mewn ardaloedd lle mae cyfran uwch o'r boblogaeth yn ddi-waith. Gofynnodd y BGC gwestiwn ynghylch sut y gallwn ni fel cyflogwyr helpu ein staff gymryd mwy o ran yn eu cymunedau eu hunain fel gwirfoddolwyr.

Os gallwn wella sut rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau drwy ddulliau mwy arloesol efallai y byddwn yn gallu cael mwy o ddylanwad wrth wella llesiant ein trigolion a lleihau'r anghydraddoldebau rydym wedi eu canfod drwy gydol ein hasesiad. Mae'r BGC hefyd wedi cydnabod nad mewn ystyr ddaearyddol yn unig y mae cymunedau yn bodoli, a bod 'cymunedau digidol' bellach yn bodoli mewn mannau ar-lein. Gallai medru manteisio ar y rhwydweithiau hyn helpu i gyrraedd rhai o'r bobl sydd wedi cael eu hymddieithrio'n draddodiadol.

Gellir defnyddio cyfraddau'r nifer sy'n pleidleisio i ddangos yr amrywiadau mewn cyfranogiad ym Mro Morgannwg. Y nifer a bleidleisiodd yn etholiad llywodraeth leol 2012 yn ward Cadoc yn y Barri oedd 29.7% a dim ond 29.6% yn ward Sain Tathan, y ddwy ward

oddeutu 10% yn is na chyfartaledd Bro Morgannwg o 38.9%.  I'r gwrthwyneb, roedd y nifer a bleidleisiodd yn ward Dinas Powys yn 51.4%.[16]

Gofynnodd yr Arolwg Amser Siarad i drigolion y Fro pa mor bwysig oedd ystod o bynciau iddynt.  O ran yr hyn oedd yn bwysig iawn i'n trigolion, 'cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnaf' oedd yr agwedd bwysicaf i bobl y Fro; fodd bynnag, mae mwy o bobl yn anghytuno'n gryf y gallant ddylanwadu ar benderfyniadau nag a oedd yn tueddu i gytuno, gan awgrymu bod angen i ni wella sut rydym yn ymgysylltu â'n cymunedau. Yn yr un modd, nodwyd 'cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnaf' fel peth pwysig i blant a phobl ifanc drwy Uwch Arolwg Ysgolion 2016, gyda 71% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 85% o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn nodi ei bod yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn 'cael llais yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnaf'. Drwy'r un arolwg, dywedodd 23% o ddisgyblion ysgolion uwchradd nad yw oedolion a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau fyth yn gwerthfawrogi eu safbwyntiau, syniadau a barn. Teimlai 46% eu bod yn gwneud weithiau, roedd 25% yn teimlo eu bod yn gwneud yn aml a 7% yn teimlo eu bod bob amser yn gwneud.

Mae risg y bydd rhai rhannau o'r gymuned yn cael eu hynysu'n gymdeithasol, a all gael effaith sylweddol ar lesiant unigolyn.

Drwy ein harolwg 'Amser Siarad' amlygwyd bod cyfran uchel o drigolion yn anaml neu fyth yn teimlo'n unig; fodd bynnag, mae'n rhaid cydnabod bod y trigolion hynny sy'n debygol o gymryd rhan yn yr arolwg yn fwy tebygol o gyfranogi'n fwy gweithredol ym mywyd y gymuned. Derbyniwyd cyfran uchel o ymatebion i'r arolwg ar-lein, ac unwaith eto, cydnabyddir bod cymunedau digidol newydd bellach yn bodoli a gallent weithredu i atal pobl sydd mewn perygl o gael eu hynysu'n ddaearyddol neu sydd â symudedd cyfyngedig rhag teimlo'n unig.

let's talk amser siarad

***'Mae'n rhaid i mi wneud ymdrech i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau, ac rwyf yn gwirfoddoli; mae'r ddau beth yn cyfrannu at fy llesiant corfforol a meddyliol. Mae'n werth yr ymdrech ac yr wyf yn hoffi bod yn brysur.'***

*Menyw/ 75+/ Dwyrain y Fro*

Er nad pobl hŷn yn unig sy'n dioddef o arwahanrwydd cymdeithasol, mae'r BGC yn cydnabod bod gan y Fro boblogaeth sy'n heneiddio yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a allai fod fwy mewn perygl o deimlo unigrwydd ac arwahanrwydd.  Cydnabyddir bod angen

[16] Data gan y Comisiwn Etholiadol

rhagor o dystiolaeth i ddeall hyn yn well mewn perthynas â Bro Morgannwg, a sut y mae’r materion sy’n ymwneud ag arwahanrwydd cymdeithasol yn ymestyn tu draw i bobl hŷn.

Tynnodd Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru sylw at y canlynol:


> “mae unigrwydd ac arwahanrwydd yn faterion trawsbynciol sy'n effeithio'n ddifrifol ar iechyd a llesiant pobl yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod unigrwydd yn cael ei fesur a bod cyfalaf cymdeithasol perthnasoedd a chysylltedd yn cael eu deall ac yn cael sylw yn nhermau adeiladu Cymru wydn ac yn gymuned o gymunedau cydlynol.
>
> Dangoswyd bod unigrwydd ac arwahanrwydd yn niweidio iechyd, yn sail i allgau cymdeithasol ac yn broblem sylweddol a phwysig yng Nghymru sy'n croesi pob ffin dosbarth cymdeithasol, hil, hunaniaeth ryw, cyfeiriadedd rhywiol, statws ariannol a daearyddiaeth.
>
> Dengys ymchwil bod unigrwydd yn cael effaith ar farwolaethau sy'n debyg i ysmygu 15 sigarét y dydd. Mae'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gwael a chyflyrau megis clefyd cardiofasgwlaidd, pwysedd gwaed uchel a dementia. Hefyd mae unigrwydd yn cael effaith ar iechyd cyhoeddus ehangach o lawer, gan ei fod yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau negyddol ar iechyd, gan gynnwys marwolaeth, morbidrwydd, iselder a hunanladdiad, yn ogystal â’r defnydd o wasanaethau iechyd.
>
> Gall pobl o bob oed deimlo unigrwydd, ond wrth i ni fynd yn hŷn, mae ffactorau risg a allai arwain at unigrwydd yn dechrau cynyddu a chydgyfeirio. Mae ffactorau risg o'r fath yn cynnwys iechyd gwael, diffyg trafnidiaeth gyhoeddus, colli synhwyrau, profedigaeth, ofn troseddau, ymddeoliad a newidiadau technolegol.
>
> Dengys ystadegau bod unigrwydd ac arwahanrwydd yn effeithio ar lawer o bobl hŷn ledled Cymru; fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, mae set unigryw o amgylchiadau yn gwaethygu arwahanrwydd cymdeithasol trigolion hŷn ymhellach, gan arwain at iechyd gwael, colli annibyniaeth ac ansawdd bywyd is.”

Mae gan Fro Morgannwg ganran gymharol uchel o bobl 65+ yn byw eu hunain, gyda Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 13.2% o gartrefi yn y Fro yn cynnwys un person dros 65 oed. Gall arwahanrwydd cymdeithasol fod yn broblem yn y Fro a chanfu Asesiad Cydraddoldeb Ymgyrch Wyn[17] mai un o’r 6 gofyniad uchaf y teimlai trigolion y dylent ei gael o'r ymgyrch oedd peidio â theimlo'n unig.

Dengys y graff isod y disgwylir i nifer y bobl 65+ sy’n byw ar eu pennau eu hunain yn y Fro gynyddu o dros chwarter, o 10,520 yn 2010 i 13,390 yn 2020, ac yna i 16,400 yn 2030.

[17] Roedd Ymgyrch Wyn yn ffrwd waith y Rhaglen Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig, yn cynnwys partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a’r trydydd sector yn gweithio gyda'i gilydd i wella profiad pobl hŷn yn ardal Caerdydd a'r Fro. http://www.cardiffandvaleuhb.wales.nhs.uk/the-wyn-campaign

**Poblogaeth 65+ oed Caerdydd a Bro Morgannwg y disgwylir fydd yn byw eu hunain 2010-2030**




*Source: Cardiff and Vale Public Health Team assessment of the future health and social care needs of older people in Cardiff and the Vale of Glamorgan 2010-2030.*

Gellir gweld gwahaniaethau hefyd yn ôl rhyw, gyda rhagolygon y bydd nifer sylweddol uwch o fenywod 65+ oed yn byw ar eu pennau eu hunain na dynion. Erbyn 2035 rhagwelir y bydd oddeutu dwbl y nifer o fenywod 65+ oed yn byw ar eu pennau eu hunain o'i gymharu â dynion. Gall hyn gael ei briodoli i'r gwahaniaethau a welir rhwng y disgwyliad oes dynion a menywod a welwyd yn y Fro, gyda menywod yn byw'n hirach ar gyfartaledd.

Yn 2014 sefydlwyd y project Friendly AdvantAGE i leihau arwahanrwydd cymdeithasol ac unigrwydd a chynyddu hyder pobl hŷn. Recriwtiodd y project 175 o wirfoddolwyr, a roddodd dros 11,500 o oriau o wirfoddoli i gefnogi pobl hŷn, gan leihau unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Roedd y project yn llwyddiannus iawn gyda 60% o fuddiolwyr yn cytuno bod eu rhyngweithio cymdeithasol neu lesiant wedi cynyddu, a 76% yn cytuno bod eu hyder wedi cael ei effeithio'n gadarnhaol. Daeth y project i ben ym mis Mawrth 2016 pan orffennodd yr ariannu.

Dangosodd adroddiad gwerthuso ar y project gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Prifysgol De Cymru, bod sgoriau'n cynyddu wrth gymryd rhan yn y project i'r bobl a gytunai eu bod yn teimlo'n unig yn llai aml nag yr oeddynt yn arfer wneud, a chynyddodd eu sgoriau ymhellach pan holwyd pobl dri mis i mewn i'r project, gan ddangos bod y project wedi bod yn gadarnhaol o ran lleihau unigrwydd yn y tymor canolig. Fodd bynnag, gostyngodd y sgoriau dri mis ar ôl iddynt orffen cyfranogi yn y project, yn ôl y cytundeb a gafwyd â datganiadau megis "Rwy'n hyderus wrth ddelio â phobl eraill bob dydd", a all awgrymu bod angen gwneud gwaith i ymdrin ag ynysu cymdeithasol yn y tymor hir.

## Cymunedau Diogel a Chydlynol

Er mwyn gwella llesiant ein trigolion a chyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol, mae'n bwysig bod ein cymunedau yn ddiogel a chydlynol i'r holl drigolion.

Canfu Arolwg Cenedlaethol Cymru yn 2014/15 fod 73% o drigolion y Fro yn cytuno fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda, llai na chyfartaledd Cymru o 79.6%, gyda dim ond Sir y Fflint a Thorfaen gyda chanran is o drigolion yn cytuno â'r datganiad.

Dengys data ar lefel genedlaethol bod y rhai mewn ardaloedd mwy difreintiedig yn llai tebygol o gytuno, gyda 68% yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cytuno â'r datganiad hwn o'i gymharu ag 87% yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig.

Canfu'r arolwg hefyd fod 82% o drigolion y Fro yn cytuno bod pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch ac ystyriaeth; mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 80%.

Mae Adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 'Healing a Divided Britain'[18] yn amlygu'r ffaith bod pobl o gefndir lleiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o brofi gwahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin ym Mhrydain nag yw pobl Wyn. Yn yr Alban, roeddent bedair gwaith yn fwy tebygol ac yng Nghymru bron i dair gwaith yn fwy tebygol.

Canfu'r adroddiad fod "pobl o leiafrifoedd ethnig yng Nghymru bron i dair gwaith yn fwy tebygol na phobl Wyn o adrodd am wahaniaethu, aflonyddu neu gam-drin (19.5% o'i gymharu â 6.8%). Mae'r rhai sydd â chrefydd lleiafrifol yn fwy tebygol o adrodd am hyn o'u cymharu â'r rhai heb grefydd (20.8% o'i gymharu ag 8.2%).

Fodd bynnag, mae'n ddiddorol nodi nad oedd canfyddiadau cyfun Arolwg Cenedlaethol Cymru o 2012 i 2015 yn dangos unrhyw wahaniaethau arwyddocaol mewn teimlad o ran p'un a yw pobl yn yr ardal leol yn trin ei gilydd gyda pharch, rhwng pobl Wyn Brydeinig neu ethnigrwydd Gwyddelig a phob grŵp ethnig arall.

Byddai'n ddiddorol gweld sut y gall atebion i'r cwestiwn hwn newid yn dilyn canlyniadau'r refferendwm UE petai data yn dod ar gael.

### Cymuned Lluoedd Arfog

Mae cymuned Lluoedd Arfog sylweddol ym Mro Morgannwg, gyda data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 1,143 o aelodau'r Lluoedd Arfog yn y Fro. Mae hyn yn 16.6% o gyfanswm poblogaeth Lluoedd Arfog Cymru (6,875) a gellir ei briodoli i'r orsaf Weinyddiaeth Amddiffyn yn Sain Tathan yng Ngorllewin y Fro. O'r gymuned Lluoedd Arfog, mae 630 yn byw mewn

[18] https://www.equalityhumanrights.com/sites/default/files/healing_a_divided_britain_welsh_final.pdf

sefydliadau cymunedol a reolir (lle mae goruchwyliaeth amser llawn neu ran amser yn bresennol) a 513 yn byw mewn cartrefi.

Noda’r Lleng Brydeinig Frenhinol y gall aelodau'r gymuned Lluoedd Arfog, fel y boblogaeth gyffredinol, fod angen cefnogaeth mewn meysydd allweddol megis tai, mynediad i ofal iechyd, cyflogaeth ac addysg. Fodd bynnag, efallai y bydd y gymuned Lluoedd Arfog wedi profi amgylchiadau unigryw a all arwain at iddynt fod dan anfantais wrth geisio cael mynediad at gymorth. Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi llofnodi’r Cyfamod Lluoedd Arfog a fwriadwyd i sicrhau yr osgoir anfantais o'r fath ac mae'n hanfodol bod y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn ystyried y gymuned y Lluoedd Arfog wrth gynllunio darparu gwasanaeth.

Yn ogystal â nifer uchel o aelodau o gymuned y Lluoedd Arfog sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd o’i gymharu â rhannau eraill o Gymru, mae nifer uwch na'r cyfartaledd o gyn-filwyr ym Mro Morgannwg.

Yn ogystal, canfu’r Asesiad Anghenion Poblogaeth, sy’n ofynnol yn ôl y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, bod tua 11.96 o gyn-filwyr am bob 1000 o drigolion ym Mro Morgannwg, sy’n uwch na chyfartaledd Cymru o 6.24.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Genedlaethol a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi amcangyfrif drwy'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol fod 149,000 o gyn-filwyr (heb gynnwys dibynyddion) yn byw yng Nghymru yn 2015. Er nad yw'n bosibl cael dadansoddiad cyflawn o gyfanswm y boblogaeth o’r setiau data a gyhoeddir ar hyn o bryd, mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn yn cyhoeddi data blynyddol ar leoliad yr aelodau hynny o'r gymuned sy’n derbyn pensiwn y Lluoedd Arfog neu daliadau Cynllun Iawndal. Dangosodd data ym mis Ebrill 2016 mai ym Mro Morgannwg yr oedd y nifer uchaf o dderbynwyr Cynllun Pensiwn y Lluoedd Arfog a derbynwyr Cynllun Iawndal y Lluoedd Arfog o bob ardal Awdurdod Lleol yng Nghymru.

Gall y gymuned cyn-filwyr fod ag amrywiaeth o anghenion penodol, gyda'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn tynnu sylw at y canlynol:

- Mae tua hanner y boblogaeth o gyn-filwyr dros 75 (46%)
- Mae bron i ddwy ran o dair dros 65 (64%) oed
- Mae’r rhai 65+ oed yn llai tebygol na'r boblogaeth gyffredinol o gael salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau (41% o'i gymharu â 50%)
- Mae cyn-filwyr o oedran gweithio (16-64) yn fwy tebygol o adrodd am salwch tymor hir sy'n cyfyngu ar eu gweithgareddau (24% o'i gymharu â 13%)
- Adroddir am lefelau uwch o gyfrifoldeb gofalu ymhlith y gymuned o gyn-filwyr o oedran gweithio o’i gymharu â'r boblogaeth yn gyffredinol (23% o'i gymharu â 12%)
- Mae aelodau oedran gweithio o'r gymuned o gyn-filwyr yn llai tebygol o gael eu cyflogi na'r boblogaeth gyffredinol (60% o'i gymharu â 72%), yn fwy tebygol o fod yn

ddi-waith (8% o'i gymharu â 5%) ac yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar (32% o'i gymharu â 22%)

Cesglir manylion am unrhyw gysylltiad â chymuned y Lluoedd Arfog fel mater o drefn gan Ganolfan Gyswllt y Cyngor ar gyfer pob galwr. Dengys y data diweddaraf trwy gyfrwng Canolfan Gyswllt y Cyngor mai Therapi Galwedigaethol yw'r gwasanaeth cysylltiedig â llesiant mwyaf poblogaidd a ddefnyddir gan y Gymuned Lluoedd Arfog ym Mro Morgannwg.

Mae cofnodi cyswllt galwr â chymuned y Lluoedd Arfog yn caniatáu i Gyngor Bro Morgannwg adeiladu darlun cynhwysfawr o lle mae'r gymuned wedi ei lleoli, ac i gasglu gwybodaeth gyswllt benodol. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i gynnal ymarfer ymgynghori yn 2017 a gynlluniwyd i ganfod anghenion penodol y gymuned fel y gellir nodi cyfleoedd i ddiwallu'r anghenion hyn ar y cyd â phartneriaid yn y sector iechyd, milwrol a trydydd sector.

Hefyd mae'r Cyngor yn lansio cylchlythyr e-bost i gymuned y Lluoedd Arfog i'w helpu i gadw mewn cysylltiad â gwasanaethau newydd a phresennol. Ar hyn o bryd mae gan y gwasanaeth tua 700 o danysgrifwyr.

**Mudo**


Ym Mro Morgannwg roedd nifer y trigolion a aned y tu allan i'r DU yn 5,000 yn 2004, cynyddodd hyn i 7,000 yn 2010, ond roedd wedi gostwng eto i 6,000 yn 2014. Yn ôl y disgwyl, mae mwyafrif y trigolion na chawsant eu geni yn y DU yng Nghymru i'w canfod yn y dinasoedd - Caerdydd, Abertawe, Casnewydd a Wrecsam, wedi'i ddilyn gan ardaloedd cyfagos iddynt megis Bro Morgannwg a Sir y Fflint.

Wrth ystyried y ganran o boblogaeth fudol mewn awdurdod a gyrhaeddodd ar ôl 2004, mae gan y Fro un o'r canrannau isaf yng Nghymru, sy'n awgrymu bod y mewnfudwyr sy'n byw yn y Fro yn tueddu i fod yn rhai a fu yn yr ardal yn hwy nag mewn rhannau eraill o Gymru. Gall hyn esbonio'r tueddiadau a welwyd, sy'n dangos bod gan Fro Morgannwg y ganran uchaf o drigolion a aned tu allan i'r DU sy'n berchen ar eu tŷ eu hunain, o'i gymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru.

Ni wyddys eto beth yw effaith canlyniad refferendwm yr UE ar faterion o'r fath, er y dengys data bod digwyddiadau troseddau casineb wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r gyfradd trosi rhwng y digwyddiadau a'r rhai sy'n cael eu dosbarthu fel troseddau hefyd wedi cynyddu.

## Diogelwch Cymunedol

Drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu, dywedodd llawer o bobl bod y gyfradd droseddu isel yn un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am fyw yn y Fro. Cefnogir hyn gan ddata sy'n dangos bod cyfradd gyffredinol troseddau yn y Fro wedi bod yn gyson is na chyfartaledd Cymru.





| | The Vale of Glamorgan | Wales |
|---|---|---|
| FY 2010-11 | 56.11 | 66.79 |
| FY 2011-12 | 50.87 | 62.49 |
| FY 2012-13 | 50.34 | 57.35 |
| FY 2013-14 | 49.03 | 56.18 |
| FY 2014-15 | 51.16 | 58.95 |

Source: Office for National Statistics (ONS)

Fodd bynnag, fel y gwelwyd trwy gydol ein hasesiad, ceir anghydraddoldebau amlwg ym Mro Morgannwg mewn perthynas â diogelwch cymunedol. Mae parth diogelwch cymunedol MALlC 2014 yn ystyried ystod o ddangosyddion sylfaenol gan gynnwys digwyddiadau o nifer o wahanol fathau o droseddau. Dengys y map canlynol bod yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o ran diogelwch cymunedol wedi eu lleoli unwaith eto yn bennaf yn ardal y Barri.

**Diogelwch cymunedol 2014**





Ffynhonnell: Dadansoddiad Trechu Tlodi Bro Morgannwg UDALl. Data MALlC 2014

Yn ACEHI Castleland 2G yn ardal y Barri y gwelwyd y cyfraddau uchaf o droseddau yn y Fro ar draws nifer o ddangosyddion, gan gynnwys cyfraddau troseddau treisgar a difrod troseddol yn ogystal ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Roedd yr ACEHI hwn yn y 29ain safle o'r ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru o ran Parth Diogelwch Cymunedol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014. Mae'r ardal hon yn cynnwys Heol Holton ac yma ceir llawer o siopau, caffis, canolfan hamdden y Barri, Swyddfeydd Dinesig y Cyngor ac ardaloedd o dir agored. Mae hefyd groniad o deledu cylch cyfyng yn yr ardal hon.

Er y ceir crynodiad o gyfraddau troseddu uwch o amgylch ardal y Barri, gellir gweld gwahaniaethau ar draws Bro Morgannwg wrth ystyried y mathau o droseddau. Er enghraifft, er bod cyfraddau troseddau treisgar ar eu huchaf mewn ardaloedd yn y Barri, daw patrwm gwahanol i'r amlwg wrth ystyried y gyfradd o fyrgleriaethau, fel y dangosir isod. Dengys hwn y gall yr ardaloedd llai difreintiedig y Fro, er eu bod â chyfraddau trosedd isel, ddioddef mwy o fyrgleriaethau gan eu bod yn cael targedu oherwydd eu cyfoeth canfyddedig. Gall dod yn ddioddefwr trosedd gael effaith negyddol enfawr ar lesiant unigolyn, nid yn unig mewn ystyr economaidd lle mae eiddo gwerthfawr gael ei ddwyn, ond yn fwy felly ar lesiant meddyliol. Gellir awgrymu hefyd, er gwaethaf y cyfraddau troseddu isel, pan fydd hyd yn oed nifer fach o droseddau yn digwydd mewn ardaloedd llai difreintiedig, gall yr effeithiau ar lesiant meddyliol unigolyn fod hyd yn oed yn waeth nag i'r bobl sy'n byw mewn ardaloedd lle mae trosedd yn ddigwyddiad mwy cyffredin.

Er gwaethaf cyfradd uwch o fyrgleriaeth a mathau tebyg o droseddau yn ardaloedd llai difreintiedig y Fro o'i gymharu â throseddau megis troseddau treisgar neu ddifrod troseddol, dengys y map hefyd bod rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig y Barri yn dal i ddioddef cyfradd uchel o droseddau byrgleriaeth o'i gymharu â rhannau eraill o'r Fro. Gallai effeithiau’r math hwn o drosedd ar bobl mewn ardaloedd difreintiedig fod hyd yn oed yn fwy niweidiol oherwydd gellir awgrymu bod dioddefwyr yn llai tebygol o fod â pholisïau yswiriant yn eu lle, neu’r cymorth a'r cyllid sydd eu hangen i ailadeiladu.

**Cyfradd y byrgleriaethau a gofnodwyd am bob 100 o anheddau a chyfeiriadau busnes ym Mro Morgannwg (2012-2014)**




Ffynhonnell: MALlC 2014


Er bod gan Fro Morgannwg gyfraddau troseddu cymharol isel, mae'r gyfradd o drais yn erbyn y person wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, er bod tuedd debyg i’w weld hefyd mewn ardaloedd eraill o Gymru. Gwelwyd cynnydd mawr yn enwedig mewn ardaloedd o’r Barri fel Dyfan (cynnydd o 72% yn 2014/15 o’i gymharu â 2013/14). Yn ogystal, cafwyd cynnydd mewn troseddau meddiant o arfau yn yr ardal hon a rhai rhannau eraill o'r Barri, er bod y niferoedd cyffredinol yn aros yn fach iawn.

Drwy ein harolwg Amser Siarad gofynnwyd i drigolion ystyried ystod o faterion a p’un a oeddent yn broblem yn eu hardal, ac a oeddent yn teimlo yn ddiogel ym Mro Morgannwg mewn nifer o wahanol sefyllfaoedd. Yn gyffredinol, teimlai pobl yn ddiogel mewn nifer o senarios er, fel y gellid disgwyl, roedd pobl yn teimlo'n llai diogel ar ôl iddi dywyllu. Y sefyllfa lle dywedodd y rhan fwyaf o bobl eu bod yn teimlo'n anniogel iawn oedd wrth feicio yng ngolau dydd a hyd yn oed yn fwy felly ar ôl iddi dywyllu. Mae manteision iechyd ac amgylcheddol hyrwyddo teithio byw yn glir, ac felly mae’n faes lle gellid gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn hyderus i ddefnyddio beicio fel ffordd o deithio. Gofynnodd Uwch

Arolwg Ysgolion 2016 a gynhaliwyd drwy'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc nifer o gwestiynau tebyg mewn perthynas â diogelwch cymunedol. Roedd 94% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 93% o ddisgyblion ysgolion uwchradd yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn yn ystod y dydd. Fodd bynnag, gyda’r nos, 82% o ddisgyblion ysgolion cynradd a 76% o ddisgyblion ysgolion uwchradd a adroddodd eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n ddiogel iawn.

Yn aml gall canfyddiad o drosedd fod yn wahanol i realiti er y gall lefel uchel ganfyddedig o drosedd, p'un a yw’n wir neu beidio, effeithio'n sylweddol ar lesiant unigolyn. Gofynnodd Arolwg Canfyddiadau a Bodlonrwydd Cymunedol Heddlu De Cymru amrywiaeth o gwestiynau i gasglu gwybodaeth am ganfyddiad y cyhoedd a'r profiad o drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, barn am yr heddlu lleol, ymwybyddiaeth ac ymgysylltu. Dangosodd canlyniadau'r arolwg 2013/14 fod cyfran uchel o ymatebwyr yn St. Augustine ym Mhenarth yn dweud bod mwy Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn eu hardal leol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn gwirionedd dangosodd ffigyrau’r heddlu bod YGG wedi gostwng oddeutu traean y flwyddyn galendr honno o’i gymharu â’r flwyddyn galendr ddiwethaf.
Mae Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn faes lle ceir crynodiad clir o ddigwyddiadau uwch yn ardal y Barri fel y dangosir isod.

**Cyfradd o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd fesul 100 o'r boblogaeth breswyl ym Mro Morgannwg (2012-2014)**




Ffynhonnell: MALlC 2014

Cafodd hyn ei adlewyrchu yn ystod ein hymgyrch ymgysylltu â thrigolion y Barri yn dweud fod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem lle'r oeddent yn byw. Ni wnaeth y rhai a fynychodd y digwyddiadau yn Nwyrain a Gorllewin y Fro godi hyn yn gyffredinol, ac eithrio nifer fach o bobl hŷn. Gofynnodd ein harolwg hefyd i drigolion ystyried p’un a oedd amrywiaeth o broblemau gan gynnwys graffiti, pobl yn defnyddio cyffuriau, cymdogion

swnllyd, pobl yn feddw yn gyhoeddus, galwyr stepen drws a sbwriel/ tipio anghyfreithlon yn broblem lle roeddynt yn byw. Er ei fod yn dal yn niferoedd bach, sbwriel/tipio anghyfreithlon oedd y mater a ddywedodd y rhan fwyaf o bobl oedd yn broblem ddifrifol, gyda llawer yn dweud nad oedd y materion eraill a restrwyd yn broblem, neu mai anaml iawn yr oeddynt yn digwydd.

Fel y trafodwyd yn gynharach yn yr asesiad hwn, mae profiadau niweidiol plentyndod yn brofiadau ingol sy'n digwydd yn ystod plentyndod ac sy'n brifo'r plentyn yn uniongyrchol (e.e. camdriniaeth) neu effeithio arnynt drwy'r amgylchedd lle maent yn byw (e.e. tyfu i fyny mewn tŷ gyda thrais domestig). Mae bod yn agored i drais domestig neu ddioddef trais domestig yn gallu cael effaith ddifrifol ar gyfleoedd bywyd plentyn yn y dyfodol, ac ystyrir hwn yn Brofiad Niweidiol Mewn Plentyndod (ACE).

Noda Astudiaeth Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod (ACE) Iechyd Cyhoeddus Cymru[19];

> "Gall ACE barhau i niweidio iechyd plant trwy gydol eu bywyd. Mae tystiolaeth ddiweddar yn dangos bod straen trawmatig yn gynnar mewn bywyd yn newid y ffordd y mae ymennydd plentyn yn datblygu a gall newid datblygiad system nerfol, hormonaidd ac imiwnolegol yn sylweddol. Gall hyn arwain at unigolion y mae eu systemau wedi eu 'cloi' ar gyflwr uwch o effrogarwch; yn barod am drawma pellach yn barhaus. Mae newidiadau seicolegol o'r fath yn cynyddu traul (llwyth alostatig) ar eu corff; gan gynyddu'r perygl o salwch cyn pryd fel canser, clefyd y galon a salwch meddwl.
>
> Yn ystod blynyddoedd ysgol, gall yr un unigolion arddangos cyflwr emosiynol uwch o orbryder (yn barod i ymladd neu bob amser yn barod i redeg i ffwrdd) ac o ganlyniad bod eu sylw wedi ei dynnu o weithgareddau addysgol, gan arwain at gyrhaeddiad addysgol gwael. Mae plant sy'n cael eu magu mewn amgylcheddau lle mae trais, ymosodiadau a cham-drin yn gyffredin yn fwy tebygol o ddatblygu nodweddion o'r fath eu hunain gan fod yr ymddygiad hwn yn cael ei ystyried yn normal (h.y. wedi ei normaleiddio); sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o gyflawni troseddau treisgar a/neu ddioddef gweithredoedd o'r fath pan yn oedolion. Yn ogystal, gall y problemau seicolegol sy'n gysylltiedig â chyswllt ag ACE adael unigolion â hunanwerth isel a thuedd o ymddygiad sy'n rhoi rhyddhad tymor byr ar draul iechyd tymor hwy. Mae'r cyfuniad hwn yn golygu bod unigolion sydd wedi eu heffeithio yn agored i fabwysiadu ymddygiad niweidiol fel smygu, yfed lefelau peryglus o alcohol, diet gwael a hyd yn oed gweithgaredd rhywiol cynnar.

[19] http://www2.nphs.wales.nhs.uk:8080/PRIDDocs.nsf/7c21215d6d0c613e80256f490030c05a/d488a3852491bc1d80257f370038919e/$FILE/ACE%20Report%20FINAL%20(E).pdf

> Mae'r cysylltiadau cryf rhwng cyswllt ag ACE a bod yn agored i niwed yn cynnwys defnyddio sylweddau, beichiogi nas bwriadwyd yn yr arddegau, salwch meddwl a phroblemau iechyd corfforol, yn golygu bod plant y rhai sydd wedi eu heffeithio gan ACE mewn perygl cynyddol o gyflwyno eu plant eu hunain i ACE. Cyfeirir at hyn yn aml fel y 'cylch trais'. O ganlyniad, gall atal ACE mewn un genhedlaeth neu leihau eu heffaith ar blant fod o fudd nid yn unig i'r unigolion hynny ond hefyd i genedlaethau'r dyfodol ledled Cymru."

Mae data yn dangos bod achosion o gam-drin domestig wedi aros yn weddol gyson ym Mro Morgannwg yn y blynyddoedd diwethaf gyda'r un duedd o ran troseddau ailadroddus. Gall mesurau achosion o drais domestig fod yn anodd eu dehongli. Mae'n bwysig cofio, er y byddai Bro Ddiogelach, ein Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, yn hoffi gweld cynnydd mewn hyder dioddefwyr i ddod ymlaen ac adrodd am ddigwyddiadau, y nod yn y pen draw yw lleihau trais domestig. Mae pennod benodol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn yr Asesiad Anghenion Poblogaeth. Mae hyn yn cynnwys data perthnasol a chanlyniadau ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau. Mae'r AAP yn amlygu'r angen am addysg a gwybodaeth i helpu i godi ymwybyddiaeth a gwella cefnogaeth. Bydd y BGC yn gweithio gydag PIGCI a Bro Ddiogelach i ystyried camau gweithredu perthnasol ar gyfer Cynllun Llesiant y BGC.

Mae canran y plant mewn angen lle mae cam-drin domestig yn ffactor rhianta yn cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant eraill mewn angen (gan gynnwys plant heb eu geni) nad ydynt o bosibl yn derbyn gofal neu ar y gofrestr amddiffyn plant, ond lle mae cam-drin domestig yn ffactor sy'n cyfrannu at i'r plentyn fod mewn angen.

Dangosodd Cyfrifiad Plant mewn Angen Llywodraeth Cymru fod gan Fro Morgannwg y ganran uchaf o blant mewn angen lle mae cam-drin domestig yn ffactor rhianta yng Nghymru (51%) ym Mawrth 2015. Byddai angen ymchwil pellach i ddeall y rhesymau dros y ffigwr hwn.

Ar lefel genedlaethol dros y pum mlynedd ddiwethaf, bu gostyngiad cyffredinol yn nifer y digwyddiadau tân yng Nghymru. Fodd bynnag, cynyddodd y cyfanswm o farwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o bob tân o 57 i 85. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd sydyn yn erbyn yr hyn oedd wedi bod yn ostyngiad cyson. Mae cyfanswm y marwolaethau a'r anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol wedi cynyddu o 47 i 77.

Ceir pedair gorsaf dân ym Mro Morgannwg - Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen - gyda chriwiau o orsaf y Barri yn mynychu'r nifer uchaf o ddigwyddiadau. Ym Mro Morgannwg cafwyd cynnydd bychan iawn yn y cyfanswm o danau rhwng blynyddoedd ariannol 2014/15 i 2015/16, gyda chynnydd yn y nifer o danau damweiniol. Dros yr un cyfnod, gostyngodd nifer y galwadau ffug maleisus ym Mro Morgannwg o 35 i 12. Dengys ystadegau lefel ward mai yn ward Cadoc yn y Barri y cafwyd y nifer uchaf o farwolaethau ac

anafiadau o ganlyniad i dân yn ystod y flwyddyn ariannol 2015/16, er bod y niferoedd yn fach iawn (5).

## Tai


Er mwyn ystyried ymhellach p’un a yw cymunedau Bro Morgannwg yn ddiogel a chynhwysol, ystyriwyd amrywiaeth o dystiolaeth mewn perthynas â thai. Tai yw sylfaen cymunedau - maent yn gyrru'r galw am wasanaethau, siopau a chyfleusterau lleol. Gall cartref o ansawdd da, fforddiadwy ac addas fod yn gatalydd angenrheidiol i aelwyd ffynnu. Gall ansefydlogrwydd mewn llety fod yn rhwystr i sicrhau gwaith neu hyfforddiant, gwneud cael mynediad i wasanaethau allweddol megis iechyd neu ofal cymdeithasol yn fwy anodd, amharu ar addysg, ac effeithio’n negyddol ar iechyd corfforol a meddyliol.

Ystyriwyd ystod o ddata a thystiolaeth mewn perthynas â thai ym Mro Morgannwg, gyda nifer o ganfyddiadau allweddol yn dod i'r amlwg.

Amcangyfrifir bod gan y Fro tua 53,505 o anheddau. Mae'r rhan fwyaf o aelwydydd, 72.5%, yn berchen ar eu cartref eu hunain, 11.9% yn rhentu oddi wrth landlord cymdeithasol a 15.7% gan landlord preifat. Mae canran yr aelwydydd sy'n berchen ar eu cartrefi eu hunain yn y Fro (gyda neu heb forgais) yn uwch na chyfartaledd Cymru, tra bod y ganran o deuluoedd sy'n byw yn y sectorau rhent preifat a rhent cymdeithasol yn is na chyfartaledd Cymru.

Mae pris tŷ ar gyfartaledd ym Mro Morgannwg ymhlith yr uchaf yng Nghymru. Fodd bynnag, ceir gwahaniaethau sylweddol rhwng ardaloedd yn y Fro, yn enwedig rhwng y Barri, Penarth a chymunedau gwledig yng Ngorllewin y Fro; er enghraifft, mae pris cyfartalog tŷ dwy ystafell wely yn Castleland yn y Barri yn £108,742 ar gyfartaledd o'i gymharu â thŷ dwy ystafell wely yn y Bont-faen sy'n costio £273,143 ar gyfartaledd. Nodwyd prisiau tai uchel yng Ngorllewin y Fro wledig, lle mae canran y tai sydd ar gael i'w rhentu hefyd yn is na rhannau mwy trefol y Fro, fel pryder yn ystod yr ymgyrch ymgysylltu oherwydd ni all prynwyr tro cyntaf ifanc fforddio byw yn y cymunedau lle y cawsant eu magu. Felly, roedd yn ddiddorol gweld yn ystod yr ymgyrch ymgysylltu bod yr ymdeimlad o gymuned a pherthyn yn fwy amlwg yn ardal y Barri, o’i gymharu â rhannau eraill o'r Fro.

**Pris cyfartalog tai yn ôl ardal**




Ffynhonnell: Asesiad Marchnad Dai Leol 2015

Yn aml mae rhaid i bobl sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig symud i ffwrdd i ddod o hyd i gartref teuluol. Gan fod rhaid iddynt deithio yn ôl i'r ardal i weithio, mae'r genhedlaeth nesaf o blant yn tyfu i fyny i ffwrdd oddi wrth eu gwreiddiau, diwylliant a threftadaeth. Effeithir ar gymunedau gan na allent bellach gadw pobl iau a theuluoedd ifanc. Gall ysgolion fod dan fygythiad o gau, gall gwasanaethau gael eu tynnu'n ôl, gall busnesau gau, ac efallai y bydd cyflogwyr yn cael anhawster dod o hyd i weithwyr tymor hir dibynadwy. Mae galluogi pobl i aros neu ddychwelyd i fyw lle maent wedi tyfu i fyny, lle mae ganddynt deulu a chysylltiadau, hefyd yn galluogi cymunedau i gefnogi ei gilydd trwy ddarparu gofal, cymorth a gofal plant i aelodau o'r teulu.

Fodd bynnag, mae rhwystrau i ddatblygu tai newydd yn y Fro wledig: diffyg cyllid, argaeledd tir ac addasrwydd tir. Yr hyn sy'n allweddol yw adeiladu dim ond digon o dai newydd i gwrdd ag angen lleol heb adeiladu dros safleoedd tir glas yn y Fro wledig ac effeithio ar yr amgylchedd naturiol sy'n ased mor fawr yn y Fro.

Mae gan y Cyngor Hwylusydd Tai Fforddiadwy sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Cymuned gwledig a thrigolion i godi ymwybyddiaeth o faterion tai a datblygiadau. Wrth ystyried ceisiadau ar gyfer cynlluniau perchentyaeth cost isel, rhoddir blaenoriaeth i'r rhai sydd â chysylltiad lleol â'r ardal. Er mwyn rhoi cyngor a chymorth, mae'r Cyngor hefyd yn gallu darparu cymorthfeydd cynghori ar arddull sioe deithiol, gyda phreswylwyr yn gallu gofyn am i'r rhain ymweld â'u hardal.

Amrywia statws daliadaeth yn ôl ardal gyda'r Barri â chanran is o berchnogion feddianwyr nag ardaloedd eraill a'r ganran fwyaf o aelwydydd rhent cymdeithasol. Mae Sain Tathan, sydd â gorsaf yr Awyrlu Brenhinol, gyda'r ganran uchaf o aelwydydd rhent preifat a'r ganran isaf o eiddo perchnogion feddianwyr.

Dangosodd Cyfrifiad 2011 am y tro cyntaf mewn 30 mlynedd bod y sector rhent preifat wedi tyfu'n fwy na'r sector rhent cymdeithasol ym Mro Morgannwg.

Ym Mro Morgannwg, y ganran o gartrefi gorlawn yw 3.86%, sy'n is na Chymru ar 5.53%. Fodd bynnag, ar draws Bro Morgannwg mae ystod eang rhwng yr ACEHI isaf (0.0% yn 'Illtyd 1') a'r uchaf (12.2% yn 'Gibbonsdown 2').

Dangosodd canfyddiadau'r Arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n "fodlon iawn" neu'n "weddol fodlon" ag ansawdd eu cartrefi.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr astudiaeth Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr, amcangyfrifir bod angen darpariaeth o 20 llain ychwanegol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ym Mro Morgannwg ar gyfer cyfnod y Cynllun Datblygu cyfan. Nid oes angen ychwanegol i Fro Morgannwg ystyried pobl Sioeau Teithiol.

Ym Mro Morgannwg, bu nifer yr aelwydydd yr effeithir arnynt gan y cymhorthdal ystafell sbâr yn gostwng yn raddol ers i'r diwygiadau gael eu cyflwyno gyntaf. Fodd bynnag, mae bwlch data yn bodoli o ran y rhesymau pam nad yw aelwydydd bellach yn cael eu heffeithio gan y cymhorthdal - boed hyn o ganlyniad i aelwydydd wedi symud i eiddo llai, oherwydd eu bod wedi'u troi allan, neu efallai eu bod wedi dod o hyd i gyflogaeth ac nad ydynt bellach yn hawlio budd-dal tai.

Mae cyfradd yr aelwydydd y penderfynwyd eu bod yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref, ac mewn angen blaenoriaeth wedi cynyddu ym Mro Morgannwg yn y blynyddoedd diwethaf yn hytrach na'r duedd genedlaethol o leihau. Fodd bynnag, mae gan Fro Morgannwg ganran uwch na'r cyfartaledd o achosion lle mae digartrefedd wedi cael ei atal oherwydd gweithredu cadarnhaol.

Wrth asesu'r farchnad dai yn ei chyfanrwydd, mae'r Asesiad o'r Farchnad Dai Leol 2015 yn cyfrifo'r angen net am dai fforddiadwy, gan gynnwys tai rhent cymdeithasol a thai canolradd, dros y pum mlynedd nesaf. Yr angen net blynyddol pennawd ar gyfer tai fforddiadwy ym Mro Morgannwg yw 559 uned y flwyddyn.

Mae Strategaeth Tai Gwag Cyngor Bro Morgannwg yn tynnu sylw at sut mae tai gwag yn cynrychioli adnodd a wastreffir a chyfle a gollwyd. Er gwaethaf yr angen sylweddol am dai, mae nifer sylweddol o dai gwag ar draws y sir y gellid eu dwyn yn ôl i ddefnydd ac a fyddai'n darparu cartref i unigolyn neu deulu mewn angen. Gall effeithiau cartrefi gwag amrywio'n fawr, o effaith ar wasanaethau'r Cyngor megis Iechyd yr Amgylchedd; yr effaith economaidd ar berchennog yr eiddo oherwydd gall gadael yr eiddo yn wag gostio mwy; yr effaith ar

gymdogion gan y gall tai gwag ddod yn hyll ac achosi problemau strwythurol i eiddo cyfagos; yr effaith ar gymunedau wrth iddynt ddenu trosedd, fandaliaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan effeithio ymhellach ar wasanaethau diogelwch cymunedol ac effeithiau lles amgylcheddol. Gallai'r galw am dai arwain at yr angen i ddatblygu safleoedd tir glas gan achosi colled i fioamrywiaeth a diraddio cynefinoedd pan fyddai'n llawer mwy effeithlon a chynaliadwy gwneud y defnydd gorau o'r cartrefi sydd gennym eisoes.

Ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2015/16 roedd 79 eiddo gwag yn y Fro. Mae ystod o wasanaethau a chymorth ar waith i ddod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd ar draws Bro Morgannwg, gan gynnwys cymorth ariannol.

O ran effaith amgylcheddol tai, mae eiddo yn ffynhonnell sylweddol o allyriadau $CO_2$ ond mae llawer o elfennau eraill o dai yn cael effaith ar yr amgylchedd, gan gynnwys y deunyddiau a ddefnyddir i adeiladu'r cartrefi, a'r drafnidiaeth gysylltiedig.

Datblygir stoc tai newydd i safonau effeithlonrwydd ynni penodol; mae angen i dai marchnad fodloni Rheoliadau Adeiladu a lefel 3 y Cod ar gyfer Cartrefi Cynaliadwy. Disgwylir i dai fforddiadwy newydd gael eu hadeiladu i Safon Ansawdd Tai Cymru fel isafswm, a chynnwys mesurau ar gyfer rheoli lleihau’r defnydd o ynni trwy adeiladu a meddiannaeth.

Mae’r stoc dai hŷn bresennol yn fwy tebygol o fod ag effeithlonrwydd ynni gwael; ym Mro Morgannwg ystyrir bod 12.3% o’r stoc dai bresennol yn anaddas neu mewn cyflwr gwael, sy’n cyfrannu'n sylweddol at effeithlonrwydd ynni gwael. Mae gan 19% o eiddo ym Mro Morgannwg sgôr ynni 'gwael' (SAP o dan Fand 39 F&G) a 57% o eiddo anaddas â pherygl categori 1 am fod yn rhy oer. Ceir oerni gormodol yn bennaf mewn tai hŷn sy’n fwy anodd eu gwresogi. Gall effeithlonrwydd ynni gwael ac oerni gormodol hefyd gyfrannu at dlodi tanwydd. Dywedir bod cartref yng Nghymru mewn tlodi tanwydd os yw’n gwario 10% neu fwy o'i incwm ar gostau ynni. Mae pobl sy'n ei chael yn anodd cadw eu cartrefi'n gynnes fel arfer ar incwm isel ac yn aml maent y bobl sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Ym Mro Morgannwg, amcangyfrifir bod ychydig dros 1 o bob 5 yn byw mewn tlodi tanwydd.

Mae corff cynyddol o dystiolaeth i ddangos bod cysylltiad agos rhwng cartrefi oer, tlodi tanwydd, ac iechyd gwael. Mae hyn yn cynnwys effeithiau ar iechyd corfforol a meddyliol, a chyfraddau salwch a marwolaeth, mewn pobl iau a hŷn. Mae’r Asesiad Anghenion Poblogaeth yn cydnabod drwy gymryd camau ar dlodi tanwydd a chartrefi oer, y gellir lleihau’r baich ar y system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â helpu i ymdrin ag achosion ac effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Bu buddsoddiad sylweddol i wella effeithlonrwydd ynni'r stoc dai preifat yn y Fro. Ceir manylion am y dulliau a gymerwyd gan y Cyngor i wella effeithlonrwydd ynni’r stoc dai yn y Polisi Adnewyddu Sector Preifat 2014 ac maent yn cynnwys:

- Adnewyddu ardal
- Grantiau Effeithlonrwydd Ynni a Diogelwch yn y Cartref
- Cymorth effeithlonrwydd ynni, gan gynnwys hwyluso cyflwyno'r Fargen Werdd, y cynllun Iechyd Trwy Gynhesrwydd, cyllid Targed Lleihau Allyriadau Carbon, ARBED a NEST

## 5.3 Crynodeb

Dangosodd canfyddiadau ein hymgyrch ymgysylltu bod pobl yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am fywyd yn y Fro ac yn teimlo bod ganddynt rwydweithiau cryf o ffrindiau a chymdogion i ddibynnu arnynt. Yn gyffredinol mae pobl yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned er bod y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, y gellir awgrymu bod angen i ni ymgysylltu mwy â hwy, yn llai tebygol o gymryd rhan, gyda lefelau is o wirfoddoli a graddfa is o bobl sy’n pleidleisio. Roedd pobl yn y Fro hefyd yn llai tebygol o gytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Mae digwyddiadau trosedd casineb wedi cynyddu’n gyson, ac nid yw effaith bellach ar gydlyniant cymunedol o ddigwyddiadau fel canlyniad refferendwm yr UE yn hysbys eto.

Erbyn hyn, nid yw cymunedau yn bodoli mewn ystyr ddaearyddol yn unig, ond yn ddigidol hefyd, ac mae angen i ni ystyried ffyrdd newydd o gyrraedd y cymunedau hyn er mwyn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phob sector o'n cymdeithas i gynyddu ein sylfaen dystiolaeth. Bydd dulliau arloesol newydd hefyd yn helpu i osgoi blinder ymgynghori.

Gwelir cyfraddau troseddu isel fel agwedd gadarnhaol ar fywyd yn y Fro, er y gellir gweld gwahaniaethau rhwng ardaloedd gyda chyfraddau troseddu uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Er bod llawer o ardaloedd y Fro yn profi cyfraddau troseddu isel, pan geir digwyddiadau troseddol, ni ellir diystyru effeithiau digwyddiadau o’r fath ar lesiant dioddefwyr y fath ddigwyddiadau.

Roedd aelodau'r BGC yn pryderu ynghylch fforddiadwyedd tai a'r angen i sicrhau nad yw pobl leol, yn enwedig pobl ifanc, yn cael eu prisio allan o'r cymunedau y maent wedi eu magu ynddynt. Maent yn cydnabod potensial tai anfoddhaol/gorlawn ar ystod o ffactorau fel iechyd a chyrhaeddiad addysgol.

Nododd y BGC mai’r cwestiwn allweddol i fyfyrio arno yw sut fydd y cymunedau yn edrych yn y dyfodol, a sut rydym yn gweithredu yn awr er mwyn sicrhau eu bod yn wydn?

Mae’r wybodaeth o fewn yr adran hon o’r asesiad yn ymwneud â’n sefyllfa mewn perthynas â chyflawni’r nodau llesiant cenedlaethol canlynol: Cymru Ffyniannus, Cymru Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynol, Cymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae’r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, Cymru Iachach, a Chymru sy’n Gyfrifol yn Fyd Eang.

## 5.4 Lle mae angen i ni gynyddu ein sail dystiolaeth?

Mae'n rhaid i'r asesiad llesiant gael ei weld fel proses barhaus o ddeall ein cymunedau yn well, er mwyn gwella llesiant ein trigolion a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y BGC yn ystyried sut y gellir sicrhau y cedwir ein sylfaen dystiolaeth yn 'fyw' a dod yn adnodd deinamig i bawb.

Byddwn hefyd yn parhau i wella'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon o'r asesiad a chydnabyddir bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r canlynol, naill ai oherwydd nad oes data cadarn ar gael ar hyn o bryd neu oherwydd bod dadansoddiad yn parhau.

- Data mewn perthynas â digwyddiadau o droseddau casineb a theimlad o fewn y gymuned ers canlyniadau refferendwm yr UE
- Tystiolaeth mewn perthynas â phobl ifanc a allai fod yn dioddef o arwahanrwydd cymdeithasol
- Er mwyn ymgysylltu â phob rhan o'n cymuned cydnabyddir bod 'cymunedau digidol' newydd yn bodoli yn awr, y dylem gysylltu â hwy er mwyn cyrraedd y rhai nad ydynt yn ymgysylltu'n draddodiadol
- Data mewn perthynas â chanlyniadau ar gyfer y rhai nad ydynt bellach yn cael eu heffeithio gan y cymhorthdal ystafell sbâr - p'un a yw hyn yn cael ei briodoli i sicrhau cyflogaeth ac nad ydynt bellach yn derbyn Budd-dal Tai, oherwydd lleihau maint yr eiddo neu o ganlyniad i gael eu troi allan.
- Byddai dadansoddiad manwl o batrymau cymudo - sy'n cael eu harchwilio yn adran nesaf yr asesiad hwn - yn helpu i nodi ardaloedd lle efallai bod cyfran uchel o'r gymuned yn cymudo i fannau eraill yn ystod y dydd, gan adael 'trefi anghyfannedd' ac ardaloedd lle mae ymdeimlad isel o fod yn perthyn i gymuned.
- Data a thystiolaeth mewn perthynas â throseddau ieuenctid a chyfraddau aildroseddu ym Mro Morgannwg.
- Rhagor o dystiolaeth mewn perthynas â thrais domestig.

# 6. Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad

Mae'r adran hon o'r asesiad yn canolbwyntio ar addysg, cyflogaeth, busnes, diwylliant a thwristiaeth. Trwy sicrhau bod trigolion Bro Morgannwg yn gallu mwyhau'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt, bydd BGC y Fro yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol canlynol: Cymru Ffyniannus, Cymru Fwy Cyfartal, Cymru o Gymunedau Cydlynol, Cymru o Ddiwylliant Bywiog lle mae'r Iaith Gymraeg yn Ffynnu, Cymru Iachach, a Chymru Gydnerth.

Gall tystiolaeth o fewn yr adran hon hefyd gael ei hystyried mewn perthynas â chanfyddiadau eraill yn yr asesiad hwn, a gwelir cysylltiadau rhwng ystod o agweddau eraill o lesiant da. Er enghraifft, effaith twristiaeth a'r amgylchedd naturiol ar gynyddu llesiant economaidd yr ardal, trafnidiaeth dda a seilwaith TG o ran aros yn rhan o gymuned ac osgoi ynysu cymdeithasol, ac addysg o ansawdd dda yn y blynyddoedd cynnar ar lesiant meddyliol a chorfforol yn y dyfodol.

Efallai mai'r ffordd orau o ddangos y cysylltiadau rhwng y gwahanol adrannau o'r asesiad hwn yw drwy fodel Dahlgren a Whitehead y cyfeiriwyd ato'n gynharach yn yr asesiad hwn sy'n amlygu perthynas achosol rhwng ffactorau unigol ffordd o fyw, rhwydweithiau cymdeithasol, amodau gwaith a byw, a ffactorau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol, yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol.

## 6.1 Penawdau

### Beth a ddywedodd y data wrthym?

- Mae'r Asesiad Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 4-5 oed yn cynnwys pedwar Maes Dysgu - Datblygiad Personol a Chymdeithasol; Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; a Datblygiad Corfforol. Yn 2015/16 roedd canran y plant ym Mro Morgannwg a gyrhaeddodd y canlyniad disgwyliedig neu'n uwch ar draws yr holl feysydd datblygiad cyfunol yn 91.2%. Hwn oedd yr uchaf ar draws Consortiwm Addysg Canolbarth y De ac roedd yr 2il uchaf yng Nghymru y tu ôl i Sir Fynwy (91.7%).

- Roedd canran y plant mewn angen a gyrhaeddodd y canlyniad disgwyliedig ar yr asesiad cyfnod sylfaen hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

- Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16, llwyddodd 67.1% o ddisgyblion 15 oed yn y Fro i gyrraedd trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. Cyfartaledd Cymru oedd 60.3%. Er bod y Fro yn llawer uwch na'r cyfartaledd, mae'n bwysig ystyried y dylem fod yn anelu at fod ar lefel gyfatebol ag awdurdodau yn Lloegr sydd â phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg.

- Er bod Bro Morgannwg ar y cyfan yn perfformio'n dda ar Lefel 2 o’i gymharu ag eraill yng Nghymru, mae lefelau cyrhaeddiad yn amrywio'n fawr. Yn seiliedig ar gyfartaledd tair blynedd, 2010/11 i 2012/13, mae'n amrywio o 97% yn ACEHI 'Plymouth (Bro Morgannwg) 3' i ddim ond 21% yn ACEHI 'Gibbonsdown 4'.

- Mae canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dod yn NEET (Nad ydynt mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant) yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn ac yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2015-16 ar draws grwpiau oedran blwyddyn 11, blwyddyn 12 a blwyddyn 13.

- Mae lefelau cymhwyster ar gyfer y rhai 16-64 oed yn y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru.

- Er gwaethaf enillion cyfartalog uchel yn gyffredinol, gellir gweld gwahaniaethau mewn incwm ym Mro Morgannwg.  Mae incymau canolrif aelwydydd yn y Barri yn sylweddol is na rhannau o Ddwyrain a Gorllewin y Fro. Mae gwahaniaethau hefyd yn dal i fodoli o fewn y cymunedau hyn, gydag aelwydydd yn Llanilltud Fawr a Sain Tathan ag incwm is na rhannau eraill o Orllewin y Fro, a Llandochau, Cornerswell a Stanwell gydag incwm aelwyd canolrifol is na rhannau eraill o Ddwyrain y Fro.

- O'r rhai sy'n weithgar yn economaidd yn y Fro, mae 74% mewn cyflogaeth, ychydig yn uwch na chyfartaleddau Cymru a'r DU. Mae 4% o'r boblogaeth yn ddi-waith sydd yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU.

- Mae gan y Fro ganran is na chyfartaledd Cymru o aelwydydd di-waith a phlant sy'n byw mewn cartrefi di-waith.

- Canfu’r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf i Fro Morgannwg (2016/17) fod cyfanswm o 6,367 o leoedd yn cael eu cynnig yn ystod y tymor a 2,603 o leoedd gwag (41%) ar draws Bro Morgannwg. Yn ystod gwyliau ysgol, mae nifer y lleoedd yn gostwng i 2,056 a dim ond gyda gwarchodwyr plant a gofal y tu allan ysgol y mae lleoedd gwag ar gael.

- Gorllewin y Fro sydd â'r nifer uchaf o leoedd gofal plant yn ystod y tymor ac mae 44% o'r rhain yn wag. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae gofal plant wedi ei rannu'n fwy cyfartal ar draws y tair ardal gymunedol. Yr ardal lawnaf o ran darparwyr gofal plant yw’r Barri gyda chyfanswm o 103 (42%) er, fel uchod, Gorllewin y Fro sydd â'r nifer uchaf o leoedd gofal plant yn ystod y tymor (41%) gyda 44% yn wag. Mae hyn o ganlyniad i feithrinfa ddydd yn y Bont-faen sy'n nodi fod ganddi gapasiti o 966 o

leoedd gofal plant. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gwyliau yn Nwyrain y Fro (54%).

- Wrth ystyried cyfraddau goroesi busnes, roedd gan y Fro y gyfradd uchaf o fusnesau sy'n cyrraedd 5 mlynedd o fasnachu yng Nghymru.

- Wrth ystyried y newid a ragwelir mewn swyddi yn ôl diwydiant yn 2020 o'i gymharu â 2014, rhagwelir y bydd y colledion mwyaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, a gweithgynhyrchu diwydiannau plastig. Rhagwelir y cynnydd mwyaf mewn swyddi gofal preswyl a bwytai a diwydiannau gwasanaeth bwyd symudol.

- Mae cyfanswm y nifer o ymwelwyr i Fro Morgannwg i ddibenion twristiaeth yn parhau i gynyddu. Ers adroddiad Twristiaeth STEAM a gynhyrchwyd yn 2004-2015, bu cynnydd o 18.5% yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Yn ogystal, bu cynnydd o 64.8% yn effaith economaidd twristiaeth ym Mro Morgannwg yn ystod y cyfnod hwn a chynnydd o 10.9% yng nghyfanswm cyflogaeth a gefnogir gan y diwydiant twristiaeth.

- Mae canran is o drigolion y Fro yn gallu siarad Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol. Amrywia cyfradd y siaradwyr Cymraeg ar draws y Fro gyda'r cyfraddau isaf mewn ardaloedd yn Nwyrain y Fro yn ogystal â Sain Tathan a Llanilltud Fawr, sydd i'w briodoli efallai i'r boblogaeth dros dro yn yr ardal hon oherwydd gorsaf y Weinyddiaeth Amddiffyn.

## Beth ydych chi wedi ei ddweud wrthym?

- Mewn ymateb i gwestiwn ar gyfleoedd hyfforddi yn yr arolwg Amser Siarad, mynegodd pobl bryderon ynghylch costau, cyfyngiadau oedran a diffyg cyfleoedd ar gyfer gweithwyr rhan-amser. Fodd bynnag, nododd eraill gyflogwyr cefnogol a chymorth da gan Gyrfa Cymru.

- Dangosodd canlyniadau'r arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o ymatebwyr yn teimlo y byddai eu llesiant economaidd yn gostwng dros y 5 mlynedd nesaf, gyda chanlyniad Refferendwm yr UE yn cael ei nodi'n gyson fel y rheswm dros eu hateb.

- Dangosodd Arolwg Barn y Cyhoedd a gynhaliwyd yn y Fro yn 2014 bod 80% o drigolion yn defnyddio'r rhyngrwyd, cynnydd o'r 72% a gofnodwyd yn yr arolwg blaenorol yn 2010. Gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng grwpiau oedran, gyda 95% o'r rhai dan 55 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd, ond dim ond 54% o'r rhai 55+ oed yn gwneud hynny.

- Dangosodd canlyniadau’r arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai’n fodlon iawn neu’n weddol fodlon â’u swydd.

- Roedd trafnidiaeth yn aml yn cael ei godi fel pwnc yn ystod yr ymgysylltu a gynhaliwyd ar gyfer yr asesiad. Roedd ymatebwyr eisiau gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig amlder bysiau a threnau mewn ardaloedd gwledig er bod rhai yn teimlo bod y gwasanaethau’n dda. Roedd cyflwr ffyrdd a phalmentydd hefyd yn fater a godwyd yn aml.

- O ran yr arolwg Amser Siarad, adroddodd 31.9% o ymatebwyr eu bod naill ai’n bryderus neu'n weddol bryderus am gostau trafnidiaeth. Atebodd 18% o'r ymatebwyr eu bod yn eithaf anfodlon, neu'n anfodlon iawn, gyda'u "mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus". Nododd ymatebwyr yng Ngorllewin y Fro gyfradd uwch o anfodlonrwydd gyda "mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus" na'r ardaloedd eraill ym Mro Morgannwg.

- Nodwyd yr amgylchedd naturiol yn gyson gan drigolion fel yr hyn sy'n dda am fyw yn y Fro yn ystod yr Ymgyrch Ymgysylltu Amser Siarad, gyda thraethau a pharciau yn cael eu crybwyll yn gyson. Cydnabuwyd bod amgylchedd naturiol y Fro nid yn unig yn ased i’r trigolion ond hefyd i ddenu ymwelwyr i'r ardal.

- Wrth ystyried p’un a yw trigolion wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, ymweld â lleoedd hanesyddol neu ymweld ag amgueddfa yng Nghymru, dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru bod y Fro yn sgorio’n uchel o’i chymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru ar draws y tri gweithgarwch, sy'n dangos cyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgareddau diwylliannol.

- Gofynnwyd i ymatebwyr Amser Siarad ystyried pa mor bwysig oedd amrediad o agweddau iddynt gan gynnwys crefydd, y celfyddydau a diwylliant, chwaraeon, yr iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru. Yr iaith Gymraeg oedd y mater y teimlai’r rhan fwyaf o ymatebwyr nad oedd yn bwysig o gwbl, a'r mater y teimlai’r lleiaf o ymatebwyr oedd yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn. Fodd bynnag, nododd nifer uchel o ymatebwyr bod diwylliant a threftadaeth Cymru yn weddol bwysig neu’n bwysig iawn. Mae'n ddiddorol nodi bod yr arolwg yn fyw yn ystod ymgyrch pêl-droed Ewro 2016 Cymru.

## 6.2 Ein canfyddiadau

### Addysg

Er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth yn cael y cyfle gorau posibl i wneud y gorau o'u cyfleoedd, mae cael addysg dda yn hynod bwysig. Gweithreda addysg fel sylfaen allweddol ar gyfer llwyddiant economaidd nid yn unig unigolion, ond yr ardal yn ogystal. Nodwyd mai "cyrhaeddiad addysgol sy'n cael yr effaith fwyaf ar y tebygolrwydd o fod mewn tlodi ac o ddioddef amddifadedd difrifol fel oedolyn .. o ystyried bob peth yn gyfartal, yn y DU, mae'r rhai sydd â lefel isel o gyrhaeddiad addysgol bron bum gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi yn awr ac 11 gwaith yn fwy tebygol o ddioddef amddifadedd difrifol â'r rhai sydd â lefel uchel o addysg".[20]


Ar lefel genedlaethol, mae adroddiad Deall Dyfodol Cymru Llywodraeth Cymru[21] yn dangos bod Cymru'n tanberfformio yn rhyngwladol o ran cyrhaeddiad addysgol, sydd â goblygiadau ar gyfer yr economi, iechyd a chyfleoedd bywyd cyffredinol ein pobl. Felly, er bod ein dadansoddiad o gyrhaeddiad addysgol yn cymharu llwyddiant ym Mro Morgannwg gyda chyfartaledd Cymru, mae'n bwysig ystyried efallai nad cyfartaledd Cymru yw'r cymharydd gorau. Ein huchelgais yw bod canlyniadau addysg ym Mro Morgannwg y gorau yng Nghymru a'u bod yn cyfateb i rai'r awdurdodau mwyaf llwyddiannus yn Lloegr sydd â phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg.

Rydym eisoes wedi ystyried pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar ac ni ellir diystyru effaith addysg ar oedran ifanc. Mae Deall Dyfodol Cymru yn nodi sut mae tystiolaeth ryngwladol yn awgrymu bod y cyfleoedd mwyaf ar gyfer newid cyfleoedd bywyd yn gorwedd yn y blynyddoedd cyn-ysgol gyda'r ffactorau sy'n arwain at dan-gyrhaeddiad addysgol yn dechrau yn gynnar iawn yn ystod plentyndod. Mae'r siart canlynol yn dangos y cysylltiadau rhwng lefel o sgiliau gwybyddol a chefndir economaidd-gymdeithasol. Gwelir yn glir effaith statws economaidd-gymdeithasol plentyn ar ddatblygiad gwybyddol a'r cyfleoedd bywyd dilynol, a dengys hyn pa mor bwysig yw llwyddiant yn y blynyddoedd cynnar, nid yn unig ar gyfer y genhedlaeth hon ei hun, ond yr effaith a gaiff ar amgylchiadau economaidd-gymdeithasol cenhedlaeth eu plant.

---

[20] http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/rel/household-income/intergenerational-transmission-of-poverty-in-the-uk---eu/2014/blank.html (Saesneg yn Unig)

[21] http://gov.wales/statistics-and-research/understanding-wales-future/?skip=1&lang=cy





Ffynhonnell: Feinstein (2003 'Inequality in the Early Cognitive Development of British Children in the 1970 Cohort')

(Saesneg yn Unig)

Mae'r Asesiad Cyfnod Sylfaen ar gyfer plant 4-5 oed yn cynnwys pedwar Maes Dysgu - Datblygiad Personol a Chymdeithasol; Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu; Datblygiad Mathemategol; a Datblygiad Corfforol. Yn 2015/16 roedd canran y plant ym Mro Morgannwg a gyrhaeddodd y canlyniad disgwyliedig neu'n uwch ar draws yr holl feysydd datblygiad cyfunol yn 91.2%.  Hwn oedd yr uchaf ar draws y Consortiwm Addysg Canolbarth y De ac roedd yr 2[il] uchaf yng Nghymru y tu ôl i Sir Fynwy (91.7%).

Mae plant hefyd yn cael eu hasesu ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen (7 oed) ac mae'r graff canlynol yn dangos bod y ganran sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig o ddatblygiad unwaith eto yn uwch na'r cyfartaledd, gyda Bro Morgannwg â'r ganran ail uchaf ar draws Cymru.




| | The Vale of Glamorgan | Wales |
|---|---|---|
| AY 11-12 | 84.3 | 80.5 |
| AY 12-13 | 88.8 | 83.0 |
| AY 13-14 | 89.4 | 85.2 |
| AY 14-15 | 91.5 | 86.8 |

Mae canran y plant mewn angen sy'n cyrraedd y canlyniad disgwyliedig yn yr asesiad cyfnod sylfaen hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Ym Mro Morgannwg mae 45 o ysgolion cynradd a 7 ysgol uwchradd awdurdod lleol. Mae maint dosbarthiadau ym Mro Morgannwg ychydig yn fwy na'r cyfartaledd a chanran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn is na'r cyfartaledd. Ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015-16, mae presenoldeb yn yr ysgol yn parhau i fod yn chwartel uchaf o berfformwyr yng Nghymru o ran ysgolion uwchradd a chynradd.

Yn y flwyddyn academaidd 2015/16, llwyddodd 67.1% o ddisgyblion 15 oed yn y Fro ar drothwy Lefel 2, 5 TGAU gradd A*-C gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Saesneg/ Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg. Cyfartaledd Cymru oedd 60.3%. Fodd bynnag, unwaith eto gwelir anghydraddoldebau ym Mro Morgannwg gyda'r lefelau cyrhaeddiad isaf yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Fro. Ceir tystiolaeth o hyn ymhellach yn y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion yn y Fro sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. Un o amcanion gwella 2015-16 y Cyngor oedd lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt. Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i brydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012, er nid bob amser ar yr un gyfradd â'u cyfoedion. Mae'r bwlch cyrhaeddiad yn CA4 wedi lleihau ychydig ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015-16, fodd bynnag, mae lleihau'r bwlch hwn yn parhau i fod yn ffocws allweddol ar gyfer gwella ac yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y tymor hir.

Yn achos plant sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim, gall gwyliau ysgol gael effaith sylweddol ar eu cyflawniad drwy gydol y flwyddyn ysgol nesaf. Mae gwyliau haf ysgol yn bwynt gwasgfa i deuluoedd incwm isel, gyda phlant sy'n elwa o frecwast ysgol a chinio am ddim yn aml yn colli prydau bwyd a mynd yn llwglyd ar ôl i'w hysgol gau am y gwyliau. Mae colli prydau bwyd, ffordd o fyw eisteddog, ac ynysu cymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol, nid yn unig yn atgyfnerthu anghydraddoldebau iechyd sy'n bodoli eisoes, ond hefyd mae'n gallu

effeithio ar agwedd a chymhelliant y plentyn i ddysgu wrth ddychwelyd i'r ysgol ar ddechrau'r flwyddyn.

Datblygwyd y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol Bwyd a Hwyl a’i threialu yng Nghaerdydd yn 2015, a dyma’r enghraifft gyntaf yn y DU o broject aml-asiantaeth yn darparu prydau iach, sgiliau maeth, chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill yn ystod gwyliau'r ysgol. Yn 2016 cyflwynwyd y model y tu hwnt i Gaerdydd a’i rhoi ar waith mewn 19 o ysgolion mewn ardaloedd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru, yn dilyn cefnogaeth gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a phum awdurdod lleol (Dinas Caerdydd, Bro Morgannwg, Castell-nedd Port Talbot, Sir Ddinbych a Wrecsam).

Ym Mro Morgannwg, helpodd tîm Cymunedau yn Gyntaf y Barri i nodi 40 cartref mewn risg ar gyfer y rhaglen yn y Fro. Cynhaliwyd y rhaglen am gyfnod o 3 wythnos yng ngwyliau haf yr ysgol, gan ddarparu chwaraeon a gweithgareddau maeth 4 diwrnod yr wythnos. Cafodd ei thargedu at blant 10 ac 11 oed yn y flwyddyn drosiannol rhwng yr ysgol gynradd ym mlwyddyn 6 a’r ysgol uwchradd ym mlwyddyn 7. Roedd y rhaglen yn darparu brecwast a chinio ar gyfer cyfranogwyr, a hefyd gwahoddwyd rhieni a brodyr a chwiorydd i ymuno â'r rhaglen bob dydd Iau am ginio. Roedd y project hefyd yn cynnwys myfyrwyr 6ed dosbarth o Ysgol Gyfun Bryn Hafren ac Ysgol Gyfun y Barri, y ddau safle ar gyfer y project yn y Fro, a wirfoddolodd i gynorthwyo gyda'r rhaglen. Yn ystod y rhaglen cymerodd 196 o blant ran ar safle Ysgol Gyfun y Barri, a 188 o blant ran ar safle Ysgol Gyfun Bryn Hafren.

Cynhaliwyd gwerthusiad Cymru gyfan o'r project gyda'r gwerthusiad yn canfod tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol ar lefelau gweithgarwch plant, diet, ynysu cymdeithasol, a chyfleoedd dysgu ac ymgysylltu â'r ysgol, i gyd yn cyfrannu at wella llesiant y plant a'r rhieni. Dangosodd y data a gasglwyd drwy weithgarwch monitro bod y plant yn llawer mwy tebygol o gyflawni’r argymhelliad dyddiol o 60 munud o weithgarwch corfforol cymedrol i egnïol wrth fynychu'r clwb (71%) o'i gymharu â dyddiau'r wythnos pan nad oedd clwb (48%). Yn gyffredinol, adroddodd 98% o blant eu bod wedi bwyta brecwast ac roedd yr holl blant yn bwyta cinio ar ddyddiau clwb. Adroddodd y mwyafrif iddynt fwyta llawer mwy o ffrwythau a llysiau (67%), a llai o fyrbrydau llawn siwgr (66%) a llai o ddiodydd llawn siwgr/ pefriog (81%) yn y clwb nag yn y cartref. Canfuwyd fod y project nid yn unig yn effeithio ar lesiant y plant ond hefyd y rhieni trwy leihau straen meddwl a rhoi llai o straen ar eu llesiant economaidd.

Canfuwyd manteision cymdeithasol ac addysgol posibl gyda 75% o blant yn adrodd iddynt wneud ffrindiau newydd yn y clwb gwyliau, a nododd rhieni a staff agweddau mwy cadarnhaol tuag at yr ysgol ymhlith plant a oedd yn mynychu'r clybiau gwyliau. Gall y profiad cadarnhaol hwn yn ystod gwyliau ysgol helpu i gynyddu cymhelliant y plentyn i fynd i'r ysgol ac i weithio'n galed yn ystod y flwyddyn ysgol nesaf.

Canfu dadansoddiad blaenorol a wnaed drwy Adroddiad Trechu Tlodi Bro Morgannwg 2015[22] nad oedd unrhyw gyswllt rhwng amseroedd teithio i'r ysgol a chyfraddau presenoldeb disgyblion. Fel y nodwyd, mae cyfraddau presenoldeb yn yr ysgol a nodir yn y Fro ymhlith yr uchaf yng Nghymru gyda phresenoldeb yn yr ysgol yn dylanwadu ar lefelau cyrhaeddiad. Cefnogir y dadansoddiad nad yw amser teithio yn cael unrhyw ddylanwad dros lefelau presenoldeb yn yr ysgol gan ddadansoddiad o lefelau cyflawniad gydag ardaloedd yng Ngorllewin y Fro â rhai o'r lefelau cyflawniadau uchaf er gwaethaf y ffaith fod disgyblion yn yr ardaloedd hyn â rhai o'r amseroedd teithio hwyaf i'r ysgol oherwydd natur wledig yr ardal.


Er bod Bro Morgannwg yn gyffredinol yn perfformio llawer yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y cyfnodau allweddol, mae'n bwysig ystyried y dylem fod yn anelu at fod ar lefel sy'n cyfateb i awdurdodau yn Lloegr sydd â phroffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg. Nododd dadansoddiad blaenorol a gynhaliwyd gan yr Uned Ddata Llywodraeth Leol bod 'teulu' o awdurdodau lleol o broffil economaidd-gymdeithasol tebyg i Fro Morgannwg - Sir y Fflint, Dwyrain Sussex, Norfolk a Solihull. Dangosodd dadansoddiad blaenorol a wnaed yn 2013 o asesiadau athrawon yn CA2 a CA3 , bod y Fro'n perfformio naill ai'r un fath neu'n well na'r awdurdodau o fewn y 'teulu'. Fodd bynnag, ar berfformiad CA4 roedd Bro Morgannwg yn is na'r awdurdodau Seisnig o fewn y grŵp hwn, er bod rhaid bod yn ofalus wrth gymharu'r ffigyrau hyn oherwydd gwahaniaethau mewn trefniadau ar gyfer arholiadau. Byddai angen rhagor o waith i gynnal y dadansoddiad hwn, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael.

Ystyriodd ein hadroddiad tystiolaeth hefyd amryw o ffactorau mewn perthynas â sut mae disgyblion yn teimlo am yr ysgol. Nododd Adroddiad Deall Dyfodol Cymru bod disgyblion yng Nghymru yn teimlo'n llawer mwy dan bwysau oherwydd gwaith yr ysgol na disgyblion 15 oed mewn gwledydd eraill gyda chyrhaeddiad uwch. Roedd disgyblion ar draws ardal Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn unol â chyfartaledd Cymru pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn teimlo dan bwysau oherwydd y gwaith yr ysgol roedd rhaid iddynt ei wneud. Roedd canran y disgyblion yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro a ddywedodd eu bod yn hoff iawn o'r ysgol yn uwch na chyfartaledd Cymru, er mai dim ond 26% o ddisgyblion a ddywedodd hynny. Gofynnodd Asesiad Anghenion Disgyblion Ysgol Bro Morgannwg ystod o gwestiynau mewn perthynas â sut yr oedd disgyblion yn teimlo am yr ysgol a'u hoff ddulliau dysgu, a cheir manylion am y canfyddiadau yn ein hadroddiad tystiolaeth.

[22] LGDU Adroddiad Trechu Tlodi Bro Morgannwg 2015

Gofynnodd Uwch Arolwg Ysgolion 2016 hefyd i blant a phobl ifanc yn y Fro amrywiaeth o gwestiynau ynghylch sut oeddent yn teimlo am y dyfodol. Gofynnodd yr arolwg i ddisgyblion ystyried pa mor hyderus oeddent yn teimlo y byddent yn cael swydd ar ôl gadael yr ysgol/coleg. O'r 943 o ymatebion i'r cwestiwn hwn, roedd 85% naill ai'n eithaf hyderus neu'n hyderus iawn y byddent yn dod o hyd i swydd yn y dyfodol.

**Uwch Arolwg Ysgolion 2016: Pa mor hyderus ydych chi y gallwch gael swydd pan ydych chi'n gadael yr ysgol/coleg? Ymatebion ysgolion uwchradd**




Ffynhonnell: Uwch Arolwg Ysgolion 2016

Rydym eisoes wedi tynnu sylw at y ffaith bod addysg yn hanfodol bwysig ar gyfer canlyniadau cymdeithasol ac economaidd, ac ar lefel genedlaethol, mae gan Gymru gyfraddau cymharol isel o addysg ôl-16 o'i gymharu â gwledydd eraill. Ym Mro Morgannwg mae canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n dod yn NEET yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn ac yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru ar gyfer 2015-16. Perfformiodd y Fro yn dda ym mhob grŵp oedran ar gyfer 2015/16 gyda 1.7% o ymadawyr Blwyddyn 12 yn NEET o'i gymharu â chyfartaledd o 2.8% yng Nghymru. Ym mlwyddyn 13, roedd 2.92% o ymadawyr yn NEET yn y Fro o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 3.76%.  Mae'r llwyddiant o ran lleihau'r bobl ifanc sy'n NEET yn y Fro i'w briodoli i weithredu'r Fframwaith Ymgysylltu a Dilyniant Ieuenctid (FfYDI) Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn cynnwys nodi'n brydlon y bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o ddod yn NEET ar ôl 16 oed, a gwblheir gan ysgolion ddwywaith y flwyddyn; system froceriaeth effeithiol a chefnogaeth gydlynol; a sicrhau darpariaeth eang i'r llwybrau 14-16 mewn colegau, ysgolion a darparwyr hyfforddiant i gwrdd ag anghenion pobl ifanc. Mae'r FfYDI yn cynnig rôl gweithiwr arweiniol sy'n ymrwymo i ddarparu cefnogaeth un i un i'r person ifanc cyn-16 ac ôl-16, sy'n sicrhau symud ymlaen i addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth. Ffurfiodd yr awdurdod lleol system dracio


gryfach gan weithio â phartneriaid fel Gyrfa Cymru, i sicrhau pontio llwyddiannus i bobl ifanc o’r ddarpariaeth cyn-16 i ôl-16.

Gall cyrhaeddiad addysgol nid yn unig ddylanwadu ar gyfleoedd yr unigolyn ei hun ond hefyd caiff effaith ar ddatblygiad a dysgu plant. Dangosodd data ar lefel genedlaethol a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru bod rhieni sydd wedi cymhwyso i lefel 4 NQF neu uwch 20% yn fwy hyderus ynghylch eu sgiliau ysgrifennu eu hunain i helpu plant gyda'u hysgrifennu na'r rhai heb unrhyw gymwysterau. Yn yr un modd mae’r rhai sydd wedi cymhwyso i lefel 4 NQF neu uwch 22% yn fwy hyderus yn eu gallu mathemateg i helpu plant gyda'u gwaith mathemateg na'r rhai heb gymhwyster.  Mae gan y Fro ganran gyfartalog is o'r boblogaeth oedolion heb unrhyw gymwysterau, a chanran uwch na'r cyfartaledd o'r boblogaeth wedi cymhwyso ar lefel NQF 4 ac uwch, naill ai gradd neu gyfwerth. O’i ystyried yn ôl rhyw, mae gan y Fro’r ganran uchaf o ddynion wedi cymhwyso i lefel 4+ yng Nghymru a'r 3$^{ydd}$ ganran uchaf ar gyfer menywod.

Unwaith eto gellir gweld gwahaniaethau ym Mro Morgannwg gyda data Cyfrifiad 2011 yn dangos bod gwahaniaethau clir yn y Fro, gyda mwy o oedolion yn ardal y Barri (25.5%) heb unrhyw gymwysterau nag yn Nwyrain y Fro (17.9%) a Gorllewin y Fro (16.3).

Mae ystod o raglenni yn eu lle er mwyn cynyddu sgiliau ymhlith oedolion, gan gynnwys cyrsiau Dysgu Oedolion a Dysgu yn y Gymuned. Dengys y map canlynol leoliad sgiliau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a ariennir gan Lywodraeth Cymru a lleoliadau cyrsiau cyflogadwyedd o'r rhaglen 'Get Back on Track' ym Mro Morgannwg. Fel y gwelir ar y map, mae lleoliadau’r cyrsiau i’w cael yn ardaloedd mwyaf difreintiedig y Fro yn ôl Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014, gyda'r nod o wella sgiliau o fewn ein cymunedau mwy difreintiedig lle mae lefelau cymwysterau oedolion yn tueddu i fod yn is.

**Map lleoliad cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned**




Ffynhonnell: Dysgu Oedolion yn y Gymuned ym Mro Morgannwg

## Economi a Chyflogaeth

Gellir gweld cyrhaeddiad addysgol da ym Mro Morgannwg fel un o gryfderau’r ardal ac elfen allweddol o lesiant. Mae angen paru cyrhaeddiad addysgol da gydag economi lleol ffyniannus sy'n cynnig cyfleoedd da, er mwyn sicrhau nad yw pobl yn gadael yr ardal. Felly gellir ystyried lleoliad y Fro nesaf at brifddinas Cymru, Caerdydd, fel un o'i hasedau gorau, sy'n cynnig ystod o gyfleoedd economaidd a diwylliannol a geir mewn prifddinas, tra'n cadw ymdeimlad o gymeriad lleol ac amgylchedd naturiol cyfoethog.

Mewn perthynas ag amgylchedd economaidd y Fro, mae Gwerth Ychwanegol Crynswth yn uwch yn rhanbarth Caerdydd a'r Fro na rhannau eraill o Gymru, er bod hyn wedi gostwng yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Incwm Gwario Gros Aelwydydd hefyd yn uwch yn Rhanbarth


Caerdydd a'r Fro na chyfartaledd Cymru, ond yn is na chyfartaledd y DU hyd yn oed pan yr eithrir Llundain a De Ddwyrain Lloegr.

Mae enillion wythnosol cyfartalog yn y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU, gyda'r data diweddaraf yn dangos bod y cyflog wythnosol gros ar gyfartaledd i weithwyr llawn-amser yn y Fro yn £607 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o £498. Dengys ein canfyddiadau fod cyflog wythnosol cyfartalog gros yn uwch i ddynion sy'n gweithio llawn-amser na menywod yn y Fro, er bod cyfraddau cyflog fesul awr yn dangos menywod yn ennill ychydig yn fwy yr awr na dynion, gan awgrymu bod menywod yn y Fro yn gweithio llai o oriau.

Er gwaethaf enillion cyfartalog uchel yn gyffredinol, gellir gweld gwahaniaethau mewn incwm ym Mro Morgannwg.  Mae incymau canolrif aelwydydd yn y Barri yn sylweddol is na rhannau o Ddwyrain a Gorllewin y Fro. Gwelir hefyd bod gwahaniaethau yn dal i fodoli o fewn y cymunedau hyn, gydag aelwydydd yn Llanilltud Fawr a Sain Tathan ag incwm is na rhannau eraill o Orllewin y Fro, a Llandochau, Cornerswell a Stanwell gydag incwm aelwyd canolrifol is na rhannau eraill o Ddwyrain y Fro. Ar draws Cymru, mae 17% o'r boblogaeth yn dioddef amddifadedd incwm o'i gymharu â 14% yn y Fro. Fodd bynnag, dengys dadansoddiad ar lefel ACEHI mai yn Ninas Powys 1 y gwelwyd y ganran isaf o boblogaeth sy'n profi amddifadedd incwm (4%), o'i gymharu â Gibbonsdown 2 a oedd â'r uchaf ar 41% - mwy na dwbl ffigwr cyfartalog Cymru.

Dengys y map canlynol y gwahaniaethau mewn incwm canolrifol ar draws Bro Morgannwg gydag ardaloedd sydd â'r incwm isaf hefyd y rhai sydd â'r cyrhaeddiad addysgol isaf a chyfraddau iechyd a disgwyliad oes gwaelach, fel y nodwyd yn flaenorol.

**Incwm Aelwydydd Canolrifol**



Drwy’r Arolwg Amser Siarad gofynnwyd i drigolion a oeddent yn teimlo y byddai eu llesiant economaidd yn cynyddu, lleihau neu’n aros yr un fath dros y 5 mlynedd nesaf. Teimlai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr y byddai eu llesiant economaidd yn lleihau dros y 5 mlynedd nesaf gyda chanlyniadau refferendwm yr UE yn cael eu nodi’n gyson fel rheswm dros eu hateb.

Mae’r datganiad masnach DU diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rhoi’r amcangyfrif cyntaf am chwarter lawn o ddata ar ôl refferendwm yr UE. Dengys masnach y DU weithgarwch mewnforio ac allforio ac mae’n brif gyfrannwr at dwf economaidd cyffredinol y DU. Yn y chwarter llawn cyntaf ers refferendwm yr UE, bu gostyngiad bychan yn y diffyg masnach, ond hyd yn hyn ni fu llawer o dystiolaeth yn y data i ddangos bod gwerth is y bunt yn effeithio ar faint y masnach na phrisiau.

Fel uchod, er bod lefelau incwm cyffredinol ym Mro Morgannwg yn uchel, gellir gweld gwahaniaethau wrth ystyried data o dan lefel sirol. Mae'r un patrymau yn ymddangos wrth ystyried lefelau cyflogaeth.

Mae cyflogaeth yn cynnig lefel uchel o ddiogelwch yn erbyn tlodi, ac yn enwedig yn erbyn tlodi dwfn a pharhaus (a hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant). O'r rhai sy'n economaidd weithgar yn y Fro, mae 74% mewn cyflogaeth, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU. Mae 4% yn ddi-waith sydd yn is na chyfartaleddau Cymru a'r DU. O'r rhai sy'n economaidd anweithgar, mae'r canrannau uchaf (25.4%) yn gofalu am y teulu/cartref neu’n fyfyrwyr (24.9%). Dim ond 13.7% sy’n economaidd anweithgar oherwydd ymddeoliad o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 15%. Mae 21% yn economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor o’i gymharu â chyfartaledd Cymru o 28.5%. O'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn y Fro, mae 28.2% eisiau swydd, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru a'r DU, gan gyflwyno cyfle yn yr ystyr bod y rhai sy’n economaidd anweithgar yn barod i ddod o hyd i gyflogaeth.

Yn gyffredinol, mae gan y Fro ganran is na chyfartaledd Cymru o aelwydydd di-waith a phlant sy'n byw mewn cartrefi di-waith.

Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, yr ardaloedd hynny yn y Fro sydd â’r incwm aelwyd isaf yw’r rhai sydd â’r cyfraddau cyflogaeth isaf hefyd, a'r rhai sydd â'r lefelau isaf o gyrhaeddiad addysgol.

Mae canran y bobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith (JSA) wedi cynyddu'n ddiweddar yn y Fro ac mae bellach yn unol â chyfartaledd Cymru, ond yn flaenorol roedd yn is. Fodd bynnag, priodolir hyn i gyfartaledd Cymru yn disgyn yn hytrach na chyfradd yn y Fro yn cynyddu'n sylweddol. Gellir canfod y canrannau uchaf o bobl oedran gweithio sy'n hawlio Lwfans Ceisio Gwaith yn y Barri a Sain Tathan yng Ngorllewin y Fro.

Yn flaenorol, roedd canran o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith 17-24 oed yn y Fro yn unol â chyfartaledd Cymru, ond dechreuodd gynyddu'n uwch na'r cyfartaledd ym Medi 2015. Gwelwyd cynnydd ym mis Medi hefyd mewn blynyddoedd blaenorol, y gellid ei briodoli i bobl ifanc yn gadael addysg a dechrau hawlio'r Lwfans Ceisio Gwaith. O ystyried y niferoedd isel yn gyffredinol o hawlwyr Lwfans Ceisio Gwaith yn y Fro, gallai'r cynnydd felly fod yn fwy amlwg.  Hefyd mae gan y Fro ffigyrau NEET is na'r cyfartaledd ac felly byddai angen dadansoddiad pellach i ddeall y duedd hon.

Mae'r un ardaloedd ym Mro Morgannwg yn profi normau wedi ymwreiddio'n ddwfn o gyflawniad addysgol is, cyfraddau cyflogaeth is ac incwm is. Fel yr ydym eisoes wedi archwilio, gall dylanwad ffactorau cymdeithasol-economaidd yn y blynyddoedd cynnar fod yn hanfodol wrth benderfynu ar gyfleoedd bywyd a chyfleoedd ein cenedlaethau'r dyfodol. Wrth astudio'r hyn sy'n gweithio o ran lleihau diweithdra rhwng cenedlaethau a chyflogaeth fregus, nododd astudiaeth Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru [23] amrywiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar gyflogaeth. Mae'r rhain yn cynnwys ffactorau ac amgylchiadau unigol, gan gynnwys iechyd, gwybodaeth chwilio am waith, sgiliau a chymwysterau; ffactorau cyd-destunol lleol - gan gynnwys nifer ac ansawdd y cyfleoedd gwaith lleol, ffactorau diwylliannol lleol a gweithrediadau a normau'r farchnad lafur leol; a ffactorau lefel macro - gan gynnwys cyflwr yr economi macro, y drefn llesiant a pholisi yn y farchnad lafur a meysydd cysylltiedig.
Gwelir mai un o'n prif heriau, ar ôl helpu ein trigolion i gael swydd, yw eu helpu i gynnal y gyflogaeth honno fel eu bod yn medru cael dyrchafiad o fewn y swydd, a helpu i sicrhau gwell dyfodol.

Dengys data diweithdra tymor hir (12 mis neu fwy) gyfradd is yn y Fro na phob ardal arall ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n seiliedig ar ymatebion isel ac nid ystyrir ei fod yn gadarn, ac mae o ansawdd isel.

Wrth ystyried mathau o gyflogaeth, roedd y ganran uchaf o drigolion y Fro yn cael eu cyflogi yn y grŵp swyddi mawr 1-3 sy'n cynnwys rheolwyr, cyfarwyddwyr ac uwch swyddogion, galwedigaethau proffesiynol neu gydweithiwr proffesiynol a thechnegol. Mae cyfran uwch o drigolion y Fro yn cael eu cyflogi yn y galwedigaethau hyn o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a'r DU. Hefyd dengys canlyniadau'r arolwg Amser Siarad bod y rhan fwyaf o ymatebwyr naill ai'n fodlon iawn neu'n weddol fodlon â'u swydd.

Rhaid cydnabod, fodd bynnag, nad cyrhaeddiad addysgol yn unig sy'n bwysig ond bod ystod o rwystrau eraill yn bodoli sy'n gallu dylanwadu ar allu unigolyn i ganfod a chynnal cyflogaeth dda.

[23] http://ppiw.org.uk/files/2016/07/What-Works-in-Reducing-Intergenerational-Worklessness-and-Fragile-Employment.pdf

Wrth ystyried y bwlch rhwng y rhai sydd â chyflyrau iechyd hirdymor sydd mewn gwaith o'i gymharu â rhai heb gyflwr sy'n cael eu cyflogi, roedd gan y Fro un o'r bylchau lleiaf yng Nghymru ac roedd yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, dengys data a drafodwyd yn flaenorol mai'r un ardaloedd o Fro Morgannwg sydd â chyfraddau disgwyliad oes iach is yw'r ardaloedd hynny sydd â chyfraddau cyflogaeth is, ac ni ellir tanamcangyfrif effeithiau economaidd afiechyd ar lesiant yr unigolyn, yn ogystal â'r gymuned gyfan.

Gall oed fod yn rhwystr arall i waith ac mae canran pobl oed 50+ oed mewn cyflogaeth yn uwch yn y Fro na chyfartaledd Cymru.

Dangosodd dadansoddiad cynharach, er bod menywod ym Mro Morgannwg yn ennill mwy yr awr ar gyfartaledd na'u cymheiriaid gwrywaidd, mae incwm wythnosol cyffredinol menywod yn llai na dynion. Gallai hyn gael ei briodoli i fwy o fenywod yn gweithio oriau rhan-amser oherwydd ymrwymiadau gofal plant. Bydd mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd yn yr ardal helpu i gefnogi pobl i mewn i gyflogaeth, o fudd i'r plentyn a'r teulu o ran llesiant economaidd, diogelwch a chefnogi pobl e.e. o ran mynediad i hyfforddiant neu gyfleoedd swyddi a allai gael gwared â rhwystr i gael swydd.

Cynhaliwyd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant diweddaraf i Fro Morgannwg (2016/17) gan ddefnyddio'r un tair ardal gymunedol â'r Asesiad Llesiant hwn. Mae data o'r ADGP yn dangos bod cyfoeth o ofal plant ar gael ar draws y Fro, gyda chyfanswm o 6,367 o leoedd yn cael eu cynnig yn ystod y tymor a 2,603 o leoedd gwag (41%). Yn ystod gwyliau ysgol, mae nifer y lleoedd gwag yn gostwng i 2,056 a dim ond gyda gwarchodwyr plant a gofal y tu allan yr ysgol y mae lleoedd gwag ar gael.

Yng Ngorllewin y Fro y mae'r nifer uchaf o leoedd gofal plant yn ystod y tymor ac mae 44% o'r rhain yn wag. Yn ystod gwyliau'r ysgol, mae gofal plant ei rannu'n fwy cyfartal ar draws y tair ardal gymunedol.

Wrth ganolbwyntio ar ofal plant cyfrwng Cymraeg, mae 1,193 o leoedd ar gael yn ystod y tymor mewn lleoliadau cyfrwng Dwyieithog neu gyfrwng Cymraeg. Mae hyn yn 19% o'r holl leoedd gofal plant sydd ar gael ym mhob iaith. Yn ystod gwyliau'r ysgol mae'n gostwng i 1,036 o leoedd. Mae'n werth nodi bod y rhan fwyaf o'r lleoedd hyn mewn 1 meithrinfa ddydd dwyieithog (966 o leoedd) ac felly, mae angen trin y data hwn gyda gofal.

Nid yw'n syndod mai'r ardal lawnaf o ran darparwyr gofal plant yw'r Barri gyda chyfanswm o 103 (42%) er fel y gwelwyd uchod, Gorllewin y Fro sydd â'r nifer uchaf o leoedd gofal plant yn ystod y tymor (41%) a 44% yn wag. Mae hyn o ganlyniad i feithrinfa ddydd yn y Bont-faen sy'n nodi capasiti o 966 o leoedd gofal plant. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth gwyliau yn Nwyrain y Fro (54%).

Mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei rhannu'n gyfartal ar draws y Fro o ran y lleoliadau cyn-ysgol a chlybiau ar ôl ysgol. Fodd bynnag, mae un ddarpariaeth gwyliau yn

gweithredu am 9 wythnos o wyliau ysgol ac 1 sy'n gweithredu am bythefnos yn unig o wyliau'r haf - y ddau glwb yn y Barri.

Gall gofal plant fod yn un o'r eitemau drutaf sy'n wynebu rhai teuluoedd, ac felly mae'n bwysig bod yr Awdurdod Lleol yn darparu gymaint o wybodaeth a chyngor i deuluoedd ar yr amrywiaeth o gynlluniau cymorth ariannol ag y bo modd.

Bu cynaliadwyedd y farchnad gofal plant yn ansefydlog ers peth amser. Mae darparwyr gofal plant sy'n cynnig gofal dydd, clybiau ar ôl ysgol, clybiau gwyliau ac ati yn canfod bod cynnydd mewn rhent, costau staffio (newidiadau yn y Cyflog Byw Cenedlaethol, Cynllun Pensiwn yn y Gweithle), diweddaru cymwysterau/ hyfforddiant; gostyngiad yn nifer y plant sy'n mynychu gofal plant ffurfiol, i gyd wedi cael effaith ar gynaliadwyedd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn parhau i gefnogi'r farchnad gofal plant gyda nifer o fentrau gwahanol. Y gobaith yw bod y mentrau hyn yn eu tro yn cefnogi rhieni sy'n gweithio wrth iddynt wneud cais am gredyd treth gwaith, credyd cyffredinol a gofal plant di-dreth. Yn ogystal, mae menter Cynnig Gofal Plant ychwanegol Llywodraeth Cymru yn cael ei dreialu mewn rhai ardaloedd ym mis Medi 2017. Bwriada'r gofal plant hwn gynnig darparu 30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant am ddim i rieni plant 3 a 4 oed sy'n gweithio yng Nghymru, am 48 wythnos o'r flwyddyn - sy'n cynnwys yr addysg gynnar am ddim a ddarperir ar hyn o bryd. Rhagwelir y bydd hyn nid yn unig yn cefnogi rhieni sy'n gweithio, ond hefyd yn cefnogi cynaliadwyedd y farchnad gofal plant.

Gofynnwyd i rieni/gofalwyr am y rhesymau dros ddefnyddio gofal plant a’u barn ar y datganiadau a gynigiwyd yn yr holiadur a ddefnyddiwyd i hysbysu'r ADGP. O’r ymatebion, nid yw'n syndod bod 77.6% yn cytuno bod gofal plant yn rhy ddrud.

Pan fo darparwyr gofal plant wedi’u cofrestru gydag AGGCC, gall rhieni/ gofalwyr ddefnyddio elfen gofal plant y Credyd Treth Gwaith neu gynlluniau gofal plant Di-dreth, ond yn achos y darparwyr gofal plant hynny nad ydynt wedi cofrestru gyda AGGCC, nid yw rhieni/ gofalwyr yn gymwys. Yn y Fro, gwelir bod 6,367 o leoedd gofal plant lle mae rhieni’n gymwys i hawlio cymorth gyda chostau gofal plant yn ystod y tymor a 2,056 o leoedd cymwys yn ystod gwyliau'r ysgol. Bydd Cynllun Gofal Plant Di-Dreth newydd y Llywodraeth yn cael ei gyflwyno yn 2017 a bydd yn cael ei hyrwyddo'n eang ar hyd a lled y Fro.
Mae cysylltiadau arwyddocaol rhwng gofal plant a llesiant unigolyn. Gall gofal plant fforddiadwy effeithio ar lesiant economaidd gan fod hyn yn galluogi rhieni a fyddai'n gorfod aros gartref i ofalu am blant i ddychwelyd i'r gwaith. Gall bod mewn cyflogaeth ddod â nifer o fuddion eraill, nid yn unig rhai economaidd, ond buddion fel y gallu i gymdeithasu gyda chydweithwyr. Gall hyn hefyd helpu unigolyn i symud ymlaen mewn gwaith yn hytrach na bod i ffwrdd o'r farchnad lafur am swm sylweddol o amser. Nid fforddiadwyedd gofal plant yn unig sy’n bwysig yn hyn o beth, ond hefyd hyblygrwydd gofal plant a chyflogwyr.

Mae Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd y Fro yn derbyn nifer cynyddol o ymholiadau gan rieni sydd ag anhawster dod o hyd i ofal plant addas, hyblyg y tu allan i oriau sy’n gweddu i batrymau sifft, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau. Felly cynhaliwyd ymarferiad i:

- Sefydlu a oes galw am ofal plant sy’n gweithredu y tu allan i oriau swyddfa arferol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm ac/neu ar benwythnosau).

- Sefydlu a oes diddordeb, gan weithwyr proffesiynol gofal plant a gofalwyr plant sydd newydd gymhwyso (sydd â lefel 2 mewn gofal plant), mewn bod yn Ofalwyr Plant Cymeradwy yn y Cartref.

Rhoddwyd y dasg i PACEY Cymru i gysylltu â chyflogwyr ym Mro Morgannwg ac o amgylch, lle mae angen i weithwyr weithio tu allan i oriau swyddfa arferol (h.y. cyn 8am, ar ôl 6pm ac/neu ar benwythnosau) a chael adborth gan gyflogwyr ynghylch p’un a yw eu gweithwyr yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i ofal plant addas.

Roedd y cwestiynau a ofynnwyd yn cynnwys p’un a oedd y cyflogwr yn ymwybodol faint o'r gweithlu a oedd yn rhieni i blant o dan 13 oed, p’un a oedd y cyflogwr yn cynnig hyblygrwydd ac yn ystyried anghenion gweithwyr sy’n rhieni, a p’un a oedd y cyflogwr wedi cael profiad o broblemau gyda gweithwyr yn cymryd swyddi neu barhau i weithio oherwydd gofal plant ac a oedd y cyflogwr yn cynnig buddion megis talebau gofal plant neu ofal plant ar y safle.

Ymatebodd 45% o'r cyflogwyr y cysylltwyd â hwy. O'r ymatebion hynny, cadarnhaodd 63% nad oedd eu cwmni wedi cynnal unrhyw arolygon cysylltiedig â'u gweithwyr ar y mater hwn, fodd bynnag, roeddent yn croesawu'r alwad. Roedd cymysgedd o ymatebion ynghylch y patrymau sifft, gyda 63% yn nodi bod rhai neu nifer fawr o weithwyr yn gweithio patrymau sifft a oedd yn golygu gweithio y tu allan i oriau swyddfa arferol; fodd bynnag, dywedodd 88% o'r rheiny eu bod yn cynnig rhywfaint o gymorth gyda phatrymau gwaith. Roedd rhai o'r mecanweithiau cymorth a oedd yn eu lle ar gyfer staff yn cynnwys ystyriaeth ar sail unigol, oriau gweithio hyblyg, newid oriau cytundebol, dewis o oriau gwaith, yn ogystal ag opsiwn i gronni amser fel rhan o bolisi hyblyg.

Roedd rhai cwmnïau wedi dod ar draws rhai sefyllfaoedd lle roedd gweithiwr gydag anhawster o ran gofal plant; fodd bynnag nid oedd dim byd sylweddol. Byddai gweithwyr yn cael cynnig newid dyletswyddau, oriau, a hyd yn oed seibiant gyrfa yn ôl y gofyn.

O’r rhai a ymatebodd, roedd 38% o’r cwmnïau yn cynnig talebau gofal plant sy’n cynorthwyo gyda chostau gofal plant; hefyd roedd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yn darparu meithrinfa yn y ddau Ysbyty Prifysgol, a oedd yn cynnig cyfraddau gofal plant cystadleuol.

## Busnes a Diwydiant

Mae cysylltiadau clir rhwng economi lleol ffyniannus a llesiant ein trigolion. Bydd economi lleol cryf yn helpu i ddenu pobl i fyw yn yr ardal sy’n rhoi hwb pellach i'r economi, ac mae hyn yn ei dro yn rhoi mwy o gyfleoedd cyflogaeth i drigolion sydd wedyn wedi cynyddu incwm i'w wario o fewn y farchnad.

Cynyddodd y nifer o fusnesau sy'n weithredol ym Mro Morgannwg yn y blynyddoedd diwethaf, ond er bod cyfradd y busnesau gweithredol newydd wedi gostwng mae’n parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Wrth ystyried cyfraddau goroesi busnes, fodd bynnag, mae gan y Fro y gyfradd uchaf o fusnesau sy'n cyrraedd 5 mlynedd o fasnachu yng Nghymru.

Y diwydiannau mwyaf yn y Fro yw manwerthu a'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Wrth ystyried y newid a ragwelir mewn swyddi fesul diwydiant yn 2020 o'i gymharu â 2014, rhagwelir y bydd y colledion mwyaf mewn gweinyddiaeth gyhoeddus ac amddiffyn, a gweithgynhyrchu diwydiannau plastig. Rhagwelir y cynnydd mwyaf mewn swyddi gofal preswyl a bwytai a diwydiannau gwasanaeth bwyd symudol, fel y nodwyd yn Niweddariad Adroddiad Gwybodaeth Marchnad Lafur (GML) Coleg Caerdydd a'r Fro 2015[24]. Nododd y BGC bod y diwydiannau hyn yn aml yn gysylltiedig â gwaith rhan-amser, cyflog isel a allai fod yn achos pryder o ystyried pwysigrwydd sicrhau cyflogaeth o ansawdd dda fel y nodwyd yn gynharach.

[24] Ar gael ar gais

**Diwydiannau Mwyaf**

| Industry | 2014 Jobs | 2020 Jobs | Change in Jobs (2014-2020) | % Change | 2014 Earnings Per Worker |
|---|---|---|---|---|---|
| Residential care activities for learning disabilities, mental health and substance abuse | 3,046 | 3,503 | 457 | 15% | £20,620 |
| Retail sale in non-specialised stores with food, beverages or tobacco predominating | 2,344 | 2,465 | 122 | 5% | £15,858 |
| Primary education | 1,867 | 1,718 | -149 | -8% | £21,403 |
| Public administration and defence; compulsory social security | 1,699 | 1,297 | -402 | -24% | £29,236 |
| Restaurants and mobile food service activities | 1,446 | 1,640 | 194 | 13% | £13,208 |
| General secondary education | 1,322 | 1,306 | -16 | -1% | £25,136 |
| Beverage serving activities | 1,173 | 1,068 | -105 | -9% | £14,838 |
| Manufacture of plastics in primary forms | 772 | 532 | -240 | -31% | £29,105 |
| Repair and maintenance of aircraft and spacecraft | 756 | 632 | -124 | -16% | £40,340 |
| Retail sale of clothing in specialised stores | 754 | 756 | 2 | 0% | £16,828 |

Ffynhonnell: Diweddariad GML CCAF 2015

Defnyddir yr Adroddiad Gwybodaeth Marchnad Lafur ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm o fewn y coleg a chaiff ei drafod ym Mwrdd Gwella Cyfleoedd BGC y Fro sy'n dod â darparwyr addysg uwch, Adran Addysg y Cyngor a chyflogwyr lleol at ei gilydd. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod trigolion y Fro yn meddu ar y sgiliau cywir ar gyfer y cyfleoedd gwaith sydd ar gael, er enghraifft, pan agorodd archfarchnad fawr newydd yn y Barri yn 2015, gweithiodd Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf y Barri gyda'r cyflogwr i ddatblygu ac yna cyflwyno hyfforddiant recriwtio wedi'i dargedu, gan baratoi trigolion sy'n byw yn yr ardal ar gyfer y broses recriwtio archfarchnad.

Mae canol trefi ffyniannus yn rhan bwysig o hyrwyddo bob agwedd ar lesiant yn y Fro. Mae gan y Fro nifer o ganol trefi - Y Bont-faen, Llanilltud Fawr, Penarth a dwy ardal o fewn y Barri – Heol Holton a'r Stryd Fawr. Mae Fframwaith Canol y Dref[25] yn nodi amrywiaeth o gamau gweithredu i sicrhau bod y canol trefi hyn yn ffynnu. Mae'r fframwaith yn nodi'r heriau sy'n wynebu canol trefi ac yn sefydlu gweledigaeth a chyfres o flaenoriaethau strategol i ymdrin â'r heriau presennol. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn dod yn gyrchfannau mwy deniadol a llwyddiannus a fwynheir gan drigolion, gweithwyr ac ymwelwyr.  Nodwyd Stryd Fawr y Barri

[25] http://www.valeofglamorgan.gov.uk/en/working/regeneration/Town-Centres/Town-Centres.aspx

yn ddiweddar fel un o'r pum lleoliad uchaf ym Mhrydain am siopau annibynnol yn ôl ffigyrau a ryddhawyd gan y Cwmni Data Lleol, a ddatgelodd bod mwy na 91 y cant o siopau yn ardal orllewinol y dref yn cael eu rhedeg yn annibynnol.

Mae rhaglen gynhwysfawr o adfywio yn cael ei gweithredu ar draws y Fro, gan gynnwys Strategaeth Datblygu Gwledig Leol, Fframwaith Canol Trefi, Rhodfa Glan Môr Penarth, Glan y Dŵr y Barri gan gynnwys Ffordd Gyswllt Ynys y Barri, Ynys y Barri a chysylltiadau rhwng Hafan Penarth a Chanol y Dref, Cynllun Rheoli Cyrchfan Twristiaeth, a chyflenwi rhan 'Trechu Tlodi' o raglen Llywodraeth Cymru 'Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid'.

## Seilwaith

Gellir gweld lleoliad y Fro fel un o'i hasedau mwyaf gyda chysylltiadau trafnidiaeth da i mewn i Gaerdydd. Mae'r Fro hefyd yn gartref i Faes Awyr Caerdydd ac yn rhan o Brifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Ar adeg ysgrifennu'r Asesiad, mae gweithgarwch sylweddol o ran Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a symud ymlaen i'r cam nesaf yn ei datblygiad. Mae'r BGC yn awyddus i weithio fel rhan o'r rhanbarth i sicrhau manteision lleol a rhanbarthol ac mae'n cydnabod yr angen i osgoi dyblygu gweithgareddau sy'n fwy addas ar gyfer dull rhanbarthol. Dengys y wybodaeth a nodir isod sut mae'r Brifddinas-Ranbarth yn symud ymlaen a'r strwythurau sy'n cael eu rhoi yn eu lle i alluogi cydweithio effeithiol a chynnwys ystod eang o randdeiliaid.

Fel rhan o weithgareddau'r Brifddinas-Ranbarth, sefydlwyd Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Cysgodol anstatudol ym mis Mawrth 2016 yn unol â'r ymrwymiad a gynhwysir yn y Cytundeb Penawdau'r Telerau. Un nod allweddol yw cydlynu cynllunio trafnidiaeth a buddsoddi, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, gyda chyfrifoldeb am:

- Adnoddau trafnidiaeth leol a rennir;
- Cynllunio rhanbarthol ar gyfer y rhwydwaith trafnidiaeth lleol;
- Gweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru er mwyn sicrhau aliniad amcanion ar gyfer buddsoddi mewn trafnidiaeth;
- Archwilio creu llwyfan tocynnau integredig sengl ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i ddiffinio blaenoriaethau Metro De Ddwyrain Cymru ac i gefnogi ei chyflwyno; a

- Gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i hyrwyddo datblygiad llwybrau hedfan integredig o Faes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan, er mwyn cyflenwi budd economaidd.

Mae’r Bartneriaeth Twf Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd arfaethedig yn fwrdd ymgynghorol amlasiantaeth a fydd yn helpu i lywio datblygiad agenda datblygu economaidd y brifddinas-ranbarth ehangach. Bydd y bartneriaeth yn cynnwys argymell gweledigaeth economaidd ranbarthol i Gabinet Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan ddarparu argymhellion yn ymwneud â phenderfyniadau buddsoddi’r Fargen Ddinesig; a darparu rôl eirioli ehangach i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd yr aelodaeth yn gyffredinol yn cynnwys llywodraeth leol, cyrff busnes a gweithwyr lleol, addysg uwch a sgiliau, datblygu cymunedol, y trydydd sector a mentrau cymdeithasol. Penodir person annibynnol yn gynnar yn 2017 i arwain y broses o ffurfio Partneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol a phenodir Cadeirydd annibynnol. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd gan bartneriaethau dinas-ranbarth eraill ar draws y DU i sicrhau bod y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ehangach yn derbyn llywodraethu a strategaeth y ddinas-ranbarth.

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd hefyd wedi ymrwymo i gryfhau'r Bartneriaeth Ddysgu, Sgiliau ac Arloesedd bresennol, sydd i gael eu hail-lansio fel Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd. Bydd y Bwrdd yn cynrychioli ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys: sefydliadau busnes; addysg uwch a phellach; Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Cymru. Bydd yn gyfrifol am:

- Strategaeth sgiliau a diweithdra Prifddinas-Ranbarth Caerdydd;
- Adnoddau sgiliau Llywodraeth Leol a rennir gan gynnwys unrhyw gyllideb ddatganoledig Llywodraeth Cymru;
- Cynhyrchu cynllun rhanbarthol blynyddol ar gyfer cyflogaeth a sgiliau. Bydd y cynllun blynyddol hwn, a arweinir gan ddiwydiant, yn nodi sut y bydd anghenion sgiliau presennol busnesau a heriau sgiliau yn y dyfodol i’r Brifddinas-Ranbarth yn cael eu trin;
- Dylanwadu a monitro cyflenwad ac effaith rhaglenni cyflogaeth a sgiliau ar draws y rhanbarth;
- Sicrhau bod dull a arweinir gan ddiwydiant o ran cynllunio a chyflenwi rhaglenni prentisiaeth yn cwrdd ag anghenion busnes a phrentisiaid;
- Cefnogi cynllun 'Cwricwlwm Cymru, Cwricwlwm am Oes' Llywodraeth Cymru, trwy annog aliniad agosach rhwng anghenion sgiliau cyflogwyr yn y dyfodol a darpariaeth addysg ar draws y rhanbarth; a
- Sicrhau bod y buddsoddiadau arian Undeb Ewropeaidd a ymrwymwyd mewn sgiliau a chyflogaeth yn ychwanegu gwerth ac alinio â rhaglenni eraill.

Ymrwymiad arall ym Mhenawdau'r Telerau oedd i ddatblygu Sefydliad Busnes Rhanbarthol, a oedd yn cynnwys grwpiau rhanddeiliaid busnes allweddol ar draws y rhanbarth. Bydd llais unigol i fusnesau ar draws y rhanbarth yn cryfhau mewnbwn busnes i weithgarwch

perthnasol y Fargen Ddinesig. Rhagwelir lansiad y sefydliad newydd yn ystod gwanwyn 2017.

Ceir cysylltiadau clir rhwng gwaith y BGC a'r Ddinas-Ranbarth a bydd y berthynas hon yn parhau i ddatblygu. Bu'n amlwg drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu 'Amser Siarad' fod trafnidiaeth yn fater pwysig i bobl o bob oed ac yn enwedig i bobl hŷn yn y Fro. Mae'r BGC yn awyddus i weithio fel rhan o'r ddinas-ranbarth i sicrhau bod trafnidiaeth yn gwella yn lleol ac yn rhanbarthol.

Gall cysylltiadau trafnidiaeth yr ardal effeithio ar yr ansawdd aer gwael a geir mewn rhai ardaloedd yn y Fro. Gall seilwaith a gwasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy gyfrannu at leihau effeithiau negyddol ceir ar yr amgylchedd, lleihau tagfeydd, gwella iechyd a llesiant, gwella mynediad at gyflogaeth, iechyd ac addysg a chyfleusterau eraill, a lleihau'r risg o ddamweiniau ar y ffyrdd. Mae'r amcanion yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol y Fro sy'n ategu'r Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys cynyddu nifer y teithiau beicio, cynyddu nifer y lleoedd a defnyddwyr parcio a theithio, lleihau tagfeydd a gwella ansawdd yr aer ar gyffyrdd strategol a gwella hygyrchedd i wasanaethau bws.

Mewn lleoliadau gwledig lle na ellir cyflawni Cynlluniau Teithio Byw, hyrwyddir darpariaeth trafnidiaeth gymunedol a gwasanaeth bws i gefnogi gwelliannau mewn hygyrchedd ar gyfer grwpiau defnyddwyr sy'n fwy agored i niwed, ac mae nifer o wasanaethau trafnidiaeth gymunedol yn y Fro, gan gynnwys Llwybr Gwyrdd.

Roedd trafnidiaeth yn codi'n aml fel pwnc yn ystod ein hymarfer ymgysylltu yn arbennig yng Ngorllewin y Fro wledig. Roedd ymatebwyr eisiau gwelliannau i drafnidiaeth gyhoeddus, yn arbennig amlder bysiau a threnau mewn ardaloedd gwledig er bod rhai yn teimlo bod y gwasanaethau'n dda. Roedd cyflwr ffyrdd a phalmentydd hefyd yn fater a godwyd yn aml. Daeth y thema hon hefyd i'r amlwg drwy Broject Mapio Cymunedol Sain Tathan lle nododd trigolion nad oedd amserlenni gwasanaeth bws i'r orsaf drenau agosaf yn Llanilltud Fawr yn cyd-fynd, ac felly nid oeddynt yn caniatáu i ddefnyddwyr gymudo i mewn i Gaerdydd yn ystod yr adegau prysuraf heb amser aros o 1+ awr.  Ers cynnal y project, cychwynnwyd ar drafodaethau gyda'r darparwyr.

Mae seilwaith TGCh hefyd yn cael effaith sylweddol ar economi'r ardal er mwyn denu busnesau a seilwaith.  Trigolion a busnesau'r Fro yw ymhlith y cyntaf yng Nghymru i elwa ar y rhaglen Cyflymu Cymru arloesol gwerth miliynau, sy'n dod â band llydan ffibr cenedlaethol i Gymru.

Mae gan y defnydd o TG hefyd y potensial i gyfrannu at leihau allyriadau carbon, e.e. lleihau'r angen i deithio, ond mae ganddo ôl troed carbon ei hun sy’n agos iawn at un y diwydiant awyrennau.

Ar lefel genedlaethol mae’r defnydd o fand eang gan y cyhoedd yng Nghymru yn is nag yn Lloegr, ond mae hyn yn adlewyrchu proffil demograffig yn bennaf yn hytrach na mynediad cyfyngedig. Mae Arolwg Barn y Cyhoedd y Fro a gynhaliwyd yn 2014 yn dangos 80% o drigolion yn defnyddio'r rhyngrwyd, sy'n gynnydd o 72% yn arolwg 2010. Gwelwyd y gwahaniaeth mwyaf rhwng grwpiau oedran, gyda 95% o'r rhai dan 55 oed yn defnyddio'r rhyngrwyd, ond dim ond 54% o'r rhai 55+ oed yn gwneud hynny. Mae amrywiaeth o brojectau ar y gweill i wella sgiliau digidol a mynediad digidol ar draws Bro Morgannwg, er enghraifft mae nifer o aelodau'r Fforwm Strategaeth 50+ y Fro erbyn hyn yn cael eu hyfforddi fel hyrwyddwyr digidol, i ddarparu sesiynau galw i mewn TG ar gyfer pobl hŷn.

Mae seilwaith TGCh yn hanfodol wrth ddenu a galluogi busnesau i weithredu yn yr ardal ond gall mynediad at y rhyngrwyd hefyd fod yn bwysig i lesiant unigolyn mewn ystyr economaidd, h.y. y gallu i gael gafael ar y bargeinion gorau ar-lein ayb, ond hefyd trwy alluogi pobl i gael eu cynnwys yn gymdeithasol. Gallai hyn fod yn arbennig o bwysig i bobl hŷn y Fro, yn enwedig yn ardaloedd gwledig Gorllewin y Fro lle mae perygl o arwahanrwydd cymdeithasol fel y nodwyd yn gynharach. Byddai mynediad i'r rhyngrwyd a datblygiadau mewn technoleg megis galwadau fideo yn caniatáu i bobl sydd mewn perygl o arwahanrwydd cymdeithasol aros mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu a bod yn rhan o’r cymunedau digidol newydd.

## Diwylliant a Thwristiaeth

Noda Adroddiad Deall Dyfodol Cymru mai un o'r ffactorau pwysicaf o ran denu pobl i helpu busnesau lleol ffynnu yw pa mor atyniadol yw’r ardal. Bydd lleoedd sy'n ddeniadol i'r rhai a gafodd addysg dda yn tueddu i "ennill" a bydd angen i ganolfannau trefol llai seilio eu hapêl ar eu hansawdd bywyd cyffredinol.

Mae mannau deniadol yn helpu i ddenu trigolion a thwristiaid fel ei gilydd, ac yn helpu i wella llesiant economaidd ardal. Bydd darparu atyniadau twristiaid ac eraill hefyd yn cyfrannu at lesiant diwylliannol ardal.

Mae cyfanswm y nifer o ymwelwyr i Fro Morgannwg i ddibenion twristiaeth yn parhau i gynyddu. Ers adroddiad Twristiaeth STEAM a gynhyrchwyd yn 2004-2015, bu cynnydd o 18.5% yn nifer yr ymwelwyr â'r ardal. Yn ogystal, bu cynnydd o 64.8% yn effaith economaidd twristiaeth ym Mro Morgannwg yn ystod y cyfnod hwn a chynnydd o 10.9% yng nghyfanswm cyflogaeth a gefnogir gan y diwydiant twristiaeth.

Mae’r Fro yn elwa o ystod eang o asedau naturiol a werthfawrogir gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd, a gellir gweld ein hamgylchedd naturiol fel un o'r atyniadau mwyaf i dwristiaid, drwy atyniadau megis yr Arfordir Treftadaeth a digonedd o draethau baner las.


Mae'r atyniadau hefyd yn hyrwyddo amrywiaeth o fanteision iechyd gan ddangos cyfraniad yr amgylchedd tuag at lesiant ein trigolion, ac maent yn ffurfio rhan annatod o ddiwylliant y Fro.

Hefyd mae agosrwydd y Fro i Gaerdydd yn nodwedd amlwg o ddiwylliant y Fro, ac mae'n bwysig nid yn unig o ran denu twristiaeth ond o ran cynnig cyfleoedd diwylliannol i drigolion ac ymwelwyr. Yn ystod yr ymgyrch ymgysylltu, tynnwyd sylw at y ffaith bod agosrwydd y Fro i Gaerdydd a chyfleoedd diwylliannol y brifddinas yn ased. Er y cydnabyddir hwn fel ased, rhaid nodi hefyd ei bod yn golygu cystadleuaeth.

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru, wrth ystyried p'un a yw trigolion wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydol, ymweld â lleoedd hanesyddol neu ymweld ag amgueddfa yng Nghymru, bod y Fro yn sgorio'n uchel o'i chymharu ag ardaloedd eraill yng Nghymru ar draws y tri gweithgarwch, sy'n dangos cyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgareddau diwylliannol. Dangosodd dadansoddiad o ddata'r Arolwg Cenedlaethol hefyd nad yw cyfraddau presenoldeb yn cael eu dylanwadu gan p'un a yw person yn byw mewn ardal drefol neu wledig.

Gofynnodd yr Arolwg Amser Siarad i ymatebwyr ystyried pa mor aml yr oeddynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis chwaraeon, hamdden a gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol. Y categori celfyddydol a diwylliannol oedd yr un yr oedd ymatebwyr leiaf tebygol o ddweud eu bod yn cymryd rhan ynddynt yn ddyddiol, gyda'r mwyafrif yn dweud eu bod yn cymryd rhan unwaith neu ddwywaith y mis. Amlygwyd amser fel y ffactor mwyaf a oedd yn rhwystro ymatebwyr rhag cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau o'r fath, ac yna arian. Roedd hyn yn wir ar draws pob grŵp oedran ac eithrio pobl 18-24 oed, lle mai arian oedd y rhwystr mwyaf. Nododd cyfran uwch o ymatebwyr Amser Siarad fod gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn na'r rhai a ddywedodd nad oedd y gweithgareddau hyn yn bwysig.

**Arolwg Amser Siarad 2016 – Pa mor bwysig yw'r canlynol i chi?**




Ffynhonnell: BGC Bro Morgannwg - Arolwg Amser Siarad 2016

Mae canran is o drigolion y Fro yn gallu siarad Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol. Amrywia cyfradd y siaradwyr Cymraeg ar draws y Fro gyda'r cyfraddau isaf mewn ardaloedd yn Nwyrain y Fro yn ogystal â Sain Tathan a Llanilltud Fawr, sydd i'w briodoli efallai i'r boblogaeth dros dro yn yr ardal hon oherwydd gorsaf yr Awyrlu Brenhinol. Gofynnwyd i ymatebwyr Amser Siarad ystyried pa mor bwysig oedd amrediad o agweddau iddynt gan gynnwys crefydd, y celfyddydau a diwylliant, chwaraeon, yr iaith Gymraeg, a diwylliant a threftadaeth Cymru. Yr iaith Gymraeg oedd y mater y teimlai'r rhan fwyaf o ymatebwyr nad oedd yn bwysig o gwbl, a'r mater y teimlai'r lleiaf o ymatebwyr lleiaf oedd yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn. Fodd bynnag, nododd nifer uchel o ymatebwyr bod diwylliant a threftadaeth Cymru yn weddol bwysig neu'n bwysig iawn. Mae'n ddiddorol nodi bod yr arolwg yn fyw yn ystod ymgyrch pêl-droed Ewro 2016 Cymru.

## 6.3 Crynodeb

Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn ardal sydd â lefelau da o gyrhaeddiad addysgol gydag incwm a chyfraddau cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, fel gydag amrywiaeth o ddangosyddion eraill a ystyriwyd drwy gydol yr asesiad hwn, ceir ardaloedd clir yn enwedig yn rhan Ddwyreiniol y Barri lle mae cyrhaeddiad addysgol yn is a gall hyn fod yn gysylltiedig ag incwm a lefelau cyflogaeth is.

Er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth yn cael y cyfle gorau posibl i wneud y gorau o'u cyfleoedd, mae cael addysg dda yn hynod bwysig. Gweithreda addysg fel sylfaen allweddol ar gyfer llwyddiant economaidd nid yn unig unigolion, ond yr ardal yn ogystal. Mae addysg yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer cyflogaeth sy'n cynnig lefel uchel o amddiffyniad yn erbyn tlodi, ac yn enwedig yn erbyn tlodi dwfn a pharhaus (a hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant). Mae'r un ardaloedd ym Mro Morgannwg yn profi normau wedi ymwreiddio'n ddwfn o gyflawniad addysgol is, cyfraddau cyflogaeth is ac incwm is. Fel yr ydym eisoes wedi archwilio, gall dylanwad ffactorau cymdeithasol-economaidd yn y blynyddoedd cynnar fod yn hanfodol wrth benderfynu ar gyfleoedd bywyd a chyfleoedd ein cenedlaethau'r dyfodol.

Gwelir mai un o'n prif heriau, ar ôl helpu ein trigolion i gael swydd, yw eu helpu i gynnal y gyflogaeth honno fel eu bod yn medru cael dyrchafiad o fewn y swydd, a helpu i sicrhau gwell dyfodol.  Gallai lleoliad y Fro gael ei ystyried yn un o'i hasedau mwyaf o ran mwyhau llesiant economaidd ein trigolion a'r ardal. Mae cryn weithgarwch yn digwydd o ran y Brifddinas-Ranbarth, sy'n symud ymalen i'r cam nesaf o'i datblygiad. Mae'r BGC yn awyddus i weithio fel rhan o'r rhanbarth er mwyn sicrhau buddiannau lleol a rhanbarthol a bydd nifer o brojectau seilwaith yn helpu cefnogi twf economaidd yn y Fro a'r rhanbarth ehangach gan gynnwys trydaneiddio prif lein y Great Western, Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan.  Roedd trafnidiaeth yn fater a godwyd yn ystod ein hymgysylltu, ac mae'r BGC yn ymwybodol o'r angen i roi sylw priodol i'r prifddinas-ranbarth a'r cynllun metro wrth gynllunio unrhyw weithgareddau.

Yn olaf gellir awgrymu bod y Fro mewn sefyllfa unigryw i helpu trigolion wneud y mwyaf o'u cyfleoedd. Mae gan y Fro gysylltiadau trafnidiaeth da i mewn i Gaerdydd, sy'n darparu cyfoeth o gyfleoedd economaidd a diwylliannol, ond mae hefyd yn ardal sydd ag amgylchedd naturiol cyfoethog fel un o'i hasedau mwyaf. Mae'r amgylchedd naturiol yn denu ymwelwyr, gan wella economi'r ardal ymhellach, ond mae hefyd yn darparu ystod o fuddion llesiant i drigolion.

## 6.4 Lle mae angen i ni gynyddu ein sail dystiolaeth?

Mae'n rhaid i'r asesiad llesiant gael ei weld fel proses barhaus o ddeall ein cymunedau yn well er mwyn gwella llesiant ein trigolion a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol. Bydd y BGC yn ystyried sut y gellir sicrhau y cedwir ein sylfaen dystiolaeth yn 'fyw' a dod yn adnodd deinamig i bawb.

Byddwn hefyd yn parhau i wella'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon o'r asesiad a chydnabyddir bod angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â'r canlynol, naill ai oherwydd nad oes data cadarn ar gael ar hyn o bryd neu oherwydd bod dadansoddiad yn dal i fynd yn ei flaen.

- Rydym wedi nodi bod rhai ardaloedd yn profi lefelau is o gyrhaeddiad addysgol, ac incwm a lefelau cyflogaeth is. Cesglir mwy o dystiolaeth i ddeall profiadau'r rhai sy'n profi allgáu ariannol fel tlodi bwyd a thanwydd a mynediad i gynhyrchion ariannol prif ffrwd.
- Mae sgiliau digidol a mynediad yn faes lle nad oes ond cymharol ychydig o dystiolaeth a data yn bodoli ar lefel leol.
- Ar hyn o bryd, mae data a thystiolaeth yn cael ei ffocysu ar ddiffiniad llesiant diwylliannol mwy traddodiadol. Rydym yn cydnabod y gall ystyr diwylliant fod yn dra gwahanol i wahanol grwpiau yn y boblogaeth, a byddai angen mwy o ymchwil i ddeall hyn. Er enghraifft, rydym yn cydnabod bod chwarae gemau fideo bellach yn rhan fawr o ddiwylliant llawer o bobl ifanc.
- Byddai diweddaru cymariaethau cyrhaeddiad addysgol gydag ardaloedd yn Lloegr yn helpu i nodi sut mae'r Fro yn perfformio ar hyn o bryd mewn perthynas ag ardaloedd sydd â phroffil economaidd-gymdeithasol tebyg. Byddai hefyd angen ymchwil pellach i archwilio'r tueddiadau y gallwn ddisgwyl eu gweld yn y dyfodol wrth gymharu ag ardaloedd mewn gwledydd eraill, yn enwedig o gofio'r canlyniadau PISA 2016 diweddar i Gymru.
- Tystiolaeth mewn perthynas â maint y traffig ar rwydwaith ffyrdd y Fro a'r pwysau a allai godi o unrhyw ddatblygiadau yn y dyfodol o ran tagfeydd ar y ffyrdd a'r effaith ar lygredd aer a sŵn.
- Mwy o dystiolaeth leol mewn perthynas ag effaith iechyd gwael ar lesiant economaidd.

## 7. Ein Casgliad: Cyflwr Llesiant ym Mro Morgannwg

Pan fydd y dystiolaeth a gyflwynir yn ein hasesiad yn cael ei hystyried ar lefel awdurdodau lleol, gwelir bod gan Fro Morgannwg a'i thrigolion lefel dda o lesiant cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol. Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn gymharol gyfoethog ac mae llawer o'r trigolion yn mwynhau safon uchel o fyw mewn amgylchedd diogel a deniadol. Fodd bynnag, mae ardaloedd ym Mro Morgannwg sy'n dioddef o anfantais sylweddol, gan gynnwys diweithdra uchel, llai o ddisgwyliad oes iach, cyflawniad addysgol isel a lefelau uwch o droseddu. Ar draws yr amryw ffactorau gwahanol hyn, yr un ardaloedd yn y Fro, yn enwedig ardal ddwyreiniol y Barri, sy'n dioddef yn gyson.

Mae'r bwlch anghydraddoldeb o ran disgwyliad oes iach yn achos pryder i'r BGC, a cheir cydberthynas rhwng yr ardaloedd gyda'r disgwyliad oes iach isaf a'r rhai mwyaf difreintiedig fel y nodwyd drwy MALlC 2014. Mae'r rhain wedi eu lleoli yn bennaf mewn ardaloedd yn rhan ddwyreiniol y Barri, fel Gibbonsdown, Castleland a Buttrills, ac yn yr ardaloedd hyn hefyd y ceir lefelau uwch o ordewdra, lefelau ysmygu uwch a chyfraddau uwch o farwolaethau alcohol-benodol.

Dengys ein hadroddiad o dystiolaeth fanwl bod gan blant ifanc yn y Fro yn gyffredinol lefel dda o lesiant, er hyd yn oed pan yn ifanc, mae'r canlyniadau i blant yn yr un ardaloedd o'r Barri yn llai dymunol na rhai eu cyfoedion, gan ddangos pwysigrwydd profiadau yn y blynyddoedd cynnar ac iechyd a llesiant y fam cyn, yn ystod, ac ar ôl beichiogrwydd

Gwelir cyfraddau troseddu isel fel agwedd gadarnhaol ar fywyd yn y Fro, er y gellir gweld gwahaniaethau rhwng ardaloedd gyda chyfraddau troseddu uwch mewn ardaloedd mwy difreintiedig. Er bod llawer o ardaloedd y Fro yn profi cyfraddau troseddu isel, pan geir digwyddiadau troseddol, ni ellir diystyru effeithiau digwyddiadau o'r fath ar lesiant dioddefwyr y fath ddigwyddiadau.

Dangosodd canfyddiadau ein hymgyrch ymgysylltu bod pobl yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am fywyd yn y Fro ac yn teimlo bod ganddynt rwydweithiau cryf o ffrindiau a chymdogion i ddibynnu arnynt. Yn gyffredinol mae pobl yn cymryd rhan ym mywyd y gymuned er bod y rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig, y gellir awgrymu bod angen i ni ymgysylltu mwy â hwy, yn llai tebygol o gymryd rhan, gyda lefelau is o wirfoddoli a graddfa is o bobl sy'n pleidleisio yn yr ardaloedd hyn. Roedd pobl yn y Fro hefyd yn llai tebygol o gytuno bod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda na'r cyfartaledd ar draws Cymru. Mae digwyddiadau trosedd casineb wedi cynyddu'n gyson, ac nid yw effaith bellach ar gydlyniant cymunedol o ddigwyddiadau fel canlyniad refferendwm yr UE yn hysbys eto.

Roedd aelodau'r BGC yn pryderu ynghylch fforddiadwyedd tai a'r angen i sicrhau nad yw pobl leol, yn enwedig pobl ifanc, yn cael eu prisio allan o'r cymunedau y maent wedi eu magu ynddynt. Maent yn cydnabod potensial tai anfoddhaol/ gorlawn ar ystod o ffactorau fel iechyd a chyrhaeddiad addysgol.

Yn gyffredinol mae Bro Morgannwg yn ardal sydd â lefelau da o gyrhaeddiad addysgol gydag incwm a chyfraddau cyflogaeth uwch na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae ardaloedd clir yn enwedig yn rhan Ddwyreiniol y Barri lle mae cyrhaeddiad addysgol yn is a gall hyn fod yn gysylltiedig ag incwm a lefelau cyflogaeth is yn yr ardal.

Er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth yn cael y cyfle gorau posibl i wneud y gorau o'u cyfleoedd, mae cael addysg dda yn hynod bwysig. Gweithreda addysg fel sylfaen allweddol ar gyfer llwyddiant economaidd nid yn unig unigolion, ond yr ardal yn ogystal. Mae addysg yn gweithredu fel sylfaen ar gyfer cyflogaeth sy'n cynnig lefel uchel o amddiffyniad yn erbyn tlodi, ac yn enwedig yn erbyn tlodi dwfn a pharhaus a hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at lesiant. Mae'r un ardaloedd ym Mro Morgannwg yn profi normau wedi ymwreiddio'n ddwfn o gyflawniad addysgol is, cyfraddau cyflogaeth is ac incwm is. Fel yr ydym eisoes wedi archwilio, gall dylanwad ffactorau cymdeithasol-economaidd yn y blynyddoedd cynnar fod yn hanfodol wrth benderfynu ar gyfleoedd bywyd a chyfleoedd ein cenedlaethau'r dyfodol

Gwelir mai un o'n prif heriau, ar ôl helpu ein trigolion i gael swydd, yw eu helpu i gynnal y gyflogaeth honno fel eu bod yn medru cael dyrchafiad o fewn y swydd, a helpu i sicrhau gwell dyfodol.  Gallai lleoliad y Fro gael ei ystyried yn un o'i hasedau mwyaf o ran mwyhau llesiant economaidd ein trigolion a'r ardal. Mae cryn weithgarwch yn digwydd o ran y Brifddinas-Ranbarth, sy'n symud ymalen i'r cam nesaf o'i datblygiad. Mae'r BGC yn awyddus i weithio fel rhan o'r rhanbarth er mwyn sicrhau buddiannau lleol a rhanbarthol a bydd nifer o brojectau seilwaith yn helpu cefnogi twf economaidd yn y Fro a'r rhanbarth ehangach gan gynnwys trydaneiddio prif lein y Great Western, Metro Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, a Maes Awyr Caerdydd ac Ardal Fenter Sain Tathan.  Roedd trafnidiaeth yn fater a godwyd yn ystod ein hymgysylltu ac mae'r BGC yn ymwybodol o'r angen i roi sylw priodol i'r Brifddinas-Ranbarth a'r cynllun metro wrth gynllunio unrhyw weithgareddau.

Gellir awgrymu bod y Fro mewn sefyllfa unigryw i helpu trigolion wneud y mwyaf o'u cyfleoedd. Mae gan y Fro gysylltiadau trafnidiaeth da i mewn i Gaerdydd, sy'n darparu cyfoeth o gyfleoedd economaidd a diwylliannol, ond mae hefyd yn ardal sydd ag amgylchedd naturiol cyfoethog fel un o'i hasedau mwyaf.

Mae'r amgylchedd naturiol yn denu ymwelwyr, gan wella economi'r ardal ymhellach, ond mae hefyd yn darparu ystod o fuddion llesiant i drigolion. Drwy gydol ein hymgyrch ymgysylltu amlygwyd amgylchedd naturiol y Fro yn gyson fel un o'n hasedau mwyaf gyda thrigolion yn gwerthfawrogi'r effaith gadarnhaol a gaiff ar yr amgylchedd ar eu llesiant. Gellir ystyried defnydd cynaliadwy o'n hasedau naturiol yn hanfodol o ran sut rydym yn bwriadu gwella llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r dadansoddiad SWOT canlynol yn nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau cymharol ar gyfer Bro Morgannwg yn seiliedig ar ganfyddiadau'r asesiad hwn.

<table>
<tr>
<td>Cryfderau<br>- Amgylchedd naturiol amrywiol sy'n cael ei werthfawrogi gan drigolion ac yn cyfrannu at lefelau uchel o gyfranogiad mewn chwaraeon yn ogystal â buddion llesiant eraill<br>- Plant ifanc â lefelau uwch o ddatblygiad na'r cyfartaledd<br>- Lefelau gordewdra ar gyfer oedolion a phlant yn lleihau er bod hyn yn dal yn rhy uchel i ddiogelu iechyd cenedlaethau'r dyfodol<br>- Trigolion yn gyffredinol yn gadarnhaol iawn am y Fro fel lle i fyw gyda'r amgylchedd naturiol a chymdogion da yr asedau mwyaf gwerthfawr<br>- Poblogaeth gymharol ymgysylltiedig, gyda nifer uwch na'r cyfartaledd o bobl yn pleidleisio a lefelau gwirfoddoli da<br>- Cyfraddau troseddu isel o’i gymharu ag ardaloedd eraill o Gymru<br>- Lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol yn parhau i gynyddu gan gynnwys cynyddu lefelau cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim<br>- Lefelau isel o ymadawyr ysgol sy'n dod yn NEET<br>- Incwm uwch na’r cyfartaledd er bod gwahaniaethau mawr yn bodoli o fewn y sir<br>- Yn agos at Gaerdydd, gan gynnig amrywiaeth o gyfleoedd diwylliannol ac economaidd i drigolion<br>- Lefelau cynyddol o Dwristiaeth gydag effaith economaidd mawr ar y Fro</td>
<td>Gwendidau<br>- Anghydraddoldebau clir rhwng y bobl ‘gefnog’ a’r bobl ‘dlawd’, sy’n aml yn cael eu cuddio gan ystadegau lefel awdurdod lleol<br>- Synnwyr is ar gyfartaledd o fod yn perthyn i'r ardal<br>- Y bwlch anghydraddoldeb mwyaf yn nisgwyliad oes iach yng Nghymru ar gyfer menywod<br>- Lefelau uchel o yfed alcohol yn enwedig gan bobl hŷn mewn ardaloedd gwledig<br>- Er bod cyfraddau troseddu yn isel yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, gall yr effaith ar lesiant fod yn fwy pan fo trosedd yn digwydd<br>- Mae’n bosibl na ellir dod o hyd i fannau gwyrdd bob tro yn y mannau lle mae eu hangen fwyaf er mwyn cael effaith gadarnhaol ar lesiant<br>- Lefelau is na’r cyfartaledd o dan goetir<br>- Efallai nad yw mannau gwyrdd i’w canfod bob amser yn yr ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf er mwyn cael effaith gadarnhaol ar lesiant<br>- Lefelau is na'r cyfartaledd o orchudd coetir<br>- Nid yw'r buddion amgylcheddol mawn yn cael eu gwireddu ac mae angen rheolaeth briodol i sicrhau ystorfa o garbon<br>- Ymgysylltu â grwpiau anoddach i'w cyrraedd yn dal yn profi’n her, a rhaid ystyried ffyrdd arloesol a newydd i gyrraedd y cyfan o’n poblogaeth<br>- Risg o ynysu'r rhai mewn ardaloedd gwledig sy'n ei chael yn anodd cael gafael ar wasanaethau<br>- Mae diffyg data mewn perthynas â nifer o grwpiau cydraddoldeb i ddeall anghenion ac asedau ein holl boblogaeth yn well</td>
</tr>
<tr>
<td>Cyfleoedd<br>- Adeiladu ar lwyddiant mewn perthynas â lefelau uchel o ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar er mwyn codi cyfleoedd mewn bywyd<br>- Projectau adfywio yn parhau i gynyddu lefelau twristiaeth ac adeiladu brand y Fro<br>- Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o asedau naturiol arbennig i gynyddu'r cyfleoedd chwarae i blant<br>- O'r rhai sy'n economaidd anweithgar yn y Fro, nifer uwch na'r cyfartaledd eisiau swydd<br>- Bydd amrywiaeth o brojectau seilwaith ac adfywio yn cefnogi ymhellach dwf economaidd yn y Fro a'r rhanbarth ehangach fel y Brifddinas-Ranbarth ac Ardal Fenter Maes Awyr Caerdydd<br>- Trigolion yn pryderu am effeithiau newid yn yr hinsawdd, yn ei gydnabod fel mater difrifol a chyfrifoldeb ar y cyd bod rhaid i ni i gydweithio gyda'n gilydd i’w leihau<br>- Trigolion yn ddigidol weithredol  a chymunedau a rhwydweithiau digidol newydd yn bodoli y gellir eu defnyddio i ymgysylltu â'r rhai sydd wedi bod yn anoddach i’w cyrraedd yn y gorffennol<br>- Parhau â’r gwaith a wneir trwy'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig o ran defnyddio agwedd 'ardal' i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned</td>
<td>Bygythiadau<br>- Mae trigolion y Fro yn bryderus am effeithiau economaidd hirdymor canlyniad refferendwm yr UE<br>- Nid yw effeithiau economaidd hirdymor canlyniad refferendwm yr UE yn hysbys; trigolion y Fro yn pryderu am hyn<br>- Newid yn yr hinsawdd ac effaith trychinebau naturiol<br>- Prisiau tai uchel a all ddod yn anfforddiadwy i bobl leol ac effaith hyn ar yr ymdeimlad o berthyn a chydlyniad cymunedol<br>- Effaith diwygiadau llesiant yn cynyddu’r rhwyg rhwng yr ardaloedd mwyaf amddifad a’r rhai lleiaf amddifad<br>- Effaith diwygiadau lles pellach yn cynyddu'r rhaniad rhwng y rhai yn yr ardaloedd mwyaf a lleiaf amddifad<br>- Galw cynyddol am wasanaethau o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio mewn cyfnod o galedi ariannol<br>- Yn gysylltiedig â phoblogaeth sy'n heneiddio, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig, mwy o risg o arwahanrwydd cymdeithasol oherwydd pryderon am gysylltiadau trafnidiaeth mewn cymunedau gwledig<br>- Mae’r cynnydd mwyaf a ragwelir mewn swyddi a fydd ar gael yn 2025 mewn gofal preswyl a bwytai/ diwydiannau gwasanaeth bwyd symudol sy’n draddodiadol yn swyddi cyflog is a chyflogaeth ran-</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | amser<br>- Bygythiadau gan brisiau tanwydd yn codi a thrychinebau  naturiol sy’n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ar gymudwyr, mae’r gyfran fwyaf o drigolion yn cymudo mewn car; codwyd pryderon ynglŷn ag amodau ffordd gwael a dirywiad ansawdd yr awyr.<br>- Colli bioamrywiaeth trwy safle a amddiffynnir yn dirywio a datblygu tir gwyrdd neu llwyd<br>- Bygythiadau i gymudwyr o du prisiau tanwydd cynyddol a thrychinebau naturiol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd; mae’r gyfran uchaf o drigolion yn cymudo drwy car a mynegwyd pryderon dros gyflwr gwael y ffyrdd<br>- Effaith Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod ar gyfleoedd bywyd gyda lefelau uchel o ymddygiad niweidiol wedi’i grynhoi yn yr ardaloedd mwyaf amddifad |

## 8. Mae ein Taith yn Parhau ... Beth a wnawn ni nesaf?

Mae'r BGC wedi nodi ystod o themâu eang i'w hystyried yn fanylach fel rhan o'r cam nesaf o gynnal yr asesiad llesiant. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd, er mwyn sicrhau llesiant ein cenedlaethau'r dyfodol, nodwyd bod rhaid i ni weithio i:

- Sicrhau bod plant ifanc yn cael dechrau da mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod
- Ymdrin ag anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion sy'n fwy difrifol mewn rhai o'n cymunedau mwyaf amddifad. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddull sy'n seiliedig ar le, ac adeiladu ar beth o waith presennol y BGC.
- Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd fel un o'n hasedau pwysicaf er mwyn sicrhau bod adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal mewn modd cynaliadwy, eu gwella, a'u defnyddio nawr ac i'r dyfodol.
- Gwella ein hymgysylltiad â'n cymunedau, gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol a bod yn fwy arloesol gan gynnwys hyrwyddo gwirfoddoli.

Cydnabyddir bod y rhain yn themâu eithaf eang a bydd angen i ni ystyried y ffordd orau o ymdrin ag archwiliad manylach o'r pynciau hyn fel rhan o'r cam 'ymateb' nesaf ein dadansoddiad a datblygiad ein Cynllun Llesiant. Bydd y dadansoddiad SWOT cynharach yn nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau i Fro Morgannwg wedi eu seilio ar ganfyddiadau'r asesiad a byddant yn ein cynorthwyo i fanylu ar bob un o'r themâu a nodwyd uchod i benderfynu ar y camau gweithredu tymor byr, canolig a hir sydd eu hangen i wella llesiant yn y Fro.

Nodwyd y themâu bras hyn drwy ystyried y canfyddiadau a nodir yn yr asesiad ar gyfer y Fro yn gyffredinol ac ar gyfer ardaloedd penodol a grwpiau oedran. Trafododd y BGC y prif faterion o'r asesiad a oedd yn tynnu at ei gilydd ddadansoddiad o ddata ac ymchwil a gwybodaeth allweddol a gasglwyd drwy ein gweithgareddau ymgysylltu. Roedd y BGC yn awyddus i nodi meysydd lle y gallem ychwanegu gwerth yn gasgliadol, ac ar ôl ystyried yr ystod eang o wybodaeth, yr her oedd ystyried:

- Lle gall y BGC ychwanegu gwerth a chael yr effaith fwyaf?
- Pa faterion sydd angen dadansoddiad pellach i helpu llywio ein hamcanion a'n cynllun?

Fel rhan o'r trafodaethau hyn, buom hefyd yn ystyried asedau yn y Fro, a'r strategaethau, partneriaethau a phrojectau sydd eisoes yn eu lle. Roedd y rhain yn cynnwys Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol a chynlluniau allweddol megis Strategaeth Gomisiynu'r Bwrdd Cynllunio Ardal a gwaith Bro Ddiogelach.

Ar ôl nodi ac ymgynghori ar y pedair thema fras, yr her nesaf yw datblygu proses ar gyfer penderfynu ar y camau a fydd yn mwyhau'n cyfraniad i'r nodau cenedlaethol. Gwneir y gwaith hwn yng nghyd-destun ein cyfraniadau i ystod eang o weithgareddau eraill. Bydd hyn yn sicrhau diwallu anghenion lleol drwy'r mecanwaith mwyaf priodol, a sicrhau bod integreiddio a chydweithio effeithiol, ond nid dyblygu.

Dengys y tabl isod sut y bydd y themâu trawsbynciol a nodwyd gan y BGC drwy drafod ac ystyried pob agwedd ar yr asesiad, yn cyfrannu tuag at y nodau llesiant cenedlaethol. Fel rhan o'r ymgynghoriad ar yr asesiad drafft, gofynnwyd i'r cyhoedd a rhanddeiliaid os oeddent yn cytuno â'r themâu sy'n dod i'r amlwg ac roedd cefnogaeth ar ffocysu sylw ar y pedwar maes, a chydnabod y cydgysylltedd rhyngddynt.

| Thema trawsbynciol | Nodau Llesiant Cenedlaethol | Agwedd ar lesiant | Adroddiad Tystiolaeth WBA |
|---|---|---|---|
| **Blynyddoedd Cynnar** – Sicrhau bod plant ifanc yn cael dechrau da mewn bywyd ac atal Profiadau Niweidiol Plentyndod | • Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Cymunedau cydlynol<br>• Mwy Cyfartal<br>• Iachach | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol | • Cael Dyfodol Iach a Gweithgar<br>• Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol<br>• Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad |
| **Ymgysylltu** – Gwella ein hymgysylltu a'n cymunedau, gan ddefnyddio rhwydweithiau presennol a bod yn fwy arloesol gan gynnwys hyrwyddo gwirfoddoli | • Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Cymunedau cydlynol<br>• Mwy Cyfartal | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol<br>• Amgylcheddol | • Cael Dyfodol Iach a Gweithgar<br>• Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol |
| **Ymdrin ag anghydraddoldebau** – yn gysylltiedig ag amddifadedd, gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o faterion mwy difrifol yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig. | • Iachach<br>• Ffyniannus<br>• Cymunedau cydlynol<br>• Mwy Cyfartal | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol<br>• Amgylcheddol | • Cael Dyfodol Iach a Gweithgar<br>• Bod yn Rhan o Gymunedau Diogel a Chynhwysol<br>• Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad<br>• Ein Hamgylchedd |
| **Gwarchod, gwella a gwerthfawrogi'r amgylchedd – fel un o'n hasedau mwyaf i sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu cynnal mewn modd cynaliadwy, gwell a'u defnyddio yn awr ac yn y dyfodol. | • Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu<br>• Iachach<br>• Cydnerth<br>• Ffyniannus<br>• Yn gyfrifol ar lefel fyd-eang | • Cymdeithasol<br>• Economaidd<br>• Diwylliannol<br>• Amgylcheddol | • Cael Dyfodol Iach a Gweithgar<br>• Mwyhau Cyfleoedd a Chyrhaeddiad<br>• Ein Hamgylchedd |

Bydd ein camau nesaf yn ymwneud â pharhau i wella a datblygu ystod o gynhyrchion sy'n cynnwys ein Hasesiad Llesiant. Bydd hyn yn cynnwys gwella ein sylfaen wybodaeth gydag ychwanegiad ystod o dystiolaeth bellach pan fo honno ar gael, ac amlygwyd y meysydd hyn ym mhob adran o'r asesiad. Byddwn hefyd yn gweithio i ddatblygu ein dadansoddiad 'ymateb' yn y meysydd a nodwyd uchod, a fydd yn cynnwys dull mwy trylwyr a gwerthusol o ddadansoddi cyflwr llesiant ym Mro Morgannwg.

Bydd ein sylfaen dystiolaeth yn parhau i gynyddu wrth i'r gwaith o gynhyrchu adnoddau gwerthfawr megis Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru a Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru symud ymlaen. Bydd y Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig hefyd yn cynhyrchu Cynllun Ardal Rhanbarth Caerdydd a'r Fro mewn ymateb i ganfyddiadau'r Asesiad Anghenion Poblogaeth. Pwrpas y cynlluniau ardal yw darparu disgrifiad o ystod a lefel y gwasanaethau y bwriedir eu darparu, neu eu trefnu, er mwyn ymateb i anghenion gofal a chymorth; ac anghenion cymorth gofalwyr, a nodwyd yn yr adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth. Bydd y Cynllun Ardal yn cyfrannu tuag at ymdrin â nifer o'r materion a nodwyd yn ein Hasesiad Llesiant a'n Cynllun Llesiant, a fydd yn cael eu datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Ardal er mwyn osgoi dyblygu.

Bydd angen i ni hefyd ystyried sut yr ydym yn sicrhau na fydd yr asesiad llesiant yn ymarfer untro, ac y bydd yn broses barhaus gydag adnoddau deinamig ar gael i sicrhau bod sail dystiolaeth gyfredol yn parhau i fod ar gael.

Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'n poblogaeth a sicrhau bod deialog barhaus yn datblygu gyda'n cymunedau drwy'r ymgyrch Amser Siarad. Byddwn yn ystyried ffyrdd mwy arloesol y gallwn wneud hynny er mwyn osgoi blinder ymgynghori a chyrraedd trawstoriad ehangach o'n poblogaeth, yn cynnwys y rhai a ystyriwyd yn flaenorol fel rhai anoddach eu cyrraedd.

Wrth wneud hynny, bydd yr asesiad llesiant yn ffurfio sail dystiolaeth gadarn y gall y BGC ddatblygu ei Gynllun Llesiant arni, gan nodi camau gweithredu casgliadol a chyraeddadwy i gyfrannu at nodau llesiant cenedlaethol a mwyhau llesiant cymunedau ym Mro Morgannwg.